Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

## Cadw Ffermwyr i Ffermio

Crynodeb o'r ymatebion a baratowyd gan Miller Research







# Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Crynodeb o'r Ymatebion

Sean Heron, Nick Morgan, Jess Corrado, Yasmin Pemberton, Susannah Lynn, Katie Lloyd / Miller Research (UK) Ltd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Sean Heron

sean@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, y DU

www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

## Tabl Cynnwys


Crynodeb Gweithredol .......... i

1. Cyflwyniad .......... 4

2. Methodoleg .......... 7

3. Dadansoddiad o'r Ymatebion .......... 14

4. Dadansoddiad o'r Cwestiwn .......... 22

Cwestiwn 1: Bydd y Cynllun yn cefnogi ein sector amaethyddol i'r tymor hir i ymateb i heriau ac anghenion sy'n newid, gan gyfrannu at yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Yn eich barn chi, beth all gryfhau'r gefnogaeth hon? .......... 22

Cwestiwn 2: Bydd gofynion Cyffredinol yn yr SFS bod yn rhaid i 10% o leiaf o'ch fferm fod dan orchudd coed, a rhaid rheoli o leiaf 10% o'ch fferm fel cynefin .......... 28

a. Beth yw eich barn am y gofynion hyn?: Coetir .......... 29

b. Pa gefnogaeth a allai fod ei hangen arnoch i'w cynnal? .......... 39

Cwestiwn 3: Ar wahân i'r gofynion o 10% o goetir a chynefin, a fydd y Gweithredoedd Cyffredinol: .......... 41

a. O fantais i fusnes eich fferm? .......... 42

b. Yn rhoi set o gamau ymarferol y gallwch eu cymryd y bydd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn talu amdanyn nhw? .......... 48

Cwestiwn 4: Trwy lunio adroddiadau data fferm, byddwch yn rhoi'r modd i Lywodraeth Cymru allu cadarnhau'ch bod wedi cynnal gweithredoedd a byddan nhw'n eich helpu i wneud penderfyniadau am eich fferm. Yn eich barn chi, a yw gofynion y Gweithredoedd Cyffredinol o ran llunio adroddiadau yn briodol? .......... 52

Cwestiwn 5: Bydd y Taliad Sefydlogrwydd yn rhoi cymorth ychwanegol yn ystod y Cyfnod Pontio. Yn eich barn chi, a yw hyn yn briodol wrth gyflwyno'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol? .......... 58

Cwestiwn 6: Rydym wedi cynnig y dylai fod gan ymgeiswyr reolaeth lwyr ar eu tir am 10 mis a'u bod yn cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol am flwyddyn lawn y cynllun (12 mis). Yn eich barn chi, a yw'r cyfnod o 10 mis yn ddigon? ....... 65
Cwestiwn 7: Rydym yn cynnig bod pawb yn y Cynllun yn defnyddio'r un gyfrifiannell carbon. A ydych yn cytuno a sut y gallwn eich cefnogi i wneud hyn? ....... 70
Cwestiwn 8: Er mwyn cael parhau i gynnal y safonau uchel ar ein ffermydd, rydym yn cynnig ffordd gymesur o ymdrin â mesurau rheoli a sancsiynau, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth ychwanegol fel amod o gael taliad y Cynllun. Beth yw'ch barn am hyn? ....... 76
Cwestiwn 9: Bydd proses apelio Llywodraeth Cymru yn cynnig trefn effeithiol ac effeithlon i ni. A oes unrhyw reswm pam y dylem beidio â'i dilyn? ....... 80
Cwestiwn 10: Hoffem glywed eich barn am y cynigion ar gyfer: ....... 85
a. Taliad Sylfaenol Cyffredinol SFS ....... 85
b. Taliad Sefydlogrwydd SFS ....... 88
Cwestiwn 11: Efallai y bydd ffermwyr y tu allan i'r Cynllun am gael help i gynnal gweithredoedd tebyg i'r rhai a gynigir yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol. Yn eich barn chi, a ddylai ffermwyr sy'n rhan o'r Cynllun gael blaenoriaeth i wneud y gweithredoedd hyn? ....... 90
Cwestiwn 12: Pa gamau a chymorth yn yr haenau Opsiynol a Chydweithredol ddylai yn eich barn chi gael blaenoriaeth? ....... 94
Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r BPS o 2025? Byddan nhw'n cynnwys: ....... 97
a. Y gyfradd y bydd taliadau BPS yn cael eu lleihau. ....... 97
b. Cau'r Gronfa Genedlaethol i ymgeiswyr newydd. ....... 101
c. Trothwyon ar gyfer capio ....... 105
d. Gwahardd trosglwyddo a phrydlesu hawliau ....... 108
Cwestiwn 14: Hoffem wybod eich barn am yr is-ddeddfwriaeth rydym yn cynnig ei chyflwyno, i gefnogi'r BPS ac i gyflwyno

cynlluniau cymorth o dan bwerau Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.......113
Cwestiwn 15: Daw'r gwaith dadansoddi a modelu economaidd i ben yn 2024 gan roi'r dystiolaeth i helpu Gweinidogion Cymru i benderfynu'n derfynol ar sut i roi'r Cynllun ar waith. Hoffem wybod eich barn am y dadansoddiad presennol a'r dystiolaeth sydd ei hangen. .......115
Cwestiwn 16: Hoffem wybod eich barn ynghylch pa wybodaeth a thystiolaeth y dylid eu defnyddio i fonitro a gwerthuso'r Cynllun.......118
Cwestiwn 17 (i): Yn eich barn chi, beth bydd effeithiau tebygol yr SFS ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig yn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg..........123
Cwestiwn 17 (ii): Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo effeithiau positif? Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i leihau effeithiau drwg? .......125
Cwestiwn 18: Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid yr SFS er mwyn• cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu • lleihau effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?.......126
Cwestiwn 19: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am unrhyw agwedd ar y ddogfen ymgynghori?.......128
5. Ymatebion ansafonol .......130
Unigolion .......130
Sefydliadau .......131
6. Ymgyrchoedd .......135
Campaign for National Parks .......135
Undeb Amaethwyr Cymru .......136
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru .......139
Cynghrair y Gweithwyr Tir .......141

Tir Natur ........................................................................................142
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru....................................143
Ymddiriedolaeth Natur Cymru a World Wide Fund for Nature Cymru ......................................................................................145
7. Sioeau teithiol Cynllun Ffermio Cynaliadwy ................................148
8. Gohebiaeth........................................................................................150

MILLER
Research Evaluation Consulting

## Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Dadansoddiad o'r math o ymateb ... 14
Tabl 3.2: Dadansoddiad o ymatebion gan unigolion yn ôl math o fferm ... 15
Tabl 3.3: Dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl categori oedran ... 15
Tabl 3.4: Dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl cod post ... 16
Tabl 3.5: Dadansoddiad o ymatebion y sector ffermio unigol yn ôl cyfranogiad cynlluniau amaeth-amgylcheddol ... 17
Tabl 3.6: Dadansoddiad o ymatebion y sector ffermio unigol yn ôl hawl i bori stoc ar dir comin ... 17
Tabl 3.7: Dadansoddiad o ymatebion unigol y sector ffermio fesul tenantiaeth ... 18
Tabl 3.8: Dadansoddiad o ymatebion unigol y sector ffermio yn ôl derbynwyr Cynllun y Taliad Sylfaenol ... 18
Tabl 3.9: Dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl siaradwyr Cymraeg ... 18
Tabl 3.10: Atebion a gafwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg ... 20
Tabl 3.11: Sefydliadau yn ôl math ... 21
Tabl 4.1: Ymatebion i Gwestiwn 3a ... 42
Tabl 4.2: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 3a ... 46
Tabl 4.3: Ymatebion i Gwestiwn 3b ... 48
Tabl 4.4: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 3b ... 50
Tabl 4.5: Ymatebion i Gwestiwn 4 ... 53
Tabl 4.6: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 4 ... 56
Tabl 4.7: Ymatebion i Gwestiwn 6 ... 66
Tabl 4.8: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 6 ... 68
Tabl 4.9: Ymatebion i Gwestiwn 7 ... 70
Tabl 4.10: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 7 ... 74
Tabl 4.11: Ymatebion i Gwestiwn 9 ... 81

Tabl 4.12: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 9 ..... 83

Tabl 4.13: Ymatebion i Gwestiwn 11 ..... 90

Tabl 4.14: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 11 ..... 92

Tabl 4.15: Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol i'w blaenoriaethu ..... 95

Tabl 4.16: Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol i'w blaenoriaethu ..... 96

Tabl 4.17: Ymatebion i Gwestiwn 13a ..... 98

Tabl 4.18: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 13a ..... 100

Tabl 4.19: Ymatebion i Gwestiwn 13b ..... 101

Tabl 4.20: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 13b ..... 103

Tabl 4.21: Ymatebion i Gwestiwn 13c ..... 105

Tabl 4.22: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 13c ..... 106

Tabl 4.23: Ymatebion i Gwestiwn 13d ..... 109

Tabl 4.24: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 13d ..... 111

Tabl 7.1: Ffigurau presenoldeb bras yn nigwyddiadau sioe deithiol SFS ..... 148

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Atafaelu carbon | Y ffordd y mae systemau naturiol yn tynnu carbon deuocsid o’r atmosffer ac yn ei storio mewn priddoedd neu blanhigion, megis mawndir. |
| Bioamrywiaeth | Yr amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid (gan gynnwys amrywiaeth geneteg ac ecosystemau) a geir drwy ein hamgylchedd cyfan. |
| Cyfnod Pontio | Y cyfnod o amser, sef rhwng 2025 a 2029 yn ôl yr hyn a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad, lle y byddai’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei lansio ac y byddai Cynllun y Taliad Sylfaenol yn cael ei dapro mewn gwerth. Cynigir y byddai rhai agweddau ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael eu cyflwyno yn 2025 ac y byddai eraill yn cael eu cyflwyno yn ystod y Cyfnod Pontio. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Sefydliad a noddir gan Lywodraeth Cymru sy’n gyfrifol am gynghori a rheoleiddio o ran adnoddau naturiol Cymru. |
| Cyfrifiannell Carbon | Dull o fesur ôl troed carbon (faint o garbon sy’n cael ei allyrru a faint o garbon sy’n cael ei wrthbwyso) gwahanol weithgareddau, a gymhwysir yma at weithgareddau busnes fferm. Gall gynnig mesur llinell sylfaen a helpu i nodi cyfleoedd i leihau allyriadau carbon. |
| Cynefin / Cynefin lled-naturiol | At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, mae cynefin yn cyfeirio at yr amrywiaeth eang o fathau o dir megis rhostiroedd, dolydd o flodau neu wlyptiroedd. Mae pob un yn cynnwys ystod wahanol o blanhigion ac anifeiliaid sy’n dibynnu ar y cynefin hwnnw i oroesi. Ystyr ‘lled-naturiol’ yw cynefinoedd sydd wedi cael eu haddasu gan weithgarwch dynol, ond maent yn dal i gynnal planhigion ac anifeiliaid sy’n bresennol yn naturiol. |
| Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y cyfeirio ato hefyd fel y ‘Cynllun’ | Y prif gynllun cymorth arfaethedig i ffermwyr Cymru gan Lywodraeth Cymru o 2025 ymlaen. |
| Cynllun y Taliad Sylfaenol | Y prif gynllun cymorth amaethyddol presennol sy’n rhoi cymorth ariannol i’r diwydiant ffermio. |
| Cyswllt Ffermio | Gwasanaeth Cymru gyfan i deuluoedd ffermio yw Cyswllt Ffermio. Mae’n darparu amrywiaeth o wasanaethau i fusnesau fferm sydd wedi’u teilwra at angen penodol. Mae’r cyngor a gynigir yn annibynnol, yn bwrpasol ac yn gyfrinachol. |
| Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) | Set o dargedau mesuradwy (sy’n ymwneud â’r busnes, da byw neu arferion rheoli) y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniadau rheoli a lywir gan ddata. |
| Datblygiad Personol Parhaus (DPP) | Proses dysgu a datblygu barhaus i feithrin sgiliau a gwybodaeth. |

| | |
|---|---|
| Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 | Cyfeirir ati hefyd fel 'y Ddeddf Amaethyddiaeth': deddfwriaeth newydd i Gymru sy'n rhoi'r pwerau cyfreithiol i Weinidogion Cymru gefnogi gweithgareddau amaethyddol yng Nghymru. Pennodd y Ddeddf amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy |
| Gweithred Gyffredinol (UA) | Mae haen sylfaenol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys y Gweithredoedd Cyffredinol y bydd angen i bob ffermwr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun eu cymryd, yn gyfnewid am gael y Taliad Sylfaenol Cyffredinol. Gellir cyfeirio at y rhain fel "UA1", "UA2", ac ati yn dilyn confensiwn y ddogfen ymgynghori. |
| Gweithredoedd Cydweithredol | Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn cynnwys tair haen. Mae'r haen uchaf yn cynnwys y Gweithredoedd Cydweithredol lle y gall ffermwyr ddewis gweithio gyda'i gilydd ac eraill mewn ffordd gydgysylltiedig i sicrhau canlyniadau ar y cyd nad oes modd eu sicrhau ar raddfa fferm unigol, yn gyfnewid am gael taliadau ychwanegol o dan y cynllun. |
| Gweithredoedd Opsiynol | Mae i strwythur y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig dair haen. Mae'r haen ganol yn cynnnwys y Gweithredoedd Opsiynol lle y gall ffermwyr ddewis Gweithredoedd sy'n ychwanegol at y Gweithredoedd Cyffredinol yn dibynnu ar yr hyn sydd fwyaf addas i'w busnes fferm a'u huchelgeisiau, yn gyfnewid am gael taliadau ychwanegol o dan y cynllun. |
| Rheoli Tir yn Gynaliadwy | Dull holistaidd o ymgorffori adnoddau amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol yn y fath fodd fel y bydd anghenion y genhedlaeth bresennol yn cael ei chydbwyso â rhwymedigaethau i genedlaethau'r dyfodol. Yng Nghymru, diffinnir Rheoli Tir yn Gynaliadwy gan y pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. |
| Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) | Dynodiad ffurfiol ar gyfer ardaloedd o dir neu ddŵr yr ystyrir bod ganddynt werth arbennig i fywyd gwyllt neu nodweddion daearegol. Mae SoDdGAau yn cael eu diogelu'n statudol drwy ddeddfwriaeth benodol. |
| Taliad Sefydlogrwydd | Taliad y tu hwnt i'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol i gefnogi'r broses o bontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ystod y Cyfnod Pontio. |
| Taliad Sylfaenol Cyffredinol | Y taliad blynyddol y bydd pob ffermwr yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn gyfnewid am gwblhau'r Gweithredoedd Cyffredinol fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. |
| Taliadau Gwledig Cymru | Yr Is-adran yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu gwybodaeth a thaliadau mewn perthynas â ffermio a rheoli tir. |
| Y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid | Proses barhaus lle y bydd pob busnes fferm yn gweithio gyda'i filfeddyg i wella iechyd anifeiliaid yn rhagweithiol. |

## Crynodeb Gweithredol

i. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dyma'r trydydd ymgynghoriad ffurfiol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac mae'n amlinellu'r cynigion, gan fanylu ar y canlynol:

- sut y caiff ffermwyr eu gwobrwyo am weithredu'n gyson â'r Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a nodwyd yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy, mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur, a gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol.
- y cymorth a fydd ar gael i ymgymryd â'r gweithredoedd hyn a chyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

ii. Bu cryn dipyn o ddiddordeb yn yr ymgynghoriad ymhlith y cyhoedd, a chyflwynwyd cyfanswm o 12,108 o ymatebion, gan gynnwys ymatebion i'r arolwg ar-lein, ymgyrchoedd gan sefydliadau, a llythyrau neu negeseuon e-bost at Lywodraeth Cymru. Daeth y mwyafrif o'r ymatebion gan ffermwyr, naill ai fel rhan o ymgyrch, neu fel ymatebion gan unigolion a gyflwynwyd i'r arolwg ar-lein, lle y nododd 72% ohonynt eu bod yn ffermwyr.

### Crynodeb o'r canfyddiadau

iii. Mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau mewn ymateb i'r ymgynghoriad, rhai cefnogol a rhai anghefnogol i'r cynigion.

iv. Mewn ymateb i'r Gweithredoedd Cyffredinol arfaethedig a'r newidiadau i Gynllun y Taliad Sylfaenol yn ystod y cyfnod o bontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy y mynegwyd y gwrthwynebiad mwyaf i'r cynigion. Roedd gwrthwynebiad o'r fath yn amlwg mewn ymatebion gan y sector ffermio.

v. Nid oedd pawb yn gwrthwynebu; roedd y rhai yn y sector amgylcheddol a'r trydydd sector yn fwy cefnogol i'r cynigion ar y

cyfan, ochr yn ochr â lleiafrif o ffermwyr a oedd yn croesawu mesurau i gefnogi gweithredoedd a oedd wedi'u hanelu at wella cynaliadwyedd amgylcheddol.

vi. Nid oedd gwrthwynebiad i bob elfen yn y Cynllun. Cafodd y cynigion ar gyfer Taliad Sefydlogrwydd fwy o gefnogaeth ymhlith yr ymatebion, ond mae'n werth nodi mai cymysg fu'r ymateb i rai agweddau ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, megis y cynnig i ddefnyddio un gyfrifiannell carbon.

vii. Gofynnodd yr ymgynghoriad gyfres o gwestiynau penodol ynglŷn â'r cynigion, ond mae'n bosibl nodi nifer o feysydd a ddaeth i'r golwg fel themâu ymhlith yr ymatebion a gyflwynwyd, sef:

viii. **Cymhlethdod canfyddedig y Cynllun:** Roedd llawer o'r ymatebion yn pryderu bod y Cynllun yn rhy gymhleth, gyda gormod o Weithredoedd Cyffredinol i'w cyflawni. Hefyd, roedd llawer yn gwrthwynebu unrhyw gais i gyflwyno rheolau cymhwystra a gofynion a dulliau adrodd mwy cymhleth, yn eu tyb nhw, sy'n gwneud defnydd helaeth o dechnoleg gwybodaeth. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ffermwyr fod y Gweithredoedd Cyffredinol yn arferion yr oeddent eisoes yn eu dilyn ac yn eu cofnodi drwy gynlluniau achredu. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r posibilrwydd o ddyblygu o ran gofynion adrodd, a mwy o weinyddu heb fawr ddim budd.

ix. **Mae ffermwyr am ganolbwyntio ar gynhyrchu bwyd:** Mynegodd llawer o'r ymatebion gan ffermwyr drwy'r ymgynghoriad cyfan rwystredigaeth ynglŷn â chyfeiriad y Cynllun, gan awgrymu y dylid rhoi ffocws ar gynhyrchu bwyd, yn hytrach nag ar yr amgylchedd.

x. **Gwrthwynebiad i'r gofyniad ynglŷn â choetir:** Er bod y geiriad a ddefnyddiwyd yng Nghwestiwn 2 o'r ymgynghoriad yn golygu nad oedd modd gwneud dadansoddiad meintiol, roedd y gwrthwynebiad i'r gofyniad ynglŷn â choetir yn amlwg yn y mwyafrif o'r ymatebion. Er bod yr hyn a gynigiwyd ynglŷn â choetir yn cael ei gefnogi gan y sector amgylcheddol a'r trydydd sector, roeddent hwythau hefyd yn

dweud bod yn rhaid i'r gofyniad gael ei fodloni mewn ffordd sensitif sydd hefyd yn cefnogi cynefinoedd.

xi. **Dehongli'r cynigion mewn ffyrdd gwahanol:** Yn achos rhai cynigion, yn enwedig y gofynion o ran coetir a chynefin, roedd yn yr ymatebion yn cynnig amrywiol ffyrdd o'u dehongli. O ran y gofynion o ran coetir a chynefin, y dehongliad cyffredin oedd y byddai'n arwain at golli 20% o dir cynhyrchiol ar bob fferm. Fodd bynnag, mae'r ymgynghoriad yn nodi y bydd y coetir a'r cynefin sy'n bodoli eisoes yn cyfrif tuag at y trothwyon priodol, ac mewn rhai achosion, y gellir cyfrif coetir llydanddail fel coetir a chynefin. Hefyd, gall mathau penodol o goetir a chynefin weithredu fel tir cynhyrchiol, megis amaethgoedwigaeth a rheoli cynefin lled-naturiol yn weithredol drwy bori.

xii. **Anghytuno ynglŷn â diben a sefyllfa cymorth amaethyddol:** Mynegwyd amrywiol safbwyntiau ynglŷn â diben cymorth amaethyddol, gyda'r rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion yn awgrymu y dylai arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio i gaffael nwyddau cyhoeddus, megis bioamrywiaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ystyried bod cymorth amaethyddol a roddir yn gymhorthdal i leihau cost bwyd i ddefnyddwyr, a hefyd helpu ffermwyr i gynnal busnesau hyfyw.

xiii. **Straen ar ffermwyr:** Un pryder a fynegwyd yn gyson drwy'r ymatebion cyfan oedd ansicrwydd newid a'r baich biwrocrataidd ychwanegol canfyddedig yn y Cynllun a fyddai'n cael effaith negyddol ar lesiant ac iechyd meddwl ffermwyr. Mynegwyd y teimlad cyffredin hefyd fod ffermwyr yn cael eu dwyn yn gyfrifol am golli bioamrywiaeth ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, a oedd yn cael effaith ganlyniadol ar eu hiechyd meddwl. Mewn ymatebion galwyd am gymorth llesiant i liniaru hyn.

# 1. Cyflwyniad

## Ymateb i ymadawiad y DU â’r UE

1.1 Mae’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cael ei ddatblygu yn sgil penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, ac awydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith cymorth amaethyddol penodol i Gymru. Pasiwyd y Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) yn haf 2023, a oedd yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru roi’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith. Mae’r Ddeddf Amaethyddiaeth hefyd yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i bennu dangosyddion a thargedau i fesur cynnydd tuag at gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, a fframwaith adrodd i fonitro’r cynnydd a wneir yn erbyn cynlluniau cymorth (megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) a’r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Cynlluniwyd y Cynllun i gefnogi ffermwyr i gyflawni amcanion SLM.

## Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy

1.2 Mae’r cynnig presennol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cael ei lunio gan ddau ymgynghoriad cynharach, a gynhaliwyd yn 2018 a 2019. Yn yr ymgynghoriad yn 2019, Ffermio Cynaliadwy a’n Tir, gwelwyd bod cefnogaeth gyffredinol i’r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy a gynigiwyd. Fodd bynnag, ymhlith y prif bryderon a fynegwyd roedd sicrhau cystadleurwydd a chynaliadwyedd ariannol y sector ffermio yng Nghymru. Nododd yr ymgynghoriad fod angen cydbwyso nodau amgylcheddol â hyfywedd economaidd ffermydd, gan bwysleisio bod cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn elfen hollbwysig o Reoli Tir yn Gynaliadwy.

1.3 Mae’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn adeiladu ar yr angen i wella cydnerthedd a chynhyrchiant ffermydd; nododd Cynigion Bras y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ym mis Gorffennaf 2022 y bwriad i helpu ffermwyr i fod yn gydnerth ac yn gynhyrchiol fel y pwynt cyntaf o bum

pwynt a oedd yn nodi nodweddion y Cynllun[1]. Hefyd, roedd cynigion y Cynllun yn cyflwyno mwy o hyblygrwydd i deilwra agweddau i gyd-fynd â chryfderau penodol pob fferm neu ardal, a gwneud y Cynllun yn fwy hygyrch drwy ddull ymuno fesul cam[2]. Roedd adborth o'r ddau ymarfer cydlunio a gynhaliwyd yn 2020 a 2022 yn dangos awydd ymhlith ffermwyr a rhanddeiliaid eraill i osgoi Cynllun rhy ragnodol ac i weithredu drwy bartneriaeth â'i fuddiolwyr.

1.4 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad diwethaf ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sef Cadw ffermwyr i ffermio, rhwng 14 Rhagfyr 2023 a 7 Mawrth 2024 ac roedd yn cynnwys nifer o wahaniaethau o gymharu â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Cynigion Amlinellol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022[3]. Ar y cyd â'r broses ymgynghori ffurfiol cynhaliwyd 'sioeau teithiol', a oedd yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r cynigion ac yn ateb cwestiynau gan aelodau o'r gymuned leol, ffermwyr yn bennaf. Daeth tua 3,200 o bobl i gyd i 10 sioe deithiol.

1.5 Bu ymateb cryf i'r ymgynghoriad fel y dangosodd nifer yr ymatebion a gyflwynwyd, yn ogystal â chyfres o ymgyrchoedd a phrotestiadau yn gysylltiedig â'r Cynllun[4].

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- Adran 2 – Methodoleg
- Adran 3 – Dadansoddiad o'r ymatebion
- Adran 4 – Dadansoddiad o'r ymatebion safonol
- Adran 5 – Dadansoddiad o'r ymatebion ansafonol

[1] Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion bras ar gyfer 2025 (2022): https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/cynllun-ffermio-cynaliadwy-cynigion-bras-ar%20gyfer%202025.pdf
[2] Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion bras ar gyfer 2025: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/cynllun-ffermio-cynaliadwy-cynigion-bras-ar%20gyfer%202025.pdf
[3] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/cynllun-ffermio-cynaliadwy-cynigion-bras-ar%20gyfer%202025.pdf
[4] https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-68414032

- Adran 6 – Ymgyrchoedd
- Adran 7 – Sioeau teithiol Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Adran 8 – Gohebiaeth

## 2. Methodoleg

2.1 Cyflwynwyd cyfanswm o 12,108 o ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Roedd hyn yn cynnwys:

- cyfanswm o 3,757 o ymatebion gan y rhai a nododd eu bod yn unigolion gyda 3,294 o ymatebion wedi'u cyflwyno yn y fformat safonol a 463 wedi'u cyflwyno yn eu fformat eu hunain. Cyfeirir at y rhain yn yr adroddiad hwn fel 'ymatebion safonol gan unigolion' ac 'ymatebion ansafonol gan unigolion' yn y drefn honno. Mae'n bosibl bod ymatebwyr unigol wedi dewis 'unigolyn' fel opsiwn. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth o fwriad i gynrychioli sawl unigolyn, gan gynnwys aelodau o'r un aelwyd, mewn rhai ymatebion. Mae hyn yn awgrymu bod nifer yr unigolion a gynrychiolir gan y 3,757 o ymatebion gan unigolion yn debygol o fod yn uwch. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at 'ymatebion' yn hytrach nag 'ymatebwyr' drwyddo draw er mwyn adlewyrchu hyn
- cafwyd 386 o ymatebion i gyd a oedd yn nodi eu bod yn cael eu cyflwyno gan sefydliadau, gyda 282 o ymatebion yn y fformat safonol a 104 wedi'u cyflwyno yn fformat y sefydliadau eu hunain. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y cyntaf fel 'ymatebion safonol gan sefydliad', ac ar y gweddill fel 'ymatebion ansafonol gan sefydliad'. Er bod ymatebwyr wedi dewis 'sefydliad' yn yr ymateb a gyflwynwyd, ceir tystiolaeth yn yr ymatebion bod ymatebion yn y categori hwn wedi cael eu cyflwyno gan ffermydd unigol
- cyflwynwyd cyfanswm o 7,885 drwy saith ymgyrch. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y rhain fel 'ymatebion ymgyrch'
- ar ben hynny, derbyniwyd 80 o negeseuon e-bost, wedi'u cyfeirio at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, y cyfeirir atynt fel 'gohebiaeth'.

## Dull Dadansoddi Ansoddol

2.2 Dechreuodd y dadansoddiad ansoddol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ag ymarfer samplu systematig o'r ymatebion a gyflwynwyd. Ar gyfer pob un o'r 19 o Gwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad, dewiswyd sampl gychwynnol o rhwng 150 a 200 o ymatebion ar gyfer dadansoddiad rhagarweiniol. Mewn achosion lle roedd ymatebion yn rhoi sylwadau manylach, neu lle roedd themâu newydd clir yn dal i ddod i'r golwg ar ôl 200 o ymatebion, cynyddwyd maint y sampl i tua 300-350 o ymatebion er mwyn cyfleu cymhlethdod a dyfnder yr adborth.

2.3 Datblygwyd fframwaith thematig i drefnu a dehongli'r data hyn. Roedd y fframwaith yn cynnwys proses iteraidd lle y nodwyd geiriau a chysyniadau allweddol o'r sampl gychwynnol o ymatebion. Drwy'r themâu a nodwyd bu modd llunio fframwaith rhagarweiniol i godi'r ymatebion. Gwnaeth y fframwaith hwn hwyluso'r gwaith o gategoreiddio ymatebion yn themâu cydlynol a oedd yn adlewyrchu'r materion a'r syniadau canolog a fynegwyd yn yr ymatebion.

2.4 Ar ôl sefydlu'r fframwaith thematig cychwynnol, dadansoddwyd set lawn o 3,228 o ymatebion i gyd. Dadansoddwyd pob ymateb, a rhoddwyd sylw i themâu newydd a oedd yn codi a datblygiad y rhai a oedd eisoes wedi codi (e.e., is-themâu a oedd yn dod i'r golwg, neu newid yn y pwysoliad cymharol yn ôl nifer y pwyntiau thematig). Yn ystod y cam hwn bu modd mireinio'r fframwaith thematig, a chynnwys dirnadaethau a safbwyntiau newydd nad oeddent wedi dod i'r amlwg ar y dechrau.

2.5 Drwy gydol y broses ddadansoddi, rhoddwyd sylw penodol i newidiadau ym mhwysoliad cymharol themâu yn seiliedig ar nifer yr ymatebion. Roedd y dull dynamig hwn yn sicrhau bod y gwaith dadansoddi yn parhau i ymateb i'r data, gan adlewyrchu cyffredinrwydd ac arwyddocâd pob thema yn gywir. Felly, mae pwysoliad cymharol y pwyntiau thematig mwyaf cyffredin yn tynnu

sylw at y meysydd sy'n ennyn y pryder neu'r diddordeb mwyaf yn yr ymatebion.

2.6 Er mwyn helpu darllenwyr yr adroddiad hwn i ddehongli pwysoliad cymharol safbwyntiau mewn ymatebion, defnyddir y fframwaith i gyfleu'r themâu a'r safbwyntiau a nodwyd amlaf. Cynrychiolir pwysoliad yn y testun isod fel a ganlyn:

- defnyddir 'y mwyafrif' pan oedd dros 60% o'r ymatebion wedi codi thema benodol
- defnyddir 'llawer o'r ymatebion' i ddynodi thema flaenllaw a grybwyllwyd mewn dros 20% o'r ymatebion
- mae 'sawl un o'r ymatebion' yn dynodi pan oedd thema wedi cael ei chodi gan rhwng 10% ac 20% o'r ymatebion.
- defnyddir 'rhai ymatebion' pan oedd thema wedi cael ei chrybwyll gan lai na 10%.
- defnyddir 'ychydig' neu 'nifer bach' pan oedd llai na 5% o'r ymatebion wedi codi thema.

2.7 Dylid nodi mai dim ond safbwyntiau'r rhai a roddodd esboniad neu gyfiawnhad yn eu hateb y mae'n bosibl eu cyfleu. Felly, mae'r termau uchod yn gymwys i ganran yr ymatebion a roddodd esboniad yn hytrach na chanran o gyfanswm yr ymatebion. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i rai cwestiynau naill ai'n atebion un gair neu'n wag, gydag ymatebion mwy sylweddol i gwestiynau eraill.

2.8 Dadansoddwyd ymatebion gan sefydliadau mewn dwy ffordd wahanol, yn dibynnu ar y math o ymateb. Roedd llawer o'r ymatebion gan sefydliadau yn dilyn strwythur y cwestiwn yn yr ymgynghoriad ar-lein. Dadansoddwyd y rhain drwy ddefnyddio'r fframwaith fel uchod, a nodwyd unrhyw safbwyntiau newydd gan sefydliad neu safbwyntiau newydd ynglŷn â sector penodol a oedd yn wahanol i'r ymatebion safonol gan unigolion a nodwyd. Dadansoddwyd ymatebion gan sefydliadau ac unigolion a oedd mewn testun rhydd ar wahân. Fel uchod, nodwyd themâu allweddol, datblygwyd fframwaith a

dadansoddwyd yr holl ymatebion er mwyn deall pwysoliad cymharol themâu.

2.9 Oherwydd yr amrywiaeth o fformatau y dewisodd sefydliadau ymateb iddynt, ni roddodd pob sefydliad ganiatâd penodol i gyhoeddi eu manylion. Er mwyn cynnal triniaeth gyson o'r holl ymatebion, nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

### Dull Dadansoddi Ansoddol: Ymgyrchoedd

2.10 Cyflwynwyd 7,885 o ymatebion i gyd drwy saith ymgyrch. Roedd sawl un o'r rhai a oedd wedi trefnu ymgyrch wedi ei gwneud yn bosibl i unigolion addasu eu hymateb fel rhan o'r ymgyrch, a arweiniodd at 6,960 o ymatebion unigol ychwanegol i'w dadansoddi. Cyfrifwyd nifer yr ymatebion a oedd yn dilyn templed pob ymgyrch. Cafodd unrhyw ymatebion a oedd wedi cael eu haddasu gan unigolion eu dadansoddi ymhellach yn unigol, a chawsant eu dadansoddi mewn ffordd debyg i'r ymatebion safonol, drwy nodi themâu allweddol, datblygu fframwaith, a dadansoddi pob ymateb.

### Dull Dadansoddi Meintiol

2.11 Gwnaed dadansoddiad meintiol ar gyfer saith cwestiwn y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer y dull gweithredu hwn. Nodwyd bod y cwestiynau hyn yn addas ar gyfer dadansoddiad meintiol am eu bod yn gofyn cwestiwn uniongyrchol i ymatebwyr mewn perthynas â'r cynnig, yn hytrach na gofyn am eu barn ar gynnig yn fwy cyffredinol. Y cwestiynau hyn oedd:

- **"C.3** Ar wahân i'r gofynion o 10% o goetir a chynefin, a fydd y Gweithredoedd Cyffredinol: a) O fantais i fusnes eich fferm? b) Yn rhoi set o gamau ymarferol y gallwch eu cymryd y bydd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn talu amdanyn nhw?

- **"C.4.** Trwy lunio adroddiadau data fferm, byddwch yn rhoi'r modd i Lywodraeth Cymru allu cadarnhau'ch bod wedi cynnal gweithredoedd a byddan nhw'n eich helpu i wneud penderfyniadau am eich fferm. Yn eich barn chi, a yw gofynion y Gweithredoedd Cyffredinol o ran llunio adroddiadau yn briodol?"
- **"C.6.** Rydym wedi cynnig y dylai fod gan ymgeiswyr reolaeth lwyr ar eu tir am 10 mis a'u bod yn cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol am fwyddyn lawn y cynllun (12 mis). Yn eich barn chi, a yw'r cyfnod o 10 mis yn ddigon?"
- **"C.7.** Rydym yn cynnig bod pawb yn y Cynllun yn defnyddio'r un gyfrifiannell carbon. A ydych yn cytuno a sut y gallwn eich cefnogi i wneud hyn?"
- **"C.9.** Bydd proses apelio Llywodraeth Cymru yn cynnig trefn effeithiol ac effeithlon i ni. A oes unrhyw reswm pam y dylem beidio â'i dilyn?
- **"C.11.** Efallai y bydd ffermwyr y tu allan i'r Cynllun am gael help i gynnal gweithredoedd tebyg i'r rhai a gynigir yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol. Yn eich barn chi, a ddylai ffermwyr sy'n rhan o'r Cynllun gael blaenoriaeth i wneud y gweithredoedd hyn?
- **"C.13.** Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r BPS o 2025? Byddan nhw'n cynnwys: a) Y gyfradd y bydd taliadau BPS yn cael eu lleihau; b) Cau'r Gronfa Genedlaethol i ymgeiswyr newydd; c) Trothwyon ar gyfer capio; d) Gwahardd trosglwyddo a phrydlesu hawliau."

2.12 Gan fod yr ymgynghoriad wedi defnyddio blychau testun agored, roedd y gwaith o ddadansoddi ymatebion yn agored i ddehongli. Er mwyn sicrhau bod cyn lleied o gamddehongli â phosibl, lluniwyd chwe chategori o ateb at ddibenion dadansoddi: ateb cadarnhaol ('Ydy'/'Cytuno' ac ati), ateb negyddol ('Nac ydy'/'Anghytuno' ac ati) , 'Ddim yn gwybod', 'Amhendant', 'Dd/G', a 'Cynnwys ddim yn

berthnasol i'r cwestiwn'. Cafodd y categorïau eu cymhwyso at ateb fel a ganlyn:

- defnyddiwyd y categori ateb cadarnhaol pan oedd yr ymateb yn dangos yn glir mai ateb cadarnhaol i gwestiwn yr ymgynghoriad ydoedd. Yng Nghwestiynau 3, 4, 6, 7, 11 a 13 defnyddiwyd y categori ateb cadarnhaol pan oedd ymatebion yn mynegi cytundeb â'r cynnig. Ar gyfer Cwestiwn 9, defnyddiwyd y categori ateb cadarnhaol pan oedd yr ymatebion yn mynegi anghytundeb â'r cynnig.
- defnyddiwyd y categori ateb negyddol pan oedd yr ymateb yn dangos yn glir mai ateb negyddol i gwestiwn yr ymgynghoriad ydoedd. Yng Nghwestiynau 3, 4, 6, 7, 11 a 13 defnyddiwyd y categori ateb negyddol pan oedd yr ymatebion yn mynegi anghytundeb â'r cynnig. Ar gyfer Cwestiwn 9, defnyddiwyd y categori ateb negyddol pan oedd yr ymatebion yn mynegi cytundeb â'r cynnig.
- defnyddiwyd 'Ddim yn gwybod' pan oedd ymatebwyr yn dangos nad oeddent yn gwybod digon i roi ateb, nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth, neu pan oedd eu hateb yn dibynnu ar wybodaeth nad oedd ar gael yn yr ymgynghoriad, megis cyfraddau talu'r Cynllun terfynol.
- defnyddiwyd 'Amhendant' pan oedd yr ymateb a gyflwynwyd yn un sylweddol ac na allai'r tîm dadansoddi benderfynu a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig, neu pan oedd yr ymateb yn canolbwyntio ar agweddau eraill ar y cynnig.[5]
- defnyddiwyd 'Dim ateb (D/A)' pan nad oedd yr ymatebion yn ateb y cwestiwn naill ai drwy ei adael yn wag neu drwy nodi nad oeddent am fynegi barn.

[5]Defnyddir hyn er mwyn pennu i ba raddau y cytunir neu yr anghytunir â chwestiwn penodol, ac nid er mwyn pennu a yw'r ymateb yn ddilys i'w gynnwys. Dadansoddwyd pob ymateb o safbwynt ansoddol, ni waeth beth fo'i gategori.

- defnyddiwyd 'Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn' pan oedd yr ymatebion yn defnyddio cwestiwn i ymdrin â'u gwrthwynebiad i'r Cynllun yn ei gyfanrwydd, yn hytrach nag ymdrin â'r cwestiwn penodol. Cofnodwyd gwrthwynebiad i'r Cynllun yn ei gyfanrwydd yn y dadansoddiad ansoddol ac yn enwedig y cwestiynau ansoddol megis Cwestiwn 3.

2.13 Ymgymerwyd â dadansoddiad meintiol drwy ddarllen ymatebion a rhoi pob ateb mewn categori â llaw ar y gronfa ddata o ymatebion, yn dibynnu ar ateb yr ymatebion yn unol â'r fframwaith ym mharagraff 11 uchod.

2.14 Yna, dadansoddwyd yr atebion hyn i bob cwestiwn yn erbyn data demograffig a ddarparwyd drwy'r ymatebion. Drwy hidlo'r atebion o grwpiau demograffig penodol yn unig (h.y. yr ymatebion hynny y nodwyd eu bod wedi'u cyflwyno gan ffermwyr tenant), cafodd yr ymatebion eu cymharu â'r duedd gyffredinol, a nodwyd unrhyw grŵp demograffig a oedd yn dangos gwahaniaethau sylweddol. Y trothwyon ar gyfer gwahaniaethau yw:

- cafodd gwahaniaeth rhwng 5%-10% ei gategoreiddio'n fân wahaniaeth
- cafodd gwahaniaeth rhwng 10%-20% ei gategoreiddio'n wahaniaeth cymedrol
- cafodd gwahaniaeth o 20% neu fwy ei gategoreiddio'n wahaniaeth sylweddol.

Ymgymerwyd â dadansoddiad meintiol ar gyfer "Cwestiwn 12 hefyd: Pa gamau a chymorth yn yr haenau Opsiynol a Chydweithredol ddylai yn eich barn chi gael blaenoriaeth?" Ar ôl ymgymryd â dadansoddiad ansoddol i nodi themâu, yna dadansoddwyd yr ymatebion i nodi sawl gwaith roedd yr ymatebion yn codi thema er mwyn nodi blaenoriaethau.

# 3. Dadansoddiad o'r Ymatebion

3.1 Mae'r adran ganlynol yn ymdrin ag ymatebion safonol i'r ymgynghoriad gan unigolion a chan sefydliadau. Ymdrinnir ag ymatebion ansafonol (gan unigolion a sefydliadau), yn Adran 5, ymgyrchoedd yn Adran 6 a gohebiaeth yn Adran 7.

3.2 Gofynnodd yr ymgynghoriad i ymatebwyr nodi a oeddent wedi'u lleoli a/neu'n gweithredu yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar yr ymatebion a gadarnhaodd fod yr ymatebydd wedi'i leoli a/neu'n gweithredu yng Nghymru, sef cyfanswm o 3,228 (98% o'r cyfanswm o 3,294 o ymatebion ar gyfer ymatebion fformat safonol gan unigolion) a 271, (96% o'r cyfanswm o 282 o ymatebion fformat safonol gan sefydliadau).

3.3 Dengys Tabl 3.1 fod 73% o'r ymatebion gan unigolion wedi'u cyflwyno gan y sector ffermio.

**Tabl 3.1: Dadansoddiad o'r math o ymateb**

| Sector | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ffermio | 2,345 | 72.6% |
| Arall | 255 | 7.9% |
| Amgylcheddol | 226 | 7.0% |
| Y Sector Preifat | 78 | 2.4% |
| Y Sector Cyhoeddus | 75 | 2.3% |
| Twristiaeth/Lletygarwch | 51 | 1.6% |
| Ymchwil/Byd Academaidd | 32 | 1.0% |
| Milfeddygon | 28 | 0.9% |
| Coedwigaeth | 20 | 0.6% |
| Cadwyn cyflenwi bwyd a phren | 14 | 0.4% |
| Y Trydydd Sector | 12 | 0.4% |
| Undeb Llafur/Cynrychiolwyr | 1 | 0.0% |
| Heb ateb | 91 | 2.8% |
| Cyfanswm | 3,228 | 100% |

3.4 O blith y rhai a ymatebodd o'r sector ffermio, roedd dros 40% yn ffermio defaid, ac roedd systemau cymysg a chig eidion yn cyfrif am bron 20% o ymatebion ffermio. Mae Tabl 3.2 yn rhoi nifer a chanran



MILLER
Research Evaluation Consulting

yr ymatebion yn ôl math o fferm, gan gynnwys y rhai na wnaethant ateb y cwestiwn hwn.

**Tabl 3.2: Dadansoddiad o ymatebion gan unigolion yn ôl math o fferm**

| Math o Fferm | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Defaid | 1,070 | 33.1% |
| Cymysg | 457 | 14.2% |
| Cig eidion | 437 | 13.5% |
| Godro | 266 | 8.2% |
| Arall | 92 | 2.9% |
| Garddwriaeth | 37 | 1.1% |
| Cnydau âr | 67 | 2.1% |
| Dofednod | 25 | 0.8% |
| Heb ateb | 802 | 24.8% |
| Cyfanswm | 3,228 | 100% |

3.5 Fel y dengys Tabl 3.3, y band oedran â’r nifer mwyaf o ymatebion oedd 50-64, a oedd yn cyfrif am fwy na thraean o’r ymatebion. Roedd ymatebion mewn bandiau 35-49 a 65+ yn cyfrif am fwy nag 20% o’r ymatebion yr un.

**Tabl 3.3: Dadansoddiad o’r ymatebion yn ôl categori oedran**

| Oedran | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| O dan 18 | 17 | 0.5% |
| 18-34 | 502 | 15.5% |
| 35-49 | 757 | 23.5% |
| 50-64 | 1,093 | 33.9% |
| 65+ | 731 | 22.6% |
| Heb ateb | 128 | 4.0% |
| Cyfanswm | 3,228 | 100% |

3.6 O ran y dadansoddiad rhanbarthol, dengys Tabl 3.4 fod y rhan fwyaf o’r ymatebion i’r ymgynghoriad o’r de-orllewin, yn cwmpasu cod ardal Abertawe (SA) a Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a (de) Ceredigion.

**Tabl 3.4: Dadansoddiad o’r ymatebion yn ôl cod post**

| **Cod post** | **Siroedd Cyfatebol** | **Cyfanswm yr ymatebion** | **Canran** |
|---|---|---|---|
| Abertawe (SA) | Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin | 969 | 30% |
| Llandudno (LL) | Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Wrecsam, Ynys Môn | 704 | 21.8% |
| Amwythig (SY) | Ceredigion, Powys | 559 | 17.3% |
| Llandrindod (LD) | Powys | 352 | 10.9% |
| Caerdydd (CF) | Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf | 248 | 7.7% |
| Casnewydd (NP) | Blaenau Gwent, Casnewydd, Powys, Sir Fynwy, Torfaen | 221 | 6.8% |
| Caer (CH) | Sir Ddinbych, Sir y Fflint | 70 | 2.2% |
| Henffordd (HR) | Powys | 39 | 1.2% |
| Heb ateb | | 66 | 2.1% |
| Cyfanswm | | 3,228 | 100% |

3.7 Cyfrifwyd y dadansoddiad o ymatebion unigol ar gyfer cyfranogiad mewn cynllun amaeth-amgylcheddol, hawliau i bori stoc ar dir comin, ffermwyr tenant a derbynwyr BPS ar gyfer y sector ffermio ac fe’i dangosir yn Nhablau 3.5, 3.6, 3.7 a 3.8.

3.8 Fel y dangosir yn Nhabl 3.5, nid oedd 72% o ymatebion gan y sector ffermio ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn cynllun amaeth-

amgylcheddol, gyda 41.4% erioed wedi cymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylcheddol, a 30.6% wedi gwneud hynny yn y gorffennol.

**Tabl 3.5: Dadansoddiad o ymatebion y sector ffermio unigol yn ôl cyfranogiad cynlluniau amaeth-amgylcheddol**

| Cymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylcheddol | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Na, nid wyf erioed wedi cymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau amaeth-amgylcheddol. | 717 | 41.4% |
| Na, ond rwyf wedi cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y gorffennol | 970 | 30.5% |
| Ydw | 636 | 27.1% |
| Heb ateb | 22 | 0.9% |
| Cyfanswm | 2,345 | 100% |

3.9 Fel y dangosir yn Nhabl 3.6 roedd gan 25.5% o ymatebion gan y sector ffermio hawliau i bori stoc ar dir comin.

**Tabl 3.6: Dadansoddiad o ymatebion y sector ffermio unigol yn ôl hawl i bori stoc ar dir comin**

| Hawl i bori stoc ar dir comin | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Oes | 597 | 25.5% |
| Nac oes | 1728 | 73.7% |
| Heb ateb | 20 | 0.8% |
| Cyfanswm | 2,345 | 100% |

3.10 Fel y dangosir yn Nhabl 3.7 roedd 18.9% o'r ymatebion o'r sector ffermio yn ffermwyr tenant.

**Tabl 3.7: Dadansoddiad o ymatebion unigol y sector ffermio fesul tenantiaeth**

| Ydych chi'n ffermwr tenant? | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 444 | 18.9% |
| Nac ydw | 1871 | 79.8% |
| Heb ateb | 30 | 1.2% |
| Cyfanswm | 2,345 | 100% |

3.11 Fel y dangosir yn Nhabl 3.8 roedd 87.6% o ymatebion yn y sector ffermio yn derbynwyr BPS.

**Tabl 3.8: Dadansoddiad o ymatebion unigol y sector ffermio yn ôl derbynwyr Cynllun y Taliad Sylfaenol**

| Ydych chi'n dderbynnydd BPS? | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 2054 | 87.6% |
| Nac ydw | 257 | 10.9% |
| Heb ateb | 34 | 1.4% |
| Cyfanswm | 2,345 | 100% |

3.12 Fel y dangosir yn Nhabl 3.9, nododd bron i hanner yr ymatebion eu bod yn siarad Cymraeg.

**Tabl 3.9: Dadansoddiad o’r ymatebion yn ôl siaradwyr Cymraeg**

| Os ydych yn ateb fel unigolyn, a ydych chi’n siarad Cymraeg? | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 1,559 | 48.3% |
| Nac ydw | 1,580 | 48.9% |
| Heb ateb | 89 | 2.8% |
| Cyfanswm | 3,228 | 100% |

3.13 Dengys Tabl 3.10 y dadansoddiad o’r ymatebion yn ôl y brif iaith a ddefnyddir yn yr ymateb. O gymharu Tabl 3.9 a’r rhesi safonol yn Nhabl 3.10 dangosir bod nifer sylweddol o ymatebion a nododd eu bod yn siarad Cymraeg wedi dewis ymateb yn Saesneg. Mae’n werth

nodi bod nifer o ymatebion wedi ateb rhai cwestiynau yn Gymraeg mewn ymatebion a oedd yn Saesneg yn bennaf, yn enwedig cwestiynau ynglŷn â'r Gymraeg. Mae ymatebion wedi cael eu categoreiddio yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd yn y rhan fwyaf o'r ymateb. Hefyd, roedd y rhai a ymatebodd drwy ddefnyddio'r ffurflen ymgynghori yn gallu lawrlwytho neu gwblhau fersiwn ar-lein o'r ffurflen yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae ymatebion safonol wedi cael eu categoreiddio yn ôl pa fersiwn o'r ffurflen a ddewisiwyd – Cymraeg neu Saesneg. Yn olaf, lle roedd ymgyrchoedd yn gwbl ddwyieithog megis un Campaign for National Parks, maent wedi cael eu categoreiddio yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd mewn unrhyw destun ychwanegol gan yr ymatebydd unigol.

**Tabl 3.10: Atebion a gafwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg**

| Math o ymateb | Saesneg neu Saesneg yn bennaf Nifer | Saesneg neu Saesneg yn bennaf Canran | Cymraeg neu Gymraeg yn bennaf Nifer | Cymraeg neu Gymraeg yn bennaf Canran |
|---|---|---|---|---|
| Ymateb safonol gan unigolyn | 3,042 | 92% | 252 | 8% |
| Ymateb safonol gan sefydliad | 266 | 94% | 16 | 6% |
| Ymgyrch Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru | 5,525 | 91% | 541 | 9% |
| Ymgyrch Undeb Amaethwyr Cymru | 775 | 84% | 149 | 16% |
| Ymgyrch Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru | 221 | 62% | 137 | 38% |
| Campaign for National Parks | 94 | 98% | 2 | 2% |
| Ymgyrch WT-WWF | 360 | 99% | 2 | 1% |
| Ymgyrch Cynghrair y Gweithwyr Tir | 20 | 83% | 4 | 17% |
| Ymgyrch Tir Natur | 54 | 98% | 1 | 1% |
| Ymateb ansafonol gan unigolyn | 430 | 92% | 33 | 8% |
| Ymateb ansafonol gan sefydliad | 103 | 99% | 1 | 1% |
| Gohebiaeth | 73 | 91% | 7 | 9% |
| Cyfanswm | 10,963 | | 1145 | |

3.14 O blith y 271 o sefydliadau wedi’u lleoli yng Nghymru a gyflwynodd ymatebion safonol, roedd bron hanner wedi’u cyflwyno gan y sector ffermio, fel y dengys Tabl 3.11. Roedd y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar y sector roedd y sefydliadau eu hunain wedi nodi eu bod perthyn iddo o ran pob ymateb a atebodd y cwestiwn hwn.



MILLER
Research Evaluation Consulting

**Tabl 3.11: Sefydliadau yn ôl math**

| Sector | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Amgylcheddol | 39 | 14.4% |
| Ffermio | 124 | 45.8% |
| Cadwyn Cyflenwi Bwyd a Phren | 10 | 3.7% |
| Coedwigaeth | 5 | 1.8% |
| Arall | 20 | 7.4% |
| Y Sector Preifat | 11 | 4.1% |
| Y Sector Cyhoeddus | 20 | 7.4% |
| Ymchwil | 6 | 2.2% |
| Y Trydydd Sector | 27 | 9.9% |
| Twristiaeth | 1 | 0.4% |
| Undeb Llafur/Cynrychiolwyr | 3 | 1.1% |
| Milfeddygon | 5 | 1.8% |
| Cyfanswm | 271 | 100% |

# 4. Dadansoddiad o’r Cwestiwn

**Cwestiwn 1: Bydd y Cynllun yn cefnogi ein sector amaethyddol i’r tymor hir i ymateb i heriau ac anghenion sy’n newid, gan gyfrannu at yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Yn eich barn chi, beth all gryfhau’r gefnogaeth hon?**

### Crynodeb o’r cynigion

Mae’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cael ei lunio i gefnogi’r sector amaethyddol drwy fynd i’r afael â heriau ac anghenion sy’n datblygu o hyd. Mae’n pwysleisio cynaliadwyedd amgylcheddol ochr yn ochr â chynhyrchu amaethyddol, gan gyfuno’r olaf â mesurau i wella bioamrywiaeth, rheoli adnoddau naturiol yn gyfrifol, ac ymaddasu i’r newid yn yr hinsawdd. Drwy roi cymhellion ariannol i gadw at arferion cynaliadwy, mae’r Cynllun yn ceisio cefnogi cydnerthedd, cynhyrchiant, a stiwardiaeth amgylcheddol y sector.

Rheoli Tir yn Gynaliadwy yw’r fframwaith deddfwriaethol sy’n sail i Gynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, sydd â’r nod o gydbwyso canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol, ac economaidd.

Mae’r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn rhan o strategaeth ehangach sydd wedi’i hategu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sy’n gorfodi datblygu cynaliadwy er mwyn diogelu buddiannau’r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau’r dyfodol. Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu cynllun i helpu ffermwyr i fabwysiadu arferion cynaliadwy sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at yr amgylchedd a’r economi.

### Dadansoddiad ansoddol

4.1 Roedd llawer o’r ymatebion i Gwestiwn 1 yn cynnwys deunydd a aeth y tu hwnt i’r cwestiwn a ofynnwyd. Fel y cwestiwn cyntaf yn yr ymgynghoriad, aeth llawer o’r ymatebion ati i nodi eu barn gyffredinol am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Os aeth ymatebion y tu hwnt i gylch gwaith y cwestiwn ei hun, cyfrifir am y safbwyntiau hyn yn y Crynodeb Gweithredol. Mae’r dadansoddiad o’r ymatebion a amlinellir yn yr adran hon yn cyflwyno’r dadansoddiad o’r ymatebion a

ymdriniodd â'r cwestiwn yn uniongyrchol, wedi'u trefnu o dan themâu, a gyflwynir yn eu trefn ddisgynnol yn ôl pa mor aml y'u codwyd.

### Hyblygrwydd

4.2 Mynegodd llawer o'r ymatebion yr angen am i'r Cynllun fod yn hyblyg yng nghyd-destun pob fferm. Un ymateb cyffredin iawn oedd y dylai'r Cynllun osgoi "un ateb i bawb". O dan y thema hon, mynegodd ymatebion y pryder na fyddai amrywiaeth ffermydd yn cael eu hadlewyrchu'n llawn gan y Gweithredoedd Cyffredinol:

> "Mae angen rhoi ystyriaeth i amrywiaeth ffermydd yng Nghymru ond teimlaf nad yw'r cynllun hwn yn ystyried y gwahanol fathau o ffermydd o safbwynt daearyddiaeth ac amrywiaeth sy'n caniatáu ar gyfer haenau'r diwydiant defaid." [Ffermwr defaid]

> "Teimlaf na fydd "un ateb i bob fferm yng Nghymru" yn effeithiol. Dylid cynllunio dulliau gweithredu gwahanol ar gyfer y mathau gwahanol o ffermydd sydd yng Nghymru." [Ffermwr cymysg]

4.3 Gellir rhannu'r ymatebion a bwysleisiodd yr angen am hyblygrwydd yn rhai a oedd yn teimlo y dylai'r Gweithredoedd Cyffredinol fod yn opsiynol a chael eu teilwra at y fferm, ac yn rhai a bwysleisiodd yr angen i ffermwyr gael hyblygrwydd i benderfynu sut mae Gweithredoedd Sylfaenol yn cael eu cyflawni ar eu fferm:

> "[…] Os rhoddir mwy o hyblygrwydd o ran dewis y ffordd orau o gyflawni amcanion pob Gweithred Gyffredinol sy'n addas ar gyfer y math unigol o fferm a'r system mae hynny'n debygol o annog mwy i ymuno â'r cynllun." [Ffermwr defaid]

> "Mae angen i'r Gweithredoedd Cyffredinol fod yn hyblyg fel y gellir eu teilwra at gryfderau penodol pob fferm neu ardal." [Ffermwr cig eidion]

### Cymorth sydd wedi'i ariannu'n dda

4.4 Galwodd llawer o'r ymatebion am gymorth priodol, wedi'i ariannu'n dda i'r rhai sy'n ymddiddori yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Y gallu i gael gafael ar gyngor arbenigol oedd wrth wraidd yr ymatebion hyn,

gyda'r ymatebion yn sôn am yr angen am gymorth ac arbenigedd proffesiynol, gan gynnwys gan arbenigwyr ym maes amaethecoleg, amaethyddiaeth adfywiol, a choetir. Un ffactor cyffredin o dan y thema hon oedd sicrhau bod digon o gymorth ar gael i'r sector, gyda'r angen am gyllid digonol i'r mathau hyn o gymorth:

> "Digon o arian yn y system i roi cyngor sensitif i ffermwyr a pherchnogion tir ar gyflawni gweithredoedd cyffredinol." [Rhanddeiliad amgylcheddol]

> "Sicrhau bod lefel gywir o gyngor a chymorth i ffermwyr am fod y cynigion presennol yn gofyn am lawer o waith ychwanegol gan ffermwr." [Ffermwr cig eidion]

Cyfraddau talu

4.5 Cododd llawer o'r ymatebion yr angen am gyfraddau talu priodol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Un pryder wrth wraidd llawer o'r ymatebion hyn oedd y dylid ad-dalu am waith a wneir o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfradd deg, a defnyddiwyd y term "teg" yn aml yn yr ymatebion. Er bod hyn yn cynnwys cyfradd deg am incwm a gollwyd drwy ymgymryd â gweithgareddau a oedd yn ymwneud â'r Gweithredoedd Cyffredinol, nododd rhai y dylai taliadau fynd y tu hwnt i incwm a gollwyd neu gostau yr aed iddynt yn unig:

> "Mae angen i'r cymorth adlewyrchu'n realistig y cyfraniad y mae ffermwyr Cymru yn ei wneud i fuddiannau amgylcheddol, ariannol, a chymdeithasol Cymru gyfan, gan fynd dipyn ymhellach na'r model incwm a gollwyd/cost yr aed iddi er mwyn digolledu ffermwyr yn ddigonol am eu hymdrechion, a rhoi digon o elw iddynt." [Ffermwr cig eidion]

> "[…] mae'n rhaid i ffermwyr gael cymhelliant i wneud iawn am yr incwm a gollwyd ac mae'n rhaid i hynny adlewyrchu'r incwm a gollwyd a'r costau rheoli yr aed iddynt wrth wneud y newidiadau hyn i gynefin." [Rhanddeiliad amgylcheddol]



MILLER
Research Evaluation Consulting

### Sefydlogrwydd

4.6 Awgrymodd rhai ymatebion fod angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gynnig sefydlogrwydd yn yr hirdymor i'r sector. Er bod yr ymatebion hyn i gyd yn pwysleisio bod angen cynllunio a sefydlogrwydd hirdymor, gellir rhannu'r ymatebion yn ôl materion penodol sy'n gysylltiedig â sefydlogrwydd yn y tymor hwy:

- y rhai a oedd yn anfodlon ar y cyfnod pontio o bum mlynedd o Gynllun y Taliad Sylfaenol, a oedd yn mynegi pryder am gynllunio yn y tymor hwy
- y rhai a fynegodd bryderon bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn seiliedig ar flwyddyn galendr, a fyddai unwaith eto yn effeithio ar gynllunio yn yr hirdymor.
- y rhai a oedd yn pryderu am yr heriau y gallent eu hwynebu wrth flaengynllunio am nad oedd cyfraddau talu'r Cynllun wedi eu cyhoeddi eto.

### Cynhyrchu bwyd

4.7 Roedd llawer o'r ymatebion yn anfodlon ar ffocws canfyddedig y Cynllun ar yr amgylchedd a hynny ar draul cynhyrchu bwyd. Roedd yr ymatebion hyn yn teimlo y byddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei gryfhau pe bai mwy o gydbwysedd rhwng camau gweithredu amgylcheddol a chynhyrchu bwyd:

> "Credwn y dylem gael ein hannog i dyfu mwy o fwyd ar gyfer poblogaeth sy'n cynyddu, yn ogystal â pharhau i ddiogelu'r amgylchedd. Felly, dylai cymorth ariannol gael ei rannu i wella effeithlonrwydd o ran cynhyrchu bwyd yn ogystal â chefnogi gofynion amgylcheddol." [Ffermwr cig eidion]

4.8 Cododd rhai ymatebion yr angen am wella effeithlonrwydd ffermydd, gan awgrymu y byddai'n arwain at fanteision ychwanegol i'r amgylchedd. Roedd rhai ymatebion yn teimlo bod angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy roi mwy o sylw i ansawdd tir a gwella tir:

> "Er mwyn cefnogi'r sector o ran rheoli tir, mae angen gwella'r tir – draenio, iechyd pridd a chyfuniadau o laswellt a fyddai'n helpu i hybu faint o laswellt a gynhyrchir neu dwf cnydau." [Ffermwr cymysg]

4.9 I'r rhai yr oedd eu hymateb i Gwestiwn 1 yn canolbwyntio ar gynhyrchu bwyd, roedd Gweithred Gyffredinol 13: Creu coetir ac amaeth-goedwigaeth newydd yn achos pryder, gyda llawer yn mynegi eu hanfodlonrwydd ar y cysyniad o "roi'r gorau i ddefnyddio tir i gynhyrchu bwyd[6].

Baich gweinyddol

4.10 Tynnodd llawer o'r ymatebion sylw at yr angen i osgoi biwrocratiaeth feichus i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Roedd osgoi gormod o gostau newydd i'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn y Cynllun yn bwynt a oedd yn cael ei godi hefyd, yn aml fel rhan o'r un sylw. Mynegodd nifer bach o'r ymatebion hynny a gododd fater baich gweinyddol y pryder y byddai angen cymorth gan ymgynghorydd amaethyddol i'w helpu gyda gwaith gweinyddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

4.11 Mynegodd rhai ymatebion yr awydd am Gynllun a oedd yn syml ac yn hawdd ei ddeall. Er enghraifft, mynegwyd barn ynglŷn â nifer a chymhlethdod Gweithredoedd Cyffredinol:

> "Mae'r cynllun arfaethedig hwn yn rhy gymhleth o lawer, gyda gormod o Weithredoedd Cyffredinol, fel na fydd ffermwr am gymryd rhan." [Ffermwr cymysg]

[6] Cafwyd camddealltwriaeth gyffredinol ynglŷn â manylion Gweithred Gyffredinol 13, gyda llawer o'r ymatebion yn credu y byddai'n rhaid neilltuo 20% ychwanegol o dir cynhyrchiol fferm ar gyfer plannu coed a chynefinoedd.

## Ymatebion gan sefydliadau

4.12 Roedd y themâu a ddaeth i’r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 1 yn gyson ar y cyfan â’r ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- tynnwyd sylw at ddiogeledd bwyd a phwysigrwydd cynhyrchu bwyd mewn llawer o’r ymatebion gan y gadwyn cyflenwi bwyd a phren, a’r sector ffermio, oherwydd y canfyddiad y byddai’r Cynllun yn effeithio’n negyddol ar gynhyrchu bwyd
- codwyd y posibilrwydd o effeithiau economaidd negyddol oherwydd y Cynllun, gan gynnwys cyfeiriadau at fodelu economaidd Llywodraeth Cymru a’r gofynion o ran cynefin a choetir, gan lawer o’r sefydliadau yn y gadwyn cyflenwi bwyd a phren a’r sector ffermio
- er mwyn annog ffermwyr i gymryd rhan yn y Cynllun, a hefyd helpu i gyflawni’r Gweithredoedd Cyffredinol, gwnaeth llawer o sefydliadau amgylcheddol, preifat, trydydd sector ac academaidd godi’r angen am gyfathrebu’n glir â ffermwyr, drwy ddarparu canllawiau clir ac effeithiol
- gwnaeth y mwyafrif o’r ymatebion gan y sector ffermio godi canfyddiad o’r ansicrwydd a wynebai ffermwyr, ac awgrymwyd bod hyn yn ei gwneud yn anodd i wneud penderfyniadau a bod angen eglurder, cymorth a chymhellion ar ffermwyr.

**Cwestiwn 2: Bydd gofynion Cyffredinol yn yr SFS bod yn rhaid i 10% o leiaf o’ch fferm fod dan orchudd coed, a rhaid rheoli o leiaf 10% o’ch fferm fel cynefin.**

**Crynodeb o’r Cynigion**

Roedd y cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys rheol i sicrhau o leiaf 10% o orchudd o goed ar bob fferm, gan gynnwys coetir a choed unigol, erbyn 2030. Mae’r Cynllun yn hyrwyddo integreiddio coed drwy wahanol ffyrdd, gan gynnwys coetir traddodiadol, amaethgoedwigaeth, lleiniau cysgodi, a pherllannau.

Er mwyn hwyluso hyn, amlinellodd yr ymgynghoriad feini prawf ynglŷn â sut y gellir sicrhau 10% o orchudd, sy’n caniatáu i ffermwyr gyfrif coetir sy’n bodoli eisoes, gwaith plannu newydd, a choed unigol mewn perthi/gwrychoedd tuag at y nod hwn. Hefyd, cynigir rheolau penodol ar gyfer ffermydd o dan wahanol fathau o berchnogaeth a chyfyngiadau daearyddol, er mwyn sicrhau ei bod yn ymarferol ac yn gyflawnadwy sicrhau gorchudd coed.

Yn ychwanegol at y gofyniad ynglŷn â gorchudd coed, roedd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnig y dylai 10% o dir pob fferm gael ei reoli’n weithredol fel cynefin ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd. Gallai hyn olygu cynnal glaswelltiroedd llawn rhywogaethau, cynnal perthi/gwrychoedd, datblygu gwlyptiroedd, neu reoli cynefinoedd lled-naturiol eraill sy’n bodoli ar y fferm. Os nad oes gan y fferm digon o gynefinoedd lled-naturiol presennol i gyrraedd y 10%, mae’r Cynllun yn cynnig y dylid creu cynefinoedd newydd ar dir wedi’i wella, megis drwy sefydlu gwyndynnydd cymysg neu ymylon o wyndyn sy’n helpu i gynyddu bioamrywiaeth.

**2a.i) Bydd gofyn i bob fferm yn yr SFS fod ag o leiaf 10% o orchudd o goed, ac i reoli o leiaf 10% o'r fferm er lles bioamrywiaeth. Beth yw eich barn am y gofynion hyn?: Coetir**

### Dadansoddiad ansoddol

4.13 Mynegodd llawer o'r ymatebion bryderon ynglŷn â'r gofynion hyn, sef i ba raddau y byddent yn gyflawnadwy, yn ymarferol ac yn ddymunol. Canolbwyntiodd ffermwyr ar effaith bosibl y gofynion ar gynhyrchu bwyd, gwerth eu tir, a hyfywedd eu busnesau. Gwnaeth yr ymatebion hyn ofyn am eglurder ynglŷn â'r cynigion, pwysleisio'r angen am hyblygrwydd, ac awgrymu diwygiadau i'r cynigion i'w gwneud yn haws i'w cyflawni a chael mwy o effaith.

#### 10% o orchudd coetir

4.14 Cododd y mwyafrif o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, o dan wahanol gwestiynau, y gofyniad ynglŷn â 10% o orchudd coetir. Roedd y materion a godwyd yn yr ymatebion yn canolbwyntio ar y canlynol:

- yr effaith ar gynhyrchu a chyflenwi bwyd
- ymarferoldeb y broses o'i roi ar waith
- ansicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd cymharol coed, yn lle glaswelltir, i liniaru'r newid yn yr hinsawdd
- yr effaith ar hyfywedd ffermydd a'r effaith ehangach ar fusnesau eraill, y Gymraeg a chymunedau gwledig
- cyfraddau talu priodol am y gwaith dan sylw
- diffyg hyblygrwydd canfyddedig, e.e., disgwylir i bob math o fferm weithio tuag at yr un gorchudd coed er gwaeth amrywiadau yn y math o dir.

#### Cynhyrchu bwyd

4.15 Cafwyd canfyddiad ymhlith llawer o'r ymatebion y byddai dwy reol y Cynllun yn arwain at golli 20% o dir o ran cynhyrchu, ond mae cynigion y Cynllun yn pwysleisio rheoli cynefin yn weithredol drwy bori ac yn nodi bod coed sy'n bodoli eisoes yn cyfrif tuag at y trothwy o

10%. Codwyd amheuon ynglŷn â rhesymeg ganfyddedig y rheolau hyn, gyda phwyslais penodol ar yr effaith ar dir amaethyddol o ansawdd da. Awgrymodd ymatebion y dylai'r gofyniad ynglŷn â choetir ganolbwyntio ar dir o ansawdd gwael, megis yr ymylon a thir bryniog na ellir ei aredig, neu mewn rhai achosion ffermydd cyfan ar dir mewn Ardal Lai Ffafriol. Roedd rhai ymatebion yn gwrthwynebu newid defnydd tir greu coetir neu gynefin yn gyfan gwbl.

4.16 Argymhellodd rhai ymatebion y dylai penderfyniadau ynghylch defnydd tir fod yn seiliedig ar y defnydd mwyaf addas o dir ynghyd ag angen i ehangu faint o gnydau âr a gynhyrchir a garddwriaeth.

4.17 Roedd y gofynion ynglŷn â choetir a chynefin yn gysylltiedig â diogeledd bwyd, gyda rhai ymatebion yn awgrymu y byddent yn niweidiol i ddiogeledd bwyd Cymru. Awgrymodd un ymateb:

> "O ran diogeledd bwyd, dylai'r Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas [sic] gael ei ddiogelu at ddibenion cynhyrchu bwyd yn y dyfodol. Nid oes modd dadwneud proses o droi tir yn goetir yn hawdd." [Rhanddeiliad amgylcheddol]

4.18 Ystyriwyd bod diogeledd bwyd yn arbennig o bwysig mewn llawer o'r ymatebion oherwydd ansefydlogrwydd rhyngwladol canfyddedig. Hefyd, roedd ymatebion yn dadlau y byddai gofynion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn arwain at gynhyrchu llai o fwyd, a allai olygu y bydd allyriadau carbon Cymru yn cael eu "trosglwyddo" i wledydd eraill sydd â "safonau is":

> "Mae'r cysyniad y bydd ffermwyr yn colli tir ac y bydd hyn felly'n lleihau'r cynhyrchiant yn golygu y bydd llai o fwyd yn mynd i mewn i'r gadwyn gyflenwi, sy'n golygu bod angen lleihau'r galw yn yr un modd [...] neu fod angen gwneud iawn am yr hyn a gollir yn y gadwyn gyflenwi o dramor." [Rhanddeiliad yn y sector preifat]

4.19 Codwyd mater cynhyrchu bwyd dro ar ôl tro gan lawer o ffermwyr yn y cyd-destun eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael tâl digonol am eu

cynnyrch, felly fod angen cymorthdaliadau er mwyn sicrhau bod ffermydd yn hyfyw ac yn gallu bwydo’r “boblogaeth gynyddol”.

Ymarferoldeb

4.20 Roedd llawer o’r ymatebion yn amau a oedd y gofynion ynglŷn â choetir a chynefin yn ymarferol. Un thema gyffredin a gododd oedd argaeledd llafur i blannu a chynnal coed newydd, ac awgrymodd ffermwyr nad oedd digon o amser ganddynt hwythau amser, ei bod yn anodd recriwtio llafurwyr fferm ar y cyfan, ac mai contractwyr fyddai’n cael y taliadau yn hytrach na ffermwyr a oedd wedi cael cymhorthdal fel math o incwm yn draddodiadol. Awgrymodd ymatebion fod y sector yn wynebu prinder contractwyr plannu a gosod ffensys ar hyn o bryd, ac roeddent yn amau gallu’r meithrinfeydd planhigion presennol i gyflenwi’r coed angenrheidiol. Yn lle hynny, roedd rhai ymatebion yn agored i’r syniad o ganran is.

4.21 Mynegodd rhai ffermwyr y farn eto na fyddai pob darn o dir yn addas ar gyfer coed, megis morfa heli neu orgors, gan bwysleisio pwysigrwydd plannu’r goeden gywir yn y man cywir. Mynegwyd yr un farn mewn rhai ymatebion gan unigolion o’r trydydd sector a’r sector amgylcheddol, a oedd yn canolbwyntio ar yr angen am goed brodorol yn hytrach na chonwydd, gan awgrymu na fyddai’r gofyniad ynglŷn â 10% o goetir yn ymarferol o bosibl ar raddfa pob fferm.

Lliniaru’r newid yn yr hinsawdd

4.22 Daeth mater lliniaru’r newid yn yr hinsawdd i’r amlwg fel thema gyffredin mewn ymatebion. Awgrymodd nifer bach o’r ymatebion fod y sector ffermio yn cael ei drin yn annheg o’i gymharu â sectorau eraill, er enghraifft, y sector trafnidiaeth. Nodwyd rhaniad rhwng ardaloedd trefol a gwledig, ac awgrymodd ffermwyr eu bod yn cael eu cosbi am allyriadau carbon mewn dinasoedd, a bod allyriadau’r sector ffermio yn gymharol isel. Nododd ymatebion fod cysylltiad agos rhwng y

gofyniad ynglŷn â choetir a sero net[7], gydag awgrymiadau nad hon oedd y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau sero net.

4.23 Mynegwyd cryn ansicrwydd ac amheuon ynglŷn â gallu coetir i atafaelu carbon o’i gymharu â glaswelltir, gyda rhai ymatebion yn awgrymu bod glaswelltir yn atafaelu mwy o garbon na choed. Yn olaf, gwnaeth nifer bach o’r ymatebion gymharu cyfraniad Cymru at y newid yn yr hinsawdd ar lefel fyd-eang, gan amau a fyddai newidiadau arfaethedig y Cynllun yng Nghymru i leihau allyriadau yn cael digon o effaith yn fyd-eang.

Hyfywedd ffermydd

4.24 Un neges gyson a welwyd mewn llawer o’r ymatebion oedd effaith ganfyddedig y gofyniad ynglŷn â choetir ar hyfywedd ffermydd o bosibl. Tynnodd llawer o’r ymatebion sylw at ddibyniaeth ffermwyr at Gynllun y Taliad Sylfaenol fel cymhorthdal incwm. Roeddent yn cymharu hyn â’u canfyddiad am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a fyddai, yn eu barn hwy, yn costio arian iddynt ei roi ar waith a hefyd yn lleihau eu gallu i gynhyrchu heb enillion digonol. Tynnodd nifer bach o’r ymatebion sylw at effaith bosibl y gofyniad ar werth eu tir.

4.25 Cafwyd llawer o gyfeiriadau at y gwaith modelu a gyflwynwyd ar y cyd â’r ymgynghoriad gyda safbwyntiau cadarn ynglŷn â’r canfyddiad y gallai 5,500[8] o swyddi gael eu colli yn y sector. Codwyd y mater hwn ochr yn ochr â gwerth economaidd, cymdeithasol, a diwylliannol ehangach ffermio mewn ardaloedd gwledig ac awgrymwyd ymatebion bod arian a fuddsoddir mewn ffermydd yn cael ei wario’n lleol ac yn lluosi. Un mater a godwyd yn gyson drwy gydol yr ymgynghoriad oedd pwysigrwydd y gymuned ffermio i ffyniant y Gymraeg, a chodwyd pryderon y byddai unrhyw effaith ar hyfywedd ffermydd yn effeithio ar y Gymraeg. Codwyd y gofyniad ynglŷn â choetir hefyd mewn

[7] Sero net yw ymadrodd a ddefnyddir yn aml ar gyfer y broses o leihau neu waredu allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynyddu faint o garbon sy’n cael ei atafaelu er mwyn cydbwyso allyriadau a gynhyrchir â’r rhai a ddelir.

[8] Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru waith modelu a oedd yn awgrymu y byddai’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn arwain at ostyngiad o 11% o ran llafur ar y fferm, y mae adroddiadau yn y cyfryngau a rhai ymatebion wedi dweud eu bod yn cyfateb i golli 5,500 o swyddi. Mae’r gwaith modelu yn dangos canlyniadau sefyllfa waethaf posibl.

perthynas â'r gofid y gall sefydliadau brynu tir ar raddfa fawr er mwyn manteisio ar y Cynllun a gwrthbwyso eu hallyriadau, sef pryder cyffredin a godwyd yn yr ymgynghoriad.

Taliadau priodol

4.26 Codwyd mater taliadau, gyda llawer o'r ymatebion yn awgrymu y byddai lefelau taliadau yn rhy isel, ac y dylai taliadau am y gofyniad ynglŷn â choetir gyfrif am yr incwm gwirioneddol a gollir. Awgrymodd ymatebion "y dylai ffermwyr gael taliadau bonws am blannu coed", neu y "dylai fod premiwm uchel yn gysylltiedig" â chymorth i ffermwyr i gyflawni " targedau Llywodraeth Cymru [...] i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd".

4.27 Roedd yr ansicrwydd ynglŷn â'r gyfradd dalu yn golygu na allai rhai ymatebion ateb y cwestiwn. Awgrymodd ymatebion eraill fod y taliadau dangosol yn y dadansoddiad economaidd ategol yn rhy isel, sy'n dangos diffyg eglurder ynglŷn â'r cynigion, a rhywfaint o ddryswch ynghylch y taliadau posibl. Hefyd, codwyd pryderon ynglŷn â hyd y Cynllun, gyda ffermwyr yn awgrymu y dylai taliadau barhau am "o leiaf 20 mlynedd" i gyfrif am y defnydd o'r tir am y cyfnod hwnnw ar gyfer coed. Ar y cyfan, roedd ffermwyr yn teimlo bod angen i'r taliadau am greu coetir newydd fod yn ddeniadol a'u digolledu am incwm a gollwyd yn eu tyb hwy, y gostyngiad yng ngwerth tir, a'r gwaith a wneir.

Hyblygrwydd

4.28 Heriwyd y gofyniad ynglŷn â 10% o orchudd coetir oherwydd diffyg hyblygrwydd canfyddedig, gydag ymatebion yn awgrymu nad yw coed na choetir yn addas ar gyfer pob fferm:

> "Pam 10%, beth yw'r rhesymeg? Mae pob cae yn unigryw a gallai ardal fod yn addas ar gyfer coed neu gynefin a dylid neilltuo amrywiaeth o opsiynau ar gyfer pob cae sy'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael a thopograffi." [Ffermwr defaid]

4.29 Roedd ymatebion yn dadlau mai'r ffordd orau o gyflawni'r targed cyffredinol ar gyfer gorchudd coed oedd drwy lefelau amrywiol o goetir rhwng mathau gwahanol o ffermydd gyda phob achos o blannu yn seiliedig ar ei addasrwydd:

> "Y ffordd orau o gyflawni hyn, mae'n debyg, yw gydag 20% mewn rhai ardaloedd a 5% mewn ardaloedd eraill." [Ffermwr cig eidion]

4.30 Nododd rhai ymatebion y bydd rhai ffermydd o bosibl yn cael trafferth i fodloni'r gofyniad oherwydd eu cynhyrchiant, eu lleoliad (e.e. arfordirol) neu gynefin o ansawdd uchel sy'n bodoli eisoes. Hefyd, pwysleisiwyd na ddylid bodloni'r gofyniad ar draul nodau eraill, megis plannu mewn ardaloedd lle mae cynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr fel ardaloedd magu i ylfinirod[9]. Awgrymodd yr ymatebion hyn y gallai'r gofyniad i gyflawni'r holl Weithredoedd Cyffredinol atal rhai ffermwyr rhag ymuno â'r Cynllun, a fyddai wedyn yn eu hatal rhag cymryd unrhyw gamau o dan y Cynllun, gan gynnwys y rhai y gallent eu cyflawni yn eu tyb nhw. Mewn ymgais i wneud y Cynllun yn fwy hyblyg, awgrymodd nifer bach o'r ymatebion y dylai fod modd i ffermwyr gronni ardal eu gorchudd coed yn ôl addasrwydd y tir, yn hytrach na mynnu bod gan bob fferm 10% o orchudd coetir. Yn olaf, awgrymodd yr ymatebion y byddai angen mwy o hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau gwahanol, megis ffermydd â chytundebau tenantiaeth neu hawliau i dir comin.

Cyflawnadwyedd

4.31 Atebodd nifer bach o'r ymatebion fod y gofyniad ynglŷn â choetir yn gyflawnadwy ac yn fuddiol, gyda rhai yn awgrymu bod y gofyniad ynglŷn â 10% o goetir yn dangos diffyg uchelgais. Awgrymodd yr ymatebion hyn fod angen mwy o orchudd coetir yng Nghymru, ochr yn ochr â chynefinoedd eraill megis prysgdir ymylol, cors, a chorstir, sydd i gyd yn cefnogi bioamrywiaeth. Mae hyn yn ymwneud â phwynt

[9] Yn y ddogfen ymgynghori, nid yw cynefinoedd o ansawdd uchel wedi'u cynnwys yn yr ardal i'w defnyddio i gyfrifo gwaith plannu coed.

a godwyd mewn ymatebion eraill nad yw buddiannau coetir i’w busnes fferm wedi cael eu cyfleu’n ddigonol i ffermwyr hyd yma a bod angen dull gweithredu gwahanol o bosibl. Roedd ymatebion a fynegodd gefnogaeth i’r gofynion ynglŷn â choed a chynefin yn teimlo bod 10% yn darged rhesymol, gan awgrymu bod llawer o ffermydd yng Nghymru eisoes yn rhagori ar hyn.

Eglurder

4.32 Tynnodd nifer bach o’r ymatebion sylw at ddiffyg eglurder o ran sut y byddai’r gofynion ynglŷn â choetir a chynefin yn cael eu mesur. Mewn perthynas â’r gofyniad cyfunol o 20% o ran coed a chynefin y gwelwyd hyn amlaf , lle awgrymodd ymatebion weithiau y byddai’n rhaid colli 20% o dir cynhyrchiol er bod ganddynt goetir a chynefin eisoes:

> “Nid yw’n glir a yw’r holl goetir sydd eisoes ar fy fferm yn cyfrif tuag at y gofyniad sylfaenol o 10% ai peidio.” [Ffermwr cig eidion]

4.33 Gofynnodd ychydig o’r ymatebion am eglurder ynghylch a fyddai modd cyfrif cynefin a choetir fel yr un tir, neu ynghylch yr hyn a fyddai’n cael ei gynnwys fel coetir neu orchudd coed;

> “Mae angen eglurder o ran cynnwys coed perthi/gwrychoedd.” [Ffermwr – dim manylion wedi eu nodi]

4.34 Argymhellodd nifer bach o’r ymatebion eraill y dylid cynnwys perllannau yn y gofyniad ynglŷn â choetir, er eu bod eisoes wedi’u cynnwys yn y cynigion ar gyfer y gofyniad. Teimlwyd bod amwysedd ynglŷn ag ystyr “gorchudd coetir” a “tir addas” ac awgrymodd ymatebion fod hyn wedi effeithio ar ganfyddiad y gymuned ffermio am y cynigion

## Ymatebion gan sefydliadau

4.35 Roedd y themâu a ddaeth i’r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 2a.i yn gyson ar y cyfan â’r ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- mynegodd llawer o’r ymatebion gan y sector amgylcheddol, y trydydd sector, y sector cyhoeddus a’r sector academaidd gefnogaeth i’r gofyniad ynglŷn â choetir oherwydd y buddiannau canfyddedig a fyddai’n gysylltiedig â chreu mwy o goetir o ran bioamrywiaeth a lleddfu’r newid yn yr hinsawdd. Awgrymodd rhai sefydliadau yn y sector amgylcheddol a’r trydydd sector y dylai’r gofyniad fod yn fwy uchelgeisiol. Dadleuodd un sefydliad amgylcheddol “Mae’r camau hyn yn angenrheidiol o safbwynt amgylcheddol a gellir eu cyflawni ar lawer o ffermydd. Mae’r gofyniad ynglŷn â 10% o orchudd coetir wedi cael ei gamddehongli ac, yn achos llawer o ffermydd, ni fydd angen ildio 10% o’r fferm i greu coetir. Er enghraifft, mae i amaethgoedwigaeth nifer o fanteision a gall weithio ar y cyd â chynhyrchu bwyd, a rhoi cysgod i dda byw. Mae gwyndynnydd perlysiol wedi’u cynnwys fel rheoli at ddibenion bioamrywiaeth ac mae iddynt nifer o fanteision megis da byw yn ennill pwysau a gwelliannau yn strwythur pridd.”
- mynegodd llawer o’r ymatebion gan y sector amgylcheddol, y sector academaidd a’r gadwyn cyflenwi bwyd a phren amheuon o ran mabwysiadu ‘un ateb i bawb’, a hynny oherwydd yr amrywiaeth o ran defnyddiau tir, mathau o dir a busnesau yn y sector ffermio, gyda phryderon ynglŷn ag effaith dull gweithredu o’r fath ar gynhyrchu bwyd a hyfywedd ffermydd.
- tynnodd llawer o’r ymatebion gan y sector amgylcheddol, y sector academaidd, y trydydd sector a’r sector cyhoeddus sylw at bwysigrwydd defnydd tir amlswyddogaethol, a fyddai’n sicrhau y gellid ymgymryd â chynhyrchu bwyd, gorchudd coetir a rheoli cynefin ar yr un tir

- mynegodd y mwyafrif o’r ymatebion gan y sector ffermio bryder am y gofyniad ynglŷn â choetir oherwydd y canfyddiad y byddai’n effeithio ar gynhyrchu bwyd, hyfywedd ffermydd a chymunedau gwledig.

**2a.ii) Bydd gofyn i bob fferm yn yr SFS fod ag o leiaf 10% o orchudd o goed, ac i reoli o leiaf 10% o’r fferm er lles bioamrywiaeth. Beth yw eich barn am y gofynion hyn?: Rheoli 10% fel cynefin**

Dadansoddiad ansoddol

4.36 Bu llai o sôn am y gofyniad i reoli 10% fel cynefin na’r gofyniad ynglŷn â choetir ac, ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn cytuno y byddai’n fuddiol i’r amgylchedd. Y prif themâu a gododd oedd:

- i ba raddau roedd yn cyd-fynd â gofynion eraill
- cyfathrebu
- i ba raddau roedd yn gyflawnadwy a’r uchelgais.

Cyfathrebu

4.37 Fel yn achos y gofyniad ynglŷn â choetir, roedd yr ymatebion yn teimlo bod y ffordd roedd y gofyniad ynglŷn â chynefin yn cael ei gyfleu yn hollbwysig a bod llawer o ffermydd eisoes yn bodloni’r gofyniad o 10% heb sylweddol. Hefyd, cyfeiriodd ymatebion at opsiynau o ran cynefinoedd cynhyrchiol megis cynnwys gwyndynnydd perlysiol. Yn yr ymatebion mynegwyd y farn y dylai manteision rheoli cynefin gael eu hysbysebu’n fwy effeithiol, yn enwedig o ystyried bod y gofyniad ynglŷn â 10% o gynefin yn golygu y gallai tir barhau i fod yn gynhyrchiol a chynhyrchu incwm.

Mesur

4.38 Un thema gyffredin a gododd o ran y ddau ofyniad oedd sut y byddai’r 10% o orchudd coetir ac ardal y cynefin yn cael eu mesur. Yn yr ymatebion mynegwyd yr angen am wybodaeth fapio llinell sylfaen gywir a chyfredol am gynefinoedd a choetir a oedd yn bodoli eisoes

ac awgrymwyd y dylai’r mapiau presennol gael eu hadolygu a’u cywiro cyn y gallai’r Cynllun fynd rhagddo. Nododd un ymateb:

> “Nid yw’n briodol dibynnu ar wybodaeth CCGC/CNC am gynefinoedd oherwydd a) mae’n hen - wedi’i chasglu ar ddiwedd y 1980s/dechrau’r 1990au a b) nid oedd wedi’i mapio’n gywir yn y lle cyntaf - mae gennym gap cwyr a glaswelltir heb ei wella a fapiwyd yn laswelltir wedi’i wella o dan y cynllun Cynefin [sic] dros dro presennol.” [Ffermwr defaid]

I ba raddau roedd yn gyflawnadwy a’r uchelgais

4.39 Er bod llai o drafodaeth am hwn na’r gofyniad ynglŷn â choetir, awgrymodd nifer bach o’r ymatebion fod y gofyniad ynglŷn â rheoli cynefin yn gyflawnadwy, gydag is-set o’r ymatebion hyn yn awgrymu bod 10% ar raddfa Cymru gyfan yn dangos diffyg uchelgais. Dadleuodd un ymateb bod “rheoli 10% o dir at ddibenion bioamrywiaeth yn ymrwymiad llawer rhy fach i gael unrhyw effaith ar y fioamrywiaeth sy’n cael ei cholli yng Nghymru.”

4.40 Mynegodd ychydig o’r ymatebion hyn y farn bod angen cryfhau’r gofyniad ynglŷn â 10% o gynefin er mwyn rhoi mwy o ganllawiau i ffermwyr, gan roi blaenoriaeth i adfer cynefinoedd a gollwyd megis dolydd blodau gwyllt brodorol, a chefnogi cynefinoedd a all fod o ansawdd isel ar un ystyr ond sy’n cefnogi rhywogaethau prin sy’n mynd yn brinnach.

## Ymatebion gan sefydliadau

4.41 Roedd y themâu a ddaeth i’r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 2a.ii yn gyson ar y cyfan â’r ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- cefnogaeth i’r gofyniad ynglŷn â chynefin gan lawer o sefydliadau yn y trydydd sector, a oedd yn pwysleisio’r angen am hyblygrwydd o ran sut roedd yn cael ei fodloni

- mewn llawer o’r ymatebion gan bob sector codwyd yr angen am ariannu teg a chyngor a chymorth i ffermwyr a phwysleiswyd bod angen cymorth proffesiynol er mwyn sicrhau y gellid bodloni’r gofyniad. Nododd un sefydliad amgylcheddol: “Mae angen i Lywodraeth Cymru roi’r cymorth sydd ei angen ar ffermwyr i newid”

**2b) Bydd gofyn i bob fferm yn yr SFS fod ag o leiaf 10% o orchudd o goed, ac i reoli o leiaf 10% o’r fferm er lles bioamrywiaeth. Pa gefnogaeth a allai fod ei hangen arnoch i’w cynnal?**

### Dadansoddiad ansoddol

4.42 Awgrymodd yr ymatebion nifer o opsiynau o ran cymorth a fyddai’n angenrheidiol er mwyn bodloni’r gofynion o 10%, ond awgrymodd rhai nad oedd unrhyw lefel o gymorth a fyddai’n ddigon i’w helpu i fodloni’r gofynion. Yr opsiynau o ran cymorth a awgrymwyd, yn ôl pa mor aml y’u hawgrymwyd oedd:

- tâl digonol, gydag awgrymiadau’n amrywio o £1000 yr erw bob blwyddyn i £10,000 yr erw, er mwyn talu am gostau yr eir iddynt, incwm a gollwyd a cholli gwerth tir
- taliadau hirdymor gwarantedig am fwy nag ugain mlynedd
- cymorth ymarferol, gan gynnwys arolygon ecolegol, gwaith paratoi tir, plannu coed, bondocio, gosod gwrychoedd a ffensys
- cymorth busnes er mwyn deall y posibiliadau masnachol
- canllawiau, gan gynnwys cyfarwyddiadau clir, sut beth fyddai’r elfen bioamrywiaeth, a chyngor proffesiynol ar gael.
- grantiau coetir a chynefin
- rhaglen addysg
- cymorth i gael ffrydiau refeniw yn debyg i gredydau carbon

- buddsoddiadau yn y diwydiant ymgynghori amaethyddol ac ecolegol
- buddsoddiadau mewn meithrinfeydd planhigion
- cymorth technegol o ran sut y gellir defnyddio gorchudd coed a thir cynefin i helpu cynhyrchiant yn hytrach na disodli tir cynhyrchiol
- cyllid digonol i gyrff rheoleiddio megis Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

### Ymatebion gan sefydliadau

4.43 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 2b yn gyson ar y cyfan â'r ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- cododd llawer o sefydliadau yn y trydydd sector a'r sector amgylcheddol yr angen am gymorth er mwyn sicrhau bod y cynefin a'r coetir a grëir yn cyflawni'r amcanion a ddymunir
- nododd y mwyafrif o'r sefydliadau yn y sector ffermio fod angen mwy o gymorth ariannol, gydag un sefydliad ffermio yn nodi: "Byddai cymorth i gyflawni yn golygu gwybod pa ffigurau sy'n debygol o fod ar gael ynghyd â sicrwydd at y dyfodol."

## Cwestiwn 3: Ar wahân i’r gofynion o 10% o goetir a chynefin, a fydd y Gweithredoedd Cyffredinol:

### Crynodeb o’r Cynigion

Yn ychwanegol at y gofynion arfaethedig ynglŷn â choetir a chynefin, roedd y Cynllun yn cynnig 13 o Weithredoedd Cyffredinol, sef:

**UA1:** Meincnodi

**UA2:** Datblygiad Personol Parhaus

**UA3:** Gweithredoedd i helpu i reoli pridd ac adnoddau

**UA4:** Cnydau gorchudd amlrywogaeth

**UA5:** Rheolaeth Integredig ar Blâu

**UA6:** Rheoli cynefin mawndir sydd wedi’i newid yn sylweddol

**UA9:** Cynlluniau Rheoli Safleoedd Dynodedig

**UA10:** Pyllau dŵr parhaol a thymhorol

**UA11:** Rheoli perthi / gwrychoedd

**UA14:** Amgylchedd hanesyddol – cynnal a gwella

**UA15:** Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid

**UA16:** Lles eich anifeiliaid

**UA17:** Bioddiogelwch da ar y fferm

**3a) Ar wahân i'r gofynion o 10% o goetir a chynefin, a fydd y Gweithredoedd Cyffredinol: O fantais i fusnes eich fferm?**

Dadansoddiad meintiol

4.44 Fel y dengys Tabl 4.1, atebodd 61.7% o'r ymatebion na fyddai'r Gweithredoedd Cyffredinol o fantais i'w busnes fferm.

**Tabl 4.1: Ymatebion i Gwestiwn 3a**

| **Ymateb** | **Ymatebion** | **Canran** |
|---|---|---|
| Bydd | 380 | 12.5% |
| Na fydd | 1868 | 61.7% |
| Amhendant[10] | 309 | 10.2% |
| Ddim yn gwybod | 116 | 3.8% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 25 | 0.8% |
| Dim ateb | 530 | 17.5% |
| Cyfanswm | 3228 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.45 Gwelwyd gwahaniaethau amlwg yn lefel y gefnogaeth ymhlith y grwpiau canlynol o gymharu â'r duedd gyffredinol:

- roedd canran ychydig yn uwch o atebion 'Na fydd' ymhlith y sector ffermio a chyn-aelodau o gynlluniau amaeth-amgylchedd
- roedd canran led uwch o atebion 'Na fydd' ymhlith y rhai a oedd wedi cael arian o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol a'r rhai sydd â hawliau pori ar dir comin
- roedd canran ychydig yn uwch o atebion 'Bydd' ymhlith y sector amgylcheddol.

[10] Tybiwyd bod ymatebion a ymdriniodd â phob un o'r Gweithredoedd Cyffredinol yn amhendant am eu bod wedi nodi bod rhai gweithredoedd yn fuddiol a bod eraill yn anfuddiol.

### Dadansoddiad ansoddol

#### Biwrocratiaeth ddiangen

4.46 Dadleuodd llawer o’r ymatebion na fyddai’r Gweithredoedd Cyffredinol yn cynnig fawr ddim mantais y tu hwnt i “ymarfer ticio blychau.” Awgrymodd rhai ymatebion hefyd y byddai gwaith papur ychwanegol yn cynyddu llwyth gwaith ffermwyr mewn ffordd a fyddai’n amharu ar eu llesiant meddyliol.

4.47 Ar sail y ffordd y dehonglwyd y cwestiwn gwnaeth rhai o’r ymatebion hyn nodi bod llawer o’r Gweithredoedd Cyffredinol arfaethedig hyn eisoes yn cael eu cyflawni ac felly nad oedd eu hangen. Cododd hyn bryderon ynglŷn â dyblygu a chynyddu llwythi gwaith:

> “Ni fydd y Gweithredoedd Cyffredinol o fantais i’n busnes. Nid am eu bod yn wael ond am fod cyfran dda ohonynt eisoes yn cael eu cyflawni.” [Ffermwr defaid]

> “Does dim syniad gan y Llywodraeth beth yw gofynion y Cynllun Gwarant Fferm am fod llawer o’r Gweithredoedd Cyffredinol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dyblygu’r gwaith cofnodi.” [Ffermwr godro]

4.48 Mynegodd rhai ymatebion bryderon hefyd y byddai’r gofyniad i gyflwyno data yn rheolaidd, dilyn cyrsiau ar-lein, a rheoli gwaith papur ychwanegol yn llethu pobl, yn enwedig ffermwyr hŷn neu’r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â thechnoleg:

> “Does dim technoleg ar gael i’r genhedlaeth hŷn er mwyn iddynt gwblhau’r cyrsiau dysgu ar-lein.” [Ffermwr cymysg]

> “Mae rhai o’r Gweithredoedd Cyffredinol bron â bod yn wahaniaethol yn erbyn ffermwyr hŷn, sy’n llai tebygol o feddu ar y dechnoleg, ac nad ydynt yn gyfarwydd â systemau technoleg gwybodaeth modern.” [Unigolyn, y sector cyhoeddus]

4.49 Un pryder cyffredin mewn rhai o’r ymatebion hynny a oedd yn teimlo y byddai’r Gweithredoedd Cyffredinol o fantais i’w busnesau fferm oedd faint o Weithredoedd Cyffredinol a gofynion roedd angen eu cyflwyno

ar unwaith. Y farn oedd y byddai’r baich gweinyddol yn anodd i ffermwyr o ran amser ac arian. Cyfeiriodd rhai o’r ymatebion cefnogol hefyd at ddyblygu’r gwaith sy’n cael ei wneud i fodloni gofynion cynlluniau gwarant eraill megis gwarant Cig Eidion a Chig Oen y Cynllun Gwarant Fferm Da Byw a Chynllun y Tractor Coch.

4.50 Argymhellodd rhai o’r ymatebion cefnogol a nododd y pryderon hyn y dylai’r Gweithredoedd Cyffredinol gael eu cyflwyno’n raddol, gan awgrymu y dylai’r goblygiadau ariannol i ffermwyr gael eu monitro. Awgrymodd ychydig y dylai’r Gweithredoedd Cyffredinol fod yn opsiynol:

> “Cytuno, ond dylent gael eu cyflwyno fesul cam a dylai’r costau cychwynnol i ffermwyr gael eu harchwilio’n fanwl.” [Ffermwr defaid]

> “Dylid eu hannog yn hytrach na’u gorfodi arnon ni.” [Ffermwr cig eidion]

Diffyg hyblygrwydd

4.51 Awgrymodd llawer o’r ymatebion fod gofynion y Cynllun yn anhyblyg. Beirniadwyd anhyblygrwydd canfyddedig y Cynllun, yn enwedig mewn perthynas â deiliaid ffermydd bychain. Awgrymodd yr ymatebion hyn ddull gweithredu sy’n cynnig hyblygrwydd o ran systemau ffermio gwahanol:

> “Mae angen i’r Gweithredoedd Cyffredinol gael eu newid er mwyn iddynt weithio i bob ffermwr yng Nghymru. Dylai fod cap ar y nifer y mae’n ofynnol i chi gyflwyno adroddiadau arnynt, gan fod gormod i ffermydd cymysg sy’n cynnwys mathau gwahanol o dda byw.” [Ffermwr cig eidion]

4.52 Cododd rhai o’r ymatebion cefnogol y mater hwn, gan gyfeirio’n benodol at natur “un ateb i bawb” y Gweithredoedd Cyffredinol a mynegi’r pryder na fyddai hyn yn addas ar gyfer amrywiadau o ran maint ffermydd neu fathau o ffermydd a fydd yn ymuno â’r Cynllun o bosibl.

### Defnydd tir a gwerth tir

4.53 Gwnaeth rhai ymatebion, yn benodol y rhai nad oeddent yn gefnogol, gyfeiriadau penodol at golli tir neu golli gwerth tir oherwydd y Gweithredoedd Cyffredinol, sef y gofyniad ynglŷn â choetir. Nododd yr ymatebion hyn fod ffermwyr yn pryderu, er mwyn cydymffurfio â gofynion y Cynllun, na fydd modd defnyddio eu tir cynhyrchiol at ddefnydd confensiynol cynhyrchu bwyd mwyach, a allai arwain at leihau cynhyrchiant a gwerth eu tir ar y farchnad. Pwysleisiodd ychydig o’r ymatebion hyn yr anawsterau posibl i ffermydd bach, na fyddai’r Cynllun, yn eu tyb nhw, o fantais iddynt, tra byddent hefyd yn wynebu lleihad yn eu gallu i gynhyrchu.

### Yr amgylchedd

4.54 Ymhlith yr ymatebion cefnogol, y cyfiawnhad mwyaf cyffredin dros eu barn oedd eu hawydd i gyfrannu at wella’r amgylchedd. Roedd llawer o’r ymatebion hyn yn cydnabod y manteision y gallai’r Gweithredoedd Cyffredinol eu cynnig i’r amgylchedd ehangach y tu hwnt i’w ffermydd. Meithrin y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd oedd rheswm cyffredin arall a fynegwyd mewn rhai ymatebion:

> “dylai amgylchedd iach bob amser fod yn dda i fusnes.”
> [Rhanddeiliad amgylcheddol]

### Meincnodi

4.55 Un thema a godwyd mewn rhai ymatebion cefnogol oedd eu bod yn cydnabod pwysigrwydd casglu data, a meincnodi yn benodol, er mwyn amlinellu meysydd i’w gwella, gan alluogi ffermwyr i wneud y defnydd gorau posibl o’u tir.

### Datblygiad proffesiynol parhaus

4.56 Mynegwyd safbwyntiau gwahanol mewn perthynas â’r gofyniad o dan UA2 i feithrin sgiliau a gwybodaeth ychwanegol drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Awgrymodd y rhai a oedd yn meddwl ei fod yn syniad da y dylai ymestyn i fynd i gynadleddau a chyfarfodydd y diwydiant, ac y dylai’r holl weithgaredd sy’n gysylltiedig â

hyfforddiant fod am ddim i ffermwyr. Fodd bynnag, awgrymodd nifer tebyg o ymatebion ei fod "yn sarhaus" ac "yn nawddoglyd."

### Ymatebion gan Sefydliadau

4.57 Fel y dengys Tabl 4.2, atebodd 38% o sefydliadau na fyddai'r Gweithredoedd Cyffredinol o fantais i fusnesau fferm.

**Tabl 4.2: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 3a**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Bydd | 47 | 17.3% |
| Na fydd | 103 | 38.0% |
| Amhendant[11] | 51 | 18.8% |
| Ddim yn gwybod | 7 | 2.6% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 2 | 0.7% |
| Dim ateb | 61 | 22.5% |
| Cyfanswm | 271 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.58 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 3a yn gyson ar y cyfan â'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- mynegodd llawer o'r ymatebion gan y sector amgylcheddol gefnogaeth i greu pyllau dŵr parhaol a thymhorol, oherwydd y manteision canfyddedig o ran bioamrywiaeth. Ar y llaw arall, mynegodd llawer o'r ymatebion gan y sector milfeddygol a'r mwyafrif o'r ymatebion gan y sector ffermio amheuon oherwydd goblygiadau posibl y cynigion i iechyd anifeiliaid. Nododd un sefydliad milfeddygol "y byddai'n gofyn am ragor o ymgynghori

[11] Tybiwyd bod ymatebion a ymdriniodd â phob un o'r Gweithredoedd Cyffredinol yn amhendant am eu bod wedi nodi bod rhai gweithredoedd yn fuddiol a bod eraill yn anfuddiol.

â’r proffesiwn milfeddygol ar oblygiadau hyn i iechyd anifeiliaid da byw a rheoli plâu i dda byw”

- cododd y sector ffermio bryder ynglŷn ag effaith bosibl y cynigion ar hyfywedd ffermydd ac iechyd a lles anifeiliaid oherwydd effaith y llwythi gwaith gweinyddol cynyddol posibl ar waith fferm arall, gan gynnwys amser a dreulir yn gofalu am dda byw.

### 3b) Ar wahân i'r gofynion o 10% o goetir a chynefin, a fydd y Gweithredoedd Cyffredinol: Yn rhoi set o gamau ymarferol y gallwch eu cymryd y bydd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn talu amdanyn nhw?

Dadansoddiad meintiol

4.59 Fel y dengys Tabl 4.3, atebodd 59.6% o'r ymatebion nad oedd modd cyflawni'r Gweithredoedd Cyffredinol.

**Tabl 4.3: Ymatebion i Gwestiwn 3b**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Byddant | 239 | 7.9% |
| Na fyddant | 1806 | 59.6% |
| Amhendant[12] | 339 | 11.2% |
| Ddim yn gwybod | 179 | 5.9% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 26 | 0.9% |
| Dim ateb | 636 | 21.0% |
| Cyfanswm | 3228 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.60 Gwelwyd gwahaniaethau amlwg yn lefel y gefnogaeth ymhlith y grwpiau canlynol o gymharu â'r duedd gyffredinol:

- roedd canran ychydig yn uwch o atebion 'Na fyddant' ymhlith y sector ffermio a chyn-aelodau o gynlluniau amaeth-amgylchedd
- roedd canran led uwch o atebion 'Na fyddant' ymhlith y rhai a oedd wedi cael arian o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol a'r rhai sydd â hawliau pori ar dir comin
- roedd canran ychydig yn uwch o atebion 'Byddant' ymhlith y sector amgylcheddol.

Dadansoddiad ansoddol

[12] Tybiwyd bod ymatebion a ymdriniodd â phob un o'r Gweithredoedd Cyffredinol yn amhendant am eu bod wedi nodi bod rhai gweithredoedd yn fuddiol a bod eraill yn anfuddiol.

### Biwrocratiaeth a gweinyddu

4.61 Nid oedd fawr ddim amrywio ymhlith yr ymatebion a nododd nad oedd modd cyflawni'r Gweithredoedd Cyffredinol, gyda'r mwyafrif yn cefnogi un o ddau safbwynt penodol. Yn gyntaf, ymatebion a oedd yn gwrthwynebu'r cynnydd canfyddedig mewn biwrocratiaeth a gwaith papur, y teimlwyd eu bod yn anghymesur â'r manteision a'r taliadau digolledu. Y canfyddiadau oedd na fyddai unrhyw fantais ariannol oherwydd cost cydymffurfiaeth, ac mai dim ond costau gweithredu a fyddai'n cael eu had-dalu drwy daliadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae pryderon ynglŷn â'r effaith ar ffermydd llai o faint o safbwynt arian a rheoli yn amlwg hefyd, gan gynnwys y canfyddiad na fyddent o bosibl yn cael eu digolledu'n ddigonol am yr ymdrech angenrheidiol:

> "Mae'n bosibl y bydd cost cydymffurfiaeth yn golygu na fydd y Cynllun yn hyfyw o safbwynt ffermwr." [Ffermwr cnydau âr]
>
> "Na, mae llawer gormod o waith papur a gofynion afrealistig hyd yn oed i gyrraedd y llinell sylfaen." [Ffermwr cymysg]
>
> "Byddai'r gwaith papur ychwanegol yn gost i fy musnes." [Ffermwr cymysg]

### Ffocws amgylcheddol

4.62 Mynegwyd amheuon ynglŷn â'r ffocws amgylcheddol yn y Gweithredoedd Cyffredinol, am fod teimlad y byddai cost cydymffurfiaeth yn peryglu unrhyw fanteision posibl i amaethyddiaeth gynhyrchiol. Ystyriwyd y byddai'r tasgau gweinyddol cynyddol yn tynnu sylw oddi ar dasgau hanfodol megis gofalu am dda byw a'r gwaith presennol i reoli'r amgylchedd.

### Diffyg gwybodaeth am daliadau

4.63 Y thema fwyaf cyffredin arall a godwyd gan y rhai nad oeddent yn cefnogi'r Gweithredoedd Cyffredinol oedd y ffaith nad oedd y cyfraddau talu terfynol ar gael yn yr ymgynghoriad. Roedd yr ymatebion hyn yn dadlau bod ansicrwydd ynglŷn â'r cyfraddau hyn yn

ei gwneud yn anodd asesu dichonoldeb cyflawni'r Gweithredoedd Cyffredinol. Mynegodd rhai ymatebion bryder ynglŷn ag ymrwymo i gynllun heb ddeall yn glir beth oedd ei oblygiadau ariannol:

> "Nid ydym wedi cael gwybod am unrhyw gyfraddau talu, er bod disgwyl i ffermwyr fod yn barod i gymryd rhan ar unwaith." [Ffermwr defaid]

Cymorth

4.64 Ni roddodd y mwyafrif o'r ymatebion a oedd yn gadarnhaol ynglŷn â'r Gweithredoedd Cyffredinol unrhyw esboniad fel rhan o'u hateb. Fodd bynnag, o blith y rhai a roddodd ateb, un rheswm cyffredin dros ateb amodol oedd bod y Gweithredoedd Cyffredinol yn ymddangos yn gyflawnadwy os bydd y taliadau digolledu a'r cymorth addysgol a roddir yn ddigonol.

## Ymatebion gan sefydliadau

4.65 Fel y dengys Tabl 4.4, cytunodd 11.1% o'r ymatebion bod modd cyflawni'r Gweithredoedd Cyffredinol, gyda 35% yn ateb nad oedd modd eu cyflawni.

**Tabl 4.4: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 3b**

| **Ymateb** | **Ymatebion** | **Canran** |
|---|---|---|
| Byddant | 30 | 11.1% |
| Na fyddant | 95 | 35.0% |
| Amhendant | 60 | 22.1% |
| Ddim yn gwybod | 14 | 5.2% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 2 | 0.7% |
| Dim ateb | 70 | 25.8% |
| Cyfanswm | 271 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.66 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 3b yn gyson ar y cyfan â'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion, gan gynnwys y canfyddiad na fyddai'r Gweithredoedd Cyffredinol yn gyflawnadwy o bosibl heb wybod y cyfraddau talu terfynol gan bob sector. Nododd un sefydliad ffermio "gan nad oes unrhyw ffigurau wedi cael eu cyhoeddi, mae'n amhosibl rhoi ateb".

**Cwestiwn 4: Trwy lunio adroddiadau data fferm, byddwch yn rhoi'r modd i Lywodraeth Cymru allu cadarnhau'ch bod wedi cynnal gweithredoedd a byddan nhw'n eich helpu i wneud penderfyniadau am eich fferm. Yn eich barn chi, a yw gofynion y Gweithredoedd Cyffredinol o ran llunio adroddiadau yn briodol?**

### Crynodeb o'r cynigion

O dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig hunanasesiad blynyddol i ffermydd sy'n cymryd rhan er mwyn eu helpu i wella canlyniadau'r busnes a chanlyniadau amgylcheddol. Mae'r asesiad hwn yn defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) i fonitro a chymharu gwahanol agweddau ar berfformiad fferm, megis cynhyrchiant, effeithlonrwydd, a defnyddio adnoddau. Drwy feincnodi yn erbyn perfformiad blaenorol a ffermydd eraill, mae'r broses hon yn anelu at nodi meysydd lle y gellir lleihau costau, gwella'r ffordd y rheolir adnoddau, a gwneud gwelliannau amgylcheddol. Bwriedir i hyn feithrin sector amaethyddol gwydn a ffyniannus drwy hwyluso gwelliant parhaus.

Byddai data o'r asesiadau hyn yn cael eu mewngofnodi drwy borth ar-lein Llywodraeth Cymru, a byddai'n rhoi gwybodaeth i ffermwyr y gallent weithredu arni ynghyd â dadansoddiadau cymharol. Byddai'r data hefyd yn cael eu defnyddio i brosesu a dilysu taliadau drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

### Dadansoddiad meintiol

4.67 Fel y dengys Tabl 4.5, atebodd 63.9% o’r ymatebion nad oedd y gofyniad adrodd yn briodol.

**Tabl 4.5: Ymatebion i Gwestiwn 4**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ydynt | 402 | 12.4% |
| Nac ydynt | 2062 | 63.9% |
| Amhendant | 190 | 5.9% |
| Ddim yn gwybod | 63 | 2.0% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i’r cwestiwn | 4 | 0.1% |
| Dim ateb | 507 | 15.7% |
| Cyfanswm | 3228 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

4.68 Gwelwyd gwahaniaethau amlwg yn lefel y gefnogaeth ymhlith y grwpiau canlynol o gymharu â’r duedd gyffredinol:

- roedd canran ychydig yn uwch o atebion ‘Nac ydynt’ ymhlith y sector ffermio a chyn-aelodau o gynlluniau amaeth-amgylchedd
- roedd canran led uwch o atebion ‘Nac ydynt’ ymhlith y rhai a oedd wedi cael arian o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol a’r rhai sydd â hawliau pori ar dir comin
- roedd canran ychydig yn uwch o atebion ‘Ydynt’ ymhlith y sector amgylcheddol.

### Dadansoddiad ansoddol

#### Gweinyddu

4.69 Roedd y mwyafrif o’r ymatebion a atebodd y cwestiwn hwn yn gwrthwynebu’r gofyniad adrodd ar y sail ei fod yn feichus ac yn ddiangen yn eu barn nhw. Dywedodd un ymateb ei fod ‘yn faich

gweinyddol heb fawr ddim mantais’ gan fod ffermwyr yn teimlo mai prin yw’r cyfleoedd sydd ganddynt i wella cynhyrchiant.

4.70 Un pwynt cysylltiedig a godwyd mewn llawer o’r ymatebion oedd bod ffermwyr eisoes yn cwblhau adroddiadau ar gyfer cydymffurfiaeth â gofynion ecolegol, neu i reoleiddwyr eraill, ac y byddai dyblygu o’r fath yn cynyddu eu llwyth gwaith ymhellach.

4.71 Ymhlith yr ymatebion a oedd yn teimlo bod y gofyniad adrodd yn briodol, nododd y mwyafrif eu bod awyddus i gefnogi proses lle mae ffermwyr yn casglu ac yn trosglwyddo data. Y teimlad oedd bod angen i’r broses adrodd fod yn syml, yn enwedig i ffermwyr hŷn a/neu ffermwyr sy’n llai cyfarwydd â’r dechnoleg berthnasol. Nododd un ymateb “bod proses hawdd ei defnyddio yn hanfodol” i lwyddiant y Cynllun. Hefyd, mewn nifer bach o ymatebion soniwyd y byddai cyflwyno tystiolaeth ar-lein yn well nag arolygiadau personol, a hynny er mwyn rhoi hyblygrwydd i ffermwyr o ran pryd i gwblhau’r gofyniad adrodd. At hynny, awgrymodd ychydig o’r ymatebion y dylid cynnig cymorth a hyfforddiant i’w gwblhau drwy Cyswllt Ffermio, ac y gallai Llywodraeth Cymru gynnig adroddiadau templed fel canllaw i ffermwyr.

4.72 Un sylw cyffredin yn yr ymatebion cefnogol oedd eu bod yn teimlo bod y cynnig yn briodol ar yr amod bod ffermwyr yn cael eu digolledu’n briodol. Ystyriwyd bod cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i fodloni’r gofynion adrodd yn hanfodol, o ystyried y byddai’r cam gweithredu hwn yn cyfrif am gyfran sylweddol o’u cyfrifoldebau gweithredol o bosibl.

Preifatrwydd data

4.73 Y thema fwyaf cyffredin nesaf a drafodwyd oedd pryder ynglŷn â phreifatrwydd y data a fyddai’n cael eu casglu a’u rhannu â Llywodraeth Cymru. Gwnaeth llawer y pwynt bod yr wybodaeth hon yn breifat ac yn eiddo i bob ffermwr dan sylw, ac felly mai nhw biau’r dewis o ran ei rhannu. Fel y cyfryw, roeddent yn teimlo y dylai’r

gofyniad adrodd fod yn elfen opsiynol, yn hytrach na bod yn un o amodau cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Amrywiaeth ffermydd

4.74 Roedd y thema olaf yn ymwneud â’r farn bod gofyniad unffurf i gasglu data i bob fferm yn amhriodol. Ystyriwyd bod amrywiaeth ffermydd o ran maint a math yn ffactor a all ei gwneud yn amhosibl i gymharu data, ac felly olygu na ddylai gofynion adrodd fod yn rhai “un ateb i bawb.”

Meincnodi ac archwiliadau carbon

4.75 Roedd llawer o’r ymatebion a fynegodd gefnogaeth o blaid y gofyniad adrodd yn frwdfrydig am yr angen am feincnodi ac archwiliadau carbon. Cytunodd llawer o’r ymatebion hyn y dylai pob busnes fferm ysgwyddo cyfrifoldeb am gyflwyno adroddiadau ar wahanol agweddau ar ei weithrediadau. Roedd un ymateb yn gobeithio y byddai’r gofyniad adrodd yn:

> “Annog ffermwyr i gymryd rhan mewn camau cydweithredol yn awr ac yn y dyfodol er mwyn iddynt gyrraedd y safon ofynnol neu, o leiaf, er mwyn cael gwared ar rwystrau.” [Rhanddeiliad yn y sector preifat]

Monitro a mesur effaith

4.76 Pwysleisiodd rhai ymatebion fod angen i ffermwyr gasglu data fel tystiolaeth o’r ffordd roeddent wedi defnyddio’r cyllid a roddwyd iddynt a’i effaith, a hefyd i gynnig llinell sylfaen i asesu’r gwelliannau gweithredol y gall ffermwyr eu gwneud:

> “Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ddefnyddio’r data hyn i lunio cyngor effeithiol y gellir ei roi i ffermwyr er mwyn gwella eu hymarfer.” [Ffermwr defaid]

4.77 Teimlai nifer bach o’r ymatebion hyn fod proses ddwyffordd o’r fath yn hanfodol i ddynameg y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a ffermwyr. Yn y modd hwn, dadleuwyd y gallai’r data sy’n cael eu casglu gael eu defnyddio i nodi potensial tir ffermwyr, pennu targedau

cyflawni, a chytuno ar amserlen fonitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

## Ymatebion gan sefydliadau

4.78 Fel y dengys Tabl 4.6, atebodd 43.5% o’r ymatebion gan sefydliadau nad oedd y gofyniad adrodd yn briodol.

**Tabl 4.6: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 4**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ydynt | 52 | 19.2% |
| Nac ydynt | 118 | 43.5% |
| Amhendant | 40 | 14.8% |
| Ddim yn gwybod | 4 | 1.5% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i’r cwestiwn | 0 | 0.0% |
| Dim ateb | 57 | 21.0% |
| Cyfanswm | 271 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

4.79 Roedd y themâu a ddaeth i’r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 4 yn gyson ar y cyfan â’r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y themâu canlynol:

- cododd rhai ymatebion gan y sector ffermio bryderon ynglŷn â diogelu data a defnydd Llywodraeth Cymru o’r data, a nododd un sefydliad ffermio: “Nac ydynt. Mae’n amharu ar breifatrwydd. Yn fy marn i, ni fydd cyflogeion Llywodraeth Cymru yn meddu ar ddigon o wybodaeth na medrusrwydd”
- cododd rhai sefydliadau amgylcheddol bryderon ynglŷn â “gorddibyniaeth ar hunanasesu”, a awgrymodd y gall hyn arwain at ddata o ansawdd gwael.

- mynegwyd pryderon ynglŷn â’r seilwaith cynhaliol gan rai sefydliadau yn y sector preifat a’r sector amgylcheddol, yn enwedig y seilwaith digidol gwael mewn ardaloedd gwledig.

**Cwestiwn 5: Bydd y Taliad Sefydlogrwydd yn rhoi cymorth ychwanegol yn ystod y Cyfnod Pontio. Yn eich barn chi, a yw hyn yn briodol wrth gyflwyno’r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol?**

**Crynodeb o’r cynigion**

Nod y Taliad Sefydlogrwydd yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw helpu ffermwyr i bontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol ar hyn o bryd i’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Mae’r taliad hwn yn cynnig mesur parhad er mwyn sicrhau nad yw ffermwyr yn wynebu diffygion ariannol sydyn yn ystod y cyfnod pontio. Mae’r Taliad Sefydlogrwydd yn rhoi tâl ychwanegol sy’n cyfateb i’r hyn y byddai ffermwyr wedi’i gael o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol cyn tapro dros y cyfnod pontio, a hynny er mwyn eu helpu i addasu’n raddol i’r cynllun newydd sy’n gwobrwyo arferion ffermio cynaliadwy ac ecogyfeillgar. Yn yr ymgynghoriad, cynigiwyd y dylai’r cyfnod pontio ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ymestyn o 2025 i 2029.

Mae’r Gweithredoedd Opsiynol a’r Gweithredoedd Cydweithredol wedi’u cynllunio i wneud y Cynllun yn fwy hyblyg ac effeithiol drwy ganiatáu i ffermwyr fynd y tu hwnt i’r gofynion llinell sylfaen.

Arferion ychwanegol y gall ffermwyr ddewis eu cyflwyno yn seiliedig ar amodau a blaenoriaethau penodol eu ffermydd yw Gweithredoedd Opsiynol. Bwriedir iddynt sicrhau manteision amgylcheddol wedi’u targedu’n well a gallent gynnwys mentrau fel creu cynefinoedd ar lefel ddatblygedig, cylchdroi cnydau arbenigol, neu dechnegau rheoli dŵr arloesol a chymorth i wella arferion bioddiogelwch.

Mae Gweithredoedd Cydweithredol yn golygu gweithio gyda ffermwyr, rheolwyr tir, neu sefydliadau allanol eraill i gyflawni nodau amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach ar raddfa fwy o faint. Maent wedi’u cynllunio i hwyluso ymdrechion ar y cyd mewn meysydd megis cadwraeth ar lefel tirwedd, rheoli plâu integredig ar sawl eiddo, neu reoli adnoddau a rennir.

Mae’r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol yn rhan o’r broses o gyflwyno’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fesul cam, ond ni fydd pob un ohonynt ar gael ar ddechrau’r Cynllun. Yn lle hynny, bydd rhai ar gael ar y dechrau a

bydd eraill yn cael eu cyflwyno’n raddol dros y blynyddoedd cychwynnol er mwyn rhoi amser i ffermwyr ymaddasu i’r system newydd.

### Dadansoddiad ansoddol

4.80 Rhaid nodi y canfuwyd bod testun Cwestiwn 5 yn anghyson yn y ddogfennaeth ymgynghori a holiadur yr ymgynghoriad. Roedd y fersiwn Saesneg o'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys cyfeiriad at borwyr cyffredin nad oedd wedi'u cynnwys yn y fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ymgynghori, yr holiadur ar-lein (yn Gymraeg a Saesneg), a'r holiaduron y gellir eu llwytho i lawr (yn Gymraeg a Saesneg). Mae’r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad ansoddol o’r holl ymatebion a atebodd Gwestiwn 5.

4.81 Roedd y mwyafrif o’r ymatebion i’r cwestiwn hwn yn teimlo ei bod yn briodol i Daliad Sefydlogrwydd gefnogi ffermwyr tra bydd y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol yn cael eu cyflwyno. Gellir rhannu’r ymatebion cefnogol yn ddau grŵp yn fras: yn gyntaf, y rhai a oedd yn teimlo ei fod yn briodol, ac yn ail, y rhai a oedd yn teimlo ei fod yn briodol ond bod eu hateb hefyd yn dibynnu ar amodau ychwanegol.

#### Sicrwydd ariannol

4.82 Awgrymodd llawer o’r ymatebion cefnogol y gall Taliad Sefydlogrwydd chwarae rôl o ran rhoi sicrwydd ariannol ac osgoi gostyngiad mewn incwm. Awgrymodd yr ymatebion cefnogol hyn y gall y Taliad Sefydlogrwydd osgoi senario “mynd dros ddibyn” a rhywfaint o’r “straen” sy’n gysylltiedig â phontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol i’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

4.83 Gwnaeth rhai o’r ymatebion a oedd yn canolbwyntio ar sicrwydd ariannol gyfeiriadau penodol at y Taliad Sefydlogrwydd yn helpu o ran cynllunio busnes yn y tymor hwy.

> “Cytuno, mae’n helpu busnesau i gynllunio am y bydd ganddynt sicrwydd ariannol dros y cyfnod hwn.” [Ffermwr defaid]

> “Cytuno, busnesau yw ffermydd ac mae angen eglurder er mwyn buddsoddi.” […].” [Ffermwr defaid]

Pontio

4.84 Nododd llawer o’r ymatebion hefyd y byddai’r Taliad Sefydlogrwydd yn ei gwneud yn bosibl pontio i’r trefniant cymorthdalu newydd ar ôl i Gynllun y Taliad Sylfaenol ddod i ben:

> “Cytuno, mae hyn yn rhan hanfodol o sicrhau proses o bontio’n ddidrafferth i fath newydd o gynllun.” [Ffermwr defaid]

> “Efallai y bydd yn helpu rhai ffermwyr i gymryd camau i bontio i’r cynllun newydd. Bydd yn paratoi eraill ar gyfer dyfodol heb daliadau.” [Ffermwr defaid]

Amserlen a graddfa’r broses bontio

4.85 Ymhlith yr ymatebion cefnogol a ychwanegodd amodau, roedd llawer o’r rhain yn ymwneud â materion o ran graddfa’r broses o dynnu’n ôl o Gynllun y Taliad Sylfaenol a’r amserlen. Roedd yr ymatebion yn cytuno bod angen Taliad Sefydlogrwydd ond mynegwyd pryder bod y taliad a oedd yn cyfateb i’r Taliad Sylfaenol yn lleihau dros amser. Roedd y safbwyntiau hyn yn canolbwyntio ar y posibilrwydd y byddai’r Taliad Sefydlogrwydd yn mynd yn rhy fach, gan achosi diffyg o bosibl i ffermwyr:

> “Cytuno hyd at flwyddyn 2. Yna mae’n mynd yn swm rhy fach.” [Ffermwr defaid]

> “Rwy’n cytuno bod hyn yn briodol ond yn amlwg, mae’r rhan fwyaf o bobl yn pryderu am beth fydd yn digwydd pan fydd y taliadau yn lleihau 20% bob blwyddyn yn unol â’r gostyngiad yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol.” [Ffermwr defaid]

4.86 Codwyd amserlen cymorth y Taliad Sefydlogrwydd hefyd gan rai ymatebwyr a oedd yn croesawu’r taliad ond a oedd hefyd yn beirniadu’r cynnig i’w dapro. Mynegodd ymatebion yr awydd i gadw’r Taliad Sefydlogrwydd gyhyd â phosibl:

> "Cytuno â thaliad sefydlogrwydd yn ystod y cyfnod pontio, ond dylai fod yn daliad sefydlogrwydd hirdymor fel rhan annatod o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn hytrach nag un ac iddo derfyn amser, yn ôl y cynnig." [Ffermwr cymysg]

> "Mae'r taliad sefydlogrwydd yn bwysig, ond mae'r broses o ddiddymu Cynllun y Taliad Sylfaenol yn raddol rhwng 2025 a 2029 yn golygu o hyd y bydd ffermwyr tir uchel yn wynebu "dibyn" ar ddiwedd y cyfnod. […]." [Ffermwr defaid]

> "Rwy'n croesawu'r taliad sefydlogrwydd. Ond mae angen iddo ymestyn am fwy o amser, yn enwedig i ffermwyr sy'n barod i ymrwymo i'r cynllun newydd hwn." [Ffermwr defaid]

4.87 Cafwyd aml gyfeiriad at anfodlonrwydd gyda'r cyfraddau talu mewn ymatebion anghefnogol. Roedd llawer o'r ymatebion yn rhagweld y byddai'r taliadau yn is na'r hyn y maent yn ei gael ar hyn o bryd, a fyddai'n achos diffyg yn eu tyb nhw.

Eglurder

4.88 Roedd llawer o'r ymatebion cefnogol yn cynnwys elfen amodol am eu bod am gael mwy o eglurder a gwybodaeth am werth taliadau Gweithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol yn y dyfodol. Mae ymateb nodweddiadol yn darllen fel a ganlyn:

> "Cytuno â'r cysyniad. Ond rwy'n pryderu'n fawr nad oes neb yn gwybod faint fydd unrhyw daliadau. […]" [Ffermwr dofednod]

4.89 Un pwynt cysylltiedig a godwyd mewn rhai ymatebion oedd bod y Taliad Sefydlogrwydd yn hollbwysig, yn enwedig am nad yw'r sector yn gwybod eto beth fydd y taliadau tebygol, ac felly bydd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd.

4.90 Ymhlith yr ymatebion anghefnogol, ystyriwyd bod y Taliad Sefydlogrwydd arfaethedig yn amhriodol oherwydd diffyg gwybodaeth am lefel y taliadau.

> "Mae angen mwy o fanylion i wneud penderfyniadau hyddysg ynglŷn â chynllunio busnes. Beth fydd lefel y taliad

> sefydlogrwydd? Sut y gellir gwneud unrhyw benderfyniadau heb yr wybodaeth ffeithiol sydd ei hangen[?]" [Unigolion yn y sector preifat]

Cyflwyno Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol

4.91 Mewn rhai o'r ymatebion cefnogol codwyd yr angen i gyflwyno'r haenau Opsiynol a Chydweithredol fel amod. Tynnodd yr ymatebion hyn sylw at yr angen am y Taliad Sefydlogrwydd, ond mynegwyd hefyd eu bod am weld yr haenau Opsiynol a Chydweithredol mor fuan â phosibl. Mynegodd rhai ymatebion yr awydd i gael y rhain erbyn 2025 neu 2026 am y rhesymau canlynol:

- mae rheolwyr tir am ddechrau ar unwaith ac mae'n bosibl y byddant yn colli cymhelliant oherwydd yr oedi cyn eu cyflwyno.
- Dylai'r haenau Opsiynol a Chydweithredol fod ar gael i ddarpari incwm i ffermwyr o'r cychwyn.

4.92 Cododd rhai ymatebion anghefnogol yr un mater hefyd, gyda'r ymatebion hyn yn dymuno gweld y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol yn cael eu cyflwyno'n gynt:

> "Rwy'n ymgymryd â rhai o'r Gweithredoedd Opsiynol a hoffwn gael fy nhalu am y rhain mor gyflym â phosibl." [Ffermwr cig eidion]

Tir comin

4.93 Codwyd goblygiadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i ffermwyr tir comin mewn rhai ymatebion cefnogol. Roedd yr ymatebion hyn yn cytuno â phriodoldeb y Taliad Sefydlogrwydd, ond yn holi a fyddai elfennau Cynllun y Taliad Sylfaenol ar gyfer tir comin yn parhau, ac a fyddent yn cael eu talu i unigolion neu gymdeithasau pori. Mewn egwyddor, y teimlad oedd y dylai'r taliadau gael eu gwneud i'r rhai "sy'n pori anifeiliaid ar dir comin ac sy'n ei reoli eu hunain."

4.94 Rhoddwyd pryderon ynglŷn â thir comin fel cyfiawnhad mewn rhai o'r ymatebion anghefnogol. Roedd yr ymatebion hyn yn teimlo'n benodol y dylai tir comin fod wedi cael ei gynnwys yn y Gweithredu

Cyffredinol, ac y gall ffermwyr tir comin golli incwm cymorthdal nes bod y Gweithredoedd Cydweithredol yn cael eu cyflwyno:

> “[…] mae ffermwyr tir comin ar eu colled nes eich bod yn datblygu’r Gweithredoedd Cydweithredol sydd, yn ôl eich cynigion, yn amodol ar gyllideb sut bynnag […].” [Ffermwr cig eidion]

Anfodlonrwydd gyda’r Cynllun

4.95 Roedd y mwyafrif o’r ymatebion yn teimlo nad oedd y Taliad Sefydlogrwydd y cynigiwyd y dylid ei gyflwyno yn briodol, ac roeddent yn tueddu i feirniadu’r ffordd roedd y Cynllun wedi’i lunio’n fwy cyffredinol, gan ddweud ei fod yn “anymarferol” neu’n “gofyn ormod”, ond gan hefyd gyfeirio at briodoldeb y cynllun cymorthdalu blaenorol, sef Cynllun y Taliad Sylfaenol.

## Ymatebion gan Sefydliadau

4.96 Roedd y themâu a ddaeth i’r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 5 yn gyson ar y cyfan â’r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- pryder ynglŷn ag amseriad y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol gan lawer o sefydliadau yn y sector amgylcheddol a’r trydydd sector oherwydd eu heffeithiau posibl canfyddedig ar yr amgylchedd. Roedd yn sefydliad amgylcheddol yn “pryderu, oherwydd y pwysau sylweddol ar y gyllideb, y bydd cyllid annigonol i gefnogi’r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol. Bydd taliadau sefydlogrwydd i ffermwyr, yn ddi-os, yn rhoi pwysau ar y gyllideb sydd ar gael. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol yn cael eu hariannu’n llawn a byddwn felly yn annog Llywodraeth Cymru i ddargyfeirio taliadau a’u rhoi i ffermwyr sy’n helpu i ddarparu gwasanaethau

cyhoeddus a buddiannau cyhoeddus cynyddol drwy gyflawni gweithredoedd sy'n mynd y tu hwnt i'r Haen Gyffredinol"

- roedd y mwyafrif o'r ymatebion gan y sector ffermio a'r sector preifat, yn ogystal â rhai ymatebion gan y trydydd sector, yn cefnogi'r taliad sefydlogrwydd ond mynegi'r pryder (o ystyried ei rôl ganfyddedig i gefnogi hyfywedd ffermydd) y byddai'n mynd yn llai dros amser.

4.97 Mewn gwrthgyferbyniad â'r ymatebion gan unigolion, cododd llawer o'r ymatebion gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus bryderon ynglŷn â thir comin. Tynnodd eu hymatebion sylw at natur gymhleth trefniadau llywodraethu tir comin. Gwnaethant hefyd ddadlau o blaid creu Cynghorau Tir Comin fel ffordd o reoli'r tiroedd hyn yn effeithiol.

**Cwestiwn 6: Rydym wedi cynnig y dylai fod gan ymgeiswyr reolaeth lwyr ar eu tir am 10 mis a’u bod yn cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol am flwyddyn lawn y cynllun (12 mis). Yn eich barn chi, a yw’r cyfnod o 10 mis yn ddigon?**

**Crynodeb o’r cynigion**

Yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cynigir y bydd angen i ffermwyr fod ag unig gyfrifoldeb dros reoli’r tir am gyfnod o 10 mis er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cwblhau’r Gweithredoedd Cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer blwyddyn lawn y cynllun o 12 mis. Nod y gofyniad hwn yw rhoi cyd-destun rheoli clir a pharhaus – neu reolaeth lwyr – lle y gellir ymgymryd â’r gweithredoedd hyn a’u monitro mewn ffordd ddibynadwy. Nodir ystyr ‘rheolaeth lwyr’ yn y ddogfen ymgynghori fel:

- y perchennog feddiannydd
- tenant sydd â ‘meddiant llwyr’ ar y tir naill ai o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 gyda Thenantiaeth Busnes Fferm neu denantiaeth lawn o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986;
- tenant â thenantiaeth lafar â’r un lefel o reolaeth â’r uchod.

### Dadansoddiad meintiol

4.98 Fel y dengys Tabl 4.7 cafwyd rhaniad cyfartal ar gyfer yr ymateb i’r cynnig ynglŷn â chyfnod o 10 mis. roedd 31.1% o’r ymatebion wedi ateb ‘Ydy’ (h.y. bod 10 mis yn ddigon) ac roedd 31.8% o’r ymatebion wedi ateb ‘Nac ydy’ (h.y. nad oedd 10 mis yn ddigonol).

**Tabl 4.7: Ymatebion i Gwestiwn 6**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 942 | 31.1% |
| Nac ydy | 962 | 31.8% |
| Amhendant | 256 | 8.5% |
| Ddim yn gwybod | 122 | 4% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 41 | 1.4% |
| Dim ateb | 905 | 29.9% |
| Cyfanswm | 3228 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.99 Gwelwyd gwahaniaethau amlwg yn lefel y gefnogaeth ymhlith y grwpiau canlynol o gymharu â'r duedd gyffredinol:

- roedd canran ychydig yn uwch o ymatebion cadarnhaol ymhlith y rhai sy'n cael y Taliad Sylfaenol a ffermydd tenant
- roedd cyfran led uwch o ymatebion cadarnhaol ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd.

## Dadansoddiad ansoddol

### Terfyn Amser

4.100 Awgrymodd llawer o'r ymatebion a deimlodd fod cyfnod o 10 mis yn amhriodol fod angen cyfnod o 12 mis. Roedd yr ymatebion a fynegodd y farn hon yn teimlo bod gofynion y Gweithredoedd Cyffredinol yn rhagdybio perthynas tymor hwy neu gydol blwyddyn â'r tir a reolir. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r hyn a all ddigwydd yn y ddeufis pan nad oes gan y ffermwr gyfrifoldeb am reoli'r tir:

> "Sut y gallwn warantu gweithredoedd ar gyfer y ddeufis, nid ni sy'n gyfrifol am y tir." [Ffermwr defaid]

> "Nid yw hynny'n ddigon nac yn gyflawnadwy i ffermwyr tenant. Mae gan lawer ohonynt gymalau yn eu contract sy'n cael eu gweithredu os bydd y Landlord yn adalw'r tir. Ni fyddent yn gallu

> plannu coed? Newid tir i gynefin? Does dim hawl ganddynt i'w newid! Mae angen diogelu ffermwyr tenant yn well." [Ffermwr defaid]

4.101 Nododd rhai ymatebion y gall peidio â rheoli'r tir drwy gydol y flwyddyn achosi problemau o ran cyflawni gweithgareddau sy'n dymhorol (e.e. plannu), neu ddod o hyd i gontractwyr am waith penodol neu arbenigol ar adegau penodol o'r flwyddyn.

Hyblygrwydd

4.102 Ar y llaw arall, nododd llawer o'r ymatebion fod angen cyfnod byrrach neu fwy hyblyg oherwydd yr arfer o ddefnyddio cytundebau rhentu tymor byrrach (roedd tenantiaid a pherchnogion tir yn cytuno â'r farn hon):

> "Fyddai hyn ddim yn gweithio o ran ein tir rhent sydd o dan drwydded bori am chwe mis, fyddai perchennog y fferm ddim yn gallu hawlio ar y sail hon chwaith." [Ffermwr cig eidion]

> "Rydym yn rhentu porfa dros dro yn y gaeaf am ein bod yn gweithredu busnes gwair yn yr haf. Byddai derbyn y grant yn newid popeth i ni. Byddai 7 [sic] mis yn dderbyniol. Mae i hyn oblygiadau enfawr i ffermwyr rhan amser fel fi." [Ffermwr defaid]

Taliadau i ffermwyr gweithredol

4.103 Ymhlith yr ymatebion sylweddol o blaid y cyfnod o 10 mis, roedd llawer o'r ymatebion yn teimlo y byddai hyn yn helpu ffermwyr tenant i hawlio ar dir lle maent yn gwneud y gwaith, sy'n osgoi'r broblem a nodir lle mae cymorthdaliadau yn cael eu hawlio gan berchnogion y tir yn lle'r rhai sy'n gweithio arno:

> "Mae hyn yn ymddangos yn opsiwn rhesymol, fel y gall y sawl sydd â rheolaeth yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn wneud y penderfyniadau rheoli ar gyfer y Gweithredoedd Cyffredinol." [Ffermwr cymysg]

> "Rwy'n teimlo bod hwn yn derfyn amser synhwyrol i'r sawl sy'n gwneud y gwaith ffermio mewn gwirionedd allu ymuno â'r cynllun." [Ffermwr godro]

## Ymatebion gan sefydliadau

4.104 Fel y dengys Tabl 4.8, cymysg fu'r ymateb gan sefydliadau i'r cynnig i bennu cyfnod o 10 mis, gyda 29.2% yn ateb 'Ydy', a 22.9% yn ateb 'Nac ydy'. Ni fynegwyd barn gan 37.3%.

**Tabl 4.8: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 6**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 79 | 29.2% |
| Nac ydy | 62 | 22.9% |
| Amhendant | 22 | 8.1% |
| Ddim yn gwybod | 6 | 2.2% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 1 | 0.4% |
| Dim ateb | 101 | 37.3% |
| Cyfanswm | 271 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.105 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 6 yn gyson ar y cyfan â'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- mynegodd llawer o sefydliadau yn y trydydd sector, y sector amgylcheddol, y sector cyhoeddus a'r sector ffermio bryderon y byddai rhai sydd â chytundebau rhentu byrrach, gan gynnwys pori dros yr haf, yn cael eu hatal rhag bod yn rhan o'r Cynllun. Nododd un sefydliad amgylcheddol: "na, nid oes modd darparu ar gyfer sefyllfa ffermwyr tenant a phorwyr sydd â chytundebau tymhorol drwy un ateb i bawb"

- awgrymodd llawer o sefydliadau yn y sector amgylcheddol, y trydydd sector a'r sector ffermio mai'r rhai sy'n gwneud y gwaith ffermio ei hun ddylai gael y taliad.
- mynegwyd pryderon ynglŷn ag absenoldeb rheoli yn ystod y ddeufis gan rai ymatebion gan y sector ymchwil ac academaidd a oedd yn cysylltu hyn â diffyg cydymffurfiaeth o bosibl.
- mynegwyd pryderon y gall fod i'r cynnig oblygiadau anfwriadol, gan gynnwys landlordiaid yn gwrthod caniatáu i denantiaid gymryd rhan yn y Cynllun, neu'n gwrthod rhentu i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Cynllun, amwysedd posibl wrth benderfynu pwy yw'r buddiolwr o dan y Cynllun pan gaiff cyfrifoldebau eu rhannu, a phryder ynglŷn â bylchau posibl y gall landlordiaid fanteisio arnynt.

**Cwestiwn 7: Rydym yn cynnig bod pawb yn y Cynllun yn defnyddio’r un gyfrifiannell carbon. A ydych yn cytuno a sut y gallwn eich cefnogi i wneud hyn?**

**Crynodeb o’r cynigion**

Cynigiodd yr ymgynghoriad y byddai angen i bob un sy’n cymryd rhan gwblhau asesiad carbon o fewn blwyddyn i ymuno â’r Cynllun. Er mwyn cwblhau’r asesiad carbon, cynigiodd Llywodraeth Cymru y dylid defnyddio un gyfrifiannell carbon yn hytrach na dewis ohonynt.

### Dadansoddiad Meintiol

4.106 Fel y dengys Tabl 4.9, cymysg fu’r ymateb i’r cynnig i ddefnyddio un gyfrifiannell carbon, gyda 27% yn cefnogi’r cynnig (h.y. cytuno y dylid cyflwyno un gyfrifiannell carbon) a 34.8% yn anghytuno ag un gyfrifiannell carbon.

**Tabl 4.9: Ymatebion i Gwestiwn 7**

| **Ymateb** | **Ymatebion** | **Canran** |
|---|---|---|
| Cytuno | 818 | 27.0% |
| Anghytuno | 1055 | 34.8% |
| Amhendant | 502 | 16.6% |
| Ddim yn gwybod | 142 | 4.7% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i’r cwestiwn | 22 | 0.7% |
| Dim ateb | 711 | 22.8% |
| Cyfanswm | 3228 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

4.107 Gwelwyd gwahaniaethau amlwg yn lefel y gefnogaeth ymhlith y grwpiau canlynol o gymharu â’r duedd gyffredinol:

- roedd canran ychydig yn uwch o ymatebion ‘Anghytuno’ ymhlith y rhai sydd â hawliau pori ar dir comin

- roedd canran led uwch o ymatebion ‘Anghytuno’ ymhlith y sector amgylcheddol
- roedd canran ychydig yn uwch o ymatebion ‘Cytuno’ ymhlith ffermwyr tenant a’r rhai sy’n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd.

### Dadansoddiad ansoddol

Anfodlonrwydd gyda’r cynllun

4.108 Roedd y mwyafrif o’r ymatebion anghefnogol nad oeddent yn cytuno â’r cynnig yn gwrthwynebu’r defnydd o gyfrifiannell carbon yn gyfan gwbl, yn hytrach na’r cynnig penodol i ddefnyddio un gyfrifiannell i bawb. Roedd cred gyffredinol na ddylai’r gofyniad i gwblhau cyfrifiannell carbon fod yn y Cynllun.

Cymharedd

4.109 Nododd llawer o’r ymatebion a fynegodd gefnogaeth i un gyfrifiannell fod angen i bob ffermwr yng Nghymru ddefnyddio’r un gyfrifiannell er mwyn sicrhau chwarae teg a chymharedd.

Dyblygu

4.110 Nododd sawl ymateb fod angen i unrhyw gyfrifiannell a ddefnyddir yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod yn gyson ag eraill a ddefnyddir ledled y DU. Nododd llawer o ymatebion gan ffermwyr godro eu bod eisoes yn cwblhau cyfrifiannell carbon fel un o amodau eu contract llaeth. Er bod y rhan fwyaf o’r ymatebion hyn yn teimlo y byddai hyn yn golygu dyblygu diangen, galwodd rhai am i’r un data gael eu defnyddio ar gyfer y ddau:

> “Cytuno, ond dylid cysoni’r gyfrifiannell carbon â’r un a ddefnyddir ar hyn o bryd gan brynwyr llaeth er mwyn osgoi dyblygu gwaith.” [Ffermwr godro]

4.111 Ymhlith y nifer bach o ymatebion a oedd yn anghytuno â’r cwestiwn ac yn rhoi esboniad pam, dadleuwyd eu bod eisoes yn defnyddio

cyfrifiannell carbon. Fel y cyfryw, roeddent yn pryderu felly y byddai'n rhaid iddynt gwblhau ail gyfrifiannell o dan y cynnig hwn.

Cyd-destun

4.112 Gwnaeth rhai ymatebion anghefnogol bwynt arall sef y byddai'r gwahaniaethau a'r mân amrywiadau rhwng mathau o fferm yn golygu y byddai un gyfrifiannell carbon yn achosi problemau:

> "Rwy'n awgrymu y dylai fod dewis o blith cyfres o gyfrifianellau carbon o leiaf, gydag esboniadau byr o nodau allweddol pob un, ac i ba fath o fusnesau fferm y byddant yn addas. Rwy'n awgrymu cael cyngor gan y fenter *Farm Carbon Toolkit*, sydd wrthi'n cynnal astudiaeth er mwyn cymharu gwahanol becynnau cymorth carbon." [Ffermwr cymysg]

Cywirdeb

4.113 Mynegodd llawer o'r rhai a oedd yn cefnogi'r defnydd o un gyfrifiannell carbon fod eu cefnogaeth yn amodol, yn bennaf ar yr angen i sicrhau bod yr wyddoniaeth sy'n sail i'r gyfrifiannell yn gywir. Cafodd y farn hon ei llywio gan y canfyddiad nad yw cyfrifianellau yn gywir, gyda sawl ymateb yn nodi problemau posibl o ran sut i asesu allyriadau methan, er enghraifft. Yn yr ymatebion a gododd fater cywirdeb, pwysleisiodd rhai fod angen i'r model sy'n sail i'r gyfrifiannell fod yn gadarn, ac yn seiliedig ar ymchwil gyfredol a thryloyw:

> "Mae'n dibynnu ar ba mor soffistigedig yw'r gyfrifiannell carbon mewn gwirionedd. Mae allbynnau carbon yn gymharol syml, ond mae angen tryloywder a manylder a chysylltiadau â'r wyddoniaeth sylfaenol." [Garddwriaethwr]

4.114 Roedd cywirdeb cyfrifianellau carbon yn gyfiawnhad cyffredin a godwyd mewn ymatebion a oedd yn gwrthwynebu'r defnydd o gyfrifiannell carbon yn gyfan gwbl. Er enghraifft:

> "Mae cyfrifianellau carbon megis ar gam cynnar iawn yn eu datblygiad ac maent yn seiliedig ar amcangyfrifon a data dyfalu gorau yn bennaf. Ar ôl cael profiad o archwiliad carbon ar ein

> fferm nid oedd gennyf unrhyw ffydd yn y data terfynol.” [Ffermwr godro]

4.115 Ymhlith y rhai a gododd gywirdeb fel mater, roedd rhai yn teimlo bod anhawster o ran cynrychioli’r amrywiaeth o systemau a chyd-destunau ffermio yn gywir a oedd felly yn bwrw amheuaeth ar werth cyfrifiannell carbon. Nodwyd bod cyfrifiannell ond mor gywir â’r data a fewngofnodir. Codwyd hefyd yr heriau sy’n gysylltiedig â chreu model sy’n berthnasol i bob system ffermio fel her bosibl.

4.116 Un thema gyffredin oedd dilysu, gyda rhai ymatebion yn awgrymu’r posibilrwydd o arolygiadau neu ymweliadau â’r safle i ddilysu’r data y mae’r ffermwr yn eu cynnwys yn y gyfrifiannell. Awgrymodd rhai hefyd fod angen archwiliadau annibynnol o’r data er mwyn casglu data cywir.

Defnyddioldeb a chymorth

4.117 Awgrymodd rhai ymatebion y byddai angen i’r gyfrifiannell fod yn un syml i’w defnyddio. Awgrymwyd y dylai’r gyfrifiannell gael ei darparu am ddim ac y dylai fod modd ei chwblhau heb fod angen cymorth gan ymgynghorydd.

4.118 Ymhlith yr ymatebion hyn, nododd llawer yr angen am gyngor a chymorth, gyda rhai yn awgrymu bod angen cymorth un i un neu wyneb yn wyneb. Codwyd hefyd yr angen am hyfforddiant (yn enwedig drwy Cyswllt Ffermio). Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys gweithdai, cymorth gan ymgynghorwyr, neu ganllawiau ar-lein, gan gynnwys canllawiau ar ffurf fideo.

Gweinyddiaeth a gallu technegol

4.119 Gwnaeth nifer bach o’r rhai a oedd yn gwrthwynebu’r gyfrifiannell carbon nodi gwaith gweinyddol ychwanegol fel cyfiawnhad dros ei gwrthwynebu:

> “[…] Bydd hyn yn ychwanegu hyd yn oed mwy o waith papur i ni.” [Ffermwr defaid]

> “Credaf fod hyn yn gyfrifoldeb ac yn waith ychwanegol i ffermwyr heb roi unrhyw fantais o ran eu cynhyrchion. Ni fydd yn eu galluogi i gynyddu gwerth eu cynhyrchion terfynol er mwyn cynyddu eu helw. Bydd ond yn achosi rhwystr iddynt drwy ychwanegu at eu llwyth gwaith a’u costau” [Unigolyn – dim manylion wedi eu nodi]

4.120 Codwyd pryderon ynglŷn â’r sgiliau technegol y byddai eu hangen i gwblhau cyfrifiannell ar-lein. Roedd rhai yn teimlo y byddai angen iddynt gael cymorth ymgynghorydd i wneud hyn. Codwyd hefyd fynediad at dechnoleg ddigidol fel rhwystr posibl i rai:

> “Bydd ffermwyr na allant hyd yn oed ddefnyddio cyfrifiadur, sydd eisoes yn gorfod talu i rywun lenwi ffurflenni Cynllun y Taliad Sylfaenol bob blwyddyn. Byddant yn cael eu cosbi ymhellach […]”. [Ffermwr defaid]

### Ymatebion gan Sefydliadau

4.121 Fel y dengys Tabl 4.10, cymysg fu’r ymatebion gan sefydliadau i’r cynnig ar gyfer un gyfrifiannell carbon, gyda 34.7% yn ei gefnogi a 22.5% ddim yn ei gefnogi a 25.1% ddim yn mynegi barn.

**Tabl 4.10: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 7**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 94 | 34.7% |
| Anghytuno | 61 | 22.5% |
| Amhendant | 44 | 16.2% |
| Ddim yn gwybod | 4 | 1.5% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i’r cwestiwn | 0 | 0.0% |
| Dim ateb | 68 | 25.1% |
| Cyfanswm | 271 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

4.122 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 7 yn gyson ar y cyfan â'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cefnogaeth i un gyfrifiannell carbon mewn llawer o'r ymatebion gan sefydliadau yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, er mwyn sicrhau chwarae teg a chymharu data
- cefnogaeth amodol gan rai sefydliadau yn y trydydd sector, y sector preifat a'r sector milfeddygol, yn dibynnu ar ba mor hygyrch yw'r gyfrifiannell, a'r graddau y mae'n addas ar gyfer amrywiaeth o ffermydd
- pryderon ynglŷn â dull gweithredu "un ateb i bawb" mewn llawer o'r ymatebion gan y sector ffermio a'r gadwyn cyflenwi bwyd a phren oherwydd yr amrywiaeth o fathau o dir, defnyddiau a busnesau fferm. Nododd un sefydliad ffermio: "ni fyddai cyfrifiannell carbon unigol yn addas ar gyfer anghenion pob fferm am fod pob un yn defnyddio dulliau ffermio gwahanol."

**Cwestiwn 8: Er mwyn cael parhau i gynnal y safonau uchel ar ein ffermydd, rydym yn cynnig ffordd gymesur o ymdrin â mesurau rheoli a sancsiynau, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth ychwanegol fel amod o gael taliad y Cynllun. Beth yw'ch barn am hyn?**

### Crynodeb o'r cynigion

Mae dogfen ymgynghori'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn amlinellu bwriad i weithredu mewn ffordd gymesur o ran mesurau rheoli a sancsiynau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth heb roi gormod o faich ar ffermwyr. Mae cydymffurfiaeth â meini prawf cymhwystra'r Cynllun, rheolau'r Cynllun, y llinell sylfaen reoleiddiol, a holl Weithredoedd cymwys y Cynllun yn amod talu. Mae'r dull gweithredu a nodwyd yn bwriadu cydbwyso'r angen am oruchwyliaeth reoleiddiol ag ymarferoldeb gweithrediadau ffermio. Bwriedir i sancsiynau, er eu bod yn angenrheidiol at ddibenion gorfodi, fod yn deg ac yn gymesur, gyda matrics sancsiynau sy'n nodi'n glir y goblygiadau yn erbyn cyfres o safonau amrywiadwy.

Mae'r Cynllun yn nodi y bydd canllawiau ar gael i helpu'r rhai sy'n cymryd rhan i gywiro mân broblemau, gan roi amser i unioni unrhyw broblemau lle y bo modd.

Dadansoddiad ansoddol

4.123 Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar gefnogaeth i safonau uchel, pwysigrwydd bod yn gymesur a'r angen i sicrhau cydymffurfiaeth.

4.124 Mynegodd llawer o'r ymateb yr angen am safonau uchel ar ffermydd yng Nghymru. Fodd bynnag, cafwyd gwahaniaeth barn, gyda rhai ymatebion yn awgrymu bod safonau uchel eisoes ar waith yng Nghymru ac yn gwrthwynebu newidiadau, o gymharu ag ychydig a oedd yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig. Nododd llawer o'r ymatebion gynlluniau gwarant fferm fel arfer da sy'n gwella safonau yn y sector ffermio, yn enwedig ym maes lles anifeiliaid, gyda rhai yn rhybuddio na ddylai'r ymdrech hon gael ei dyblygu. Cynigiodd llawer o'r ymatebion y dylai'r ffermwyr hynny sydd "wedi'u cofrestru â

chynlluniau gwarant fferm gael eu heithrio rhag llawer o’r gweithredoedd hyn.”

4.125 Pwysleisiodd rhai ymatebion safonau ffermio Cymru o’u cymharu â safonau gwledydd eraill sy’n allforio eu cynnyrch. Awgrymwyd bod “safonau Cymru ymhlith yr uchaf yn y byd.” Roeddent yn pryderu “y gall cynnyrch o wledydd â safonau is gael ei fewnforio am brisiau rhatach,” a bod hyn yn rhoi ffermwyr Cymru o dan anfantais gystadleuol, lle roeddent yn aml yn rhoi’r bai ar orelwa gan yr archfarchnadoedd. Fodd bynnag, roedd ychydig o’r ymatebion yn edrych yn llai ffafriol ar safonau ffermydd Cymru, gan awgrymu mai amaethyddiaeth oedd yn gyfrifol am ddirywiad amgylcheddol. Ymhlith yr enghreifftiau a nodwyd roedd achosion o lygru afonydd ac amonia yn effeithio ar gynefinoedd sensitif.

4.126 Pwysleisiodd llawer o’r ymatebion i’r cwestiwn hwn bwysigrwydd deddfu a gorfodi mewn ffordd gymesur, a dull gweithredu sy’n canolbwyntio ar helpu ffermwyr i ddatrys mân achosion o dorri rheolau yn hytrach na sancsiynau a chostau ariannol. Wrth ystyried cosbau posibl, teimlai rhai ymatebion y dylai’r awdurdodau ystyried nifer o faterion, yn enwedig y rhai sydd “y tu hwnt i reolaeth ffermwyr” megis y tywydd, argaeledd coed a’r cyflenwad o lafur. At hynny, awgrymodd ychydig o’r ymatebion na ddylai sancsiynau gosbi methiant i gyflawni gweithredoedd ar gyfer gofynion megis y gofyniad ynglŷn â choetir am fod sawl rheswm pam na fydd coed sy’n cael eu plannu yn ffynnu.

4.127 Nododd llawer o’r ymatebion effaith bosibl y cynigion hyn ar iechyd meddwl ffermwyr, gydag awgrymiadau bod y sefyllfa o ran “iechyd meddwl yn ein diwydiant yn ofnadwy ar hyn o bryd”. Awgrymodd ymatebion y dylid ystyried yr effaith ar iechyd meddwl ffermwr wrth benderfynu ar ymateb cymesur i dorri rheolau. Roedd un ymateb yn amau a fyddai’r cynigion yn gwella safonau yn gymesur â’r baich cynyddol:

> "Mae ffermio yn ddigon anodd fel y mae, yn gorfforol, yn emosiynol ac yn feddyliol ac nid yw'r sancsiwn na'r mesurau rheoli rydych yn eu hawgrymu yn arwain at 'safonau uchel', mae'n arwain at straen a gofid i ffermwyr." [Ffermwr godro]

Cydymffurfio a gorfodi

4.128 Cytunodd llawer o'r ymatebion y bydd camau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth a mynd i'r afael ag achosion o beidio â chydymffurfio yn ffactor pwysig yn y Cynllun, ac roeddent o'r farn y dylai fod cysylltiad rhwng taliadau a chydymffurfiaeth. Awgrymodd rhai ymatebion y dylai fod ffocws ar achosion o beidio â chydymffurfio'n fwriadol, gyda phwyslais ar droseddwyr mynych, ac arolygiadau wedi'u targedu at y rhai sy'n torri'r rheolau'n fwriadol. Gan fyfyrio ar y ffordd y gallai hyn weithio'n ymarferol, awgrymodd ymatebion y dylid gweithio gyda'r cynlluniau gwarant fferm achrededig presennol fel rhan o "ennill cydnabyddiaeth" neu ddull gweithredu sy'n seiliedig ar risg. Awgrymodd rhai ymatebion y byddai hyn yn osgoi dyblygu, yn lleihau costau gorfodi ac yn gwella cydberthnasau rhwng y llywodraeth a ffermwyr.

4.129 Codwyd adnoddau digonol ar gyfer gorfodi fel achos pryder, ynghyd â'r angen i reoleiddwyr feddu ar adnoddau personél, cyllideb a sgiliau digonol i "helpu i ddatblygu cynlluniau fferm, monitro a diweddaru a sicrhau cydymffurfiaeth."

## Ymatebion gan Sefydliadau

4.130 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 8 yn gyson ar y cyfan â'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- mynegwyd pryderon ynglŷn â chymesuredd y dull gweithredu arfaethedig, yn enwedig pan fydd problemau o ran cydymffurfiaeth yn codi o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y ffermwr, a'r effaith bosibl ar iechyd meddwl

ffermwyr, gan y mwyafrif o'r ymatebion gan y sector ffermio ac mewn llawer o'r ymatebion gan y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat. Nododd un ymateb gan filfeddyg: "fy marn i yw y bydd hyn yn gwaethygu cyfraddau hunanladdiad a phroblemau iechyd meddwl o fewn y diwydiant"

- nodwyd pwysigrwydd "yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu" gan lawer o sefydliadau amgylcheddol a bwysleisiodd y dylai hyn gael ei gynnwys fel rhan o'r dull gweithredu.
- mynegwyd cefnogaeth i fynediad cyhoeddus gan lawer o sefydliadau yn y trydydd sector a oedd am weld dull gweithredu yn seiliedig ar 'arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus'. Ar y llaw arall, mynegodd llawer o sefydliadau yn y sector ffermio bryderon ynglŷn â mynediad cyhoeddus oherwydd problemau posibl gyda bioddiogelwch, pryderon ynglŷn ag iechyd a lles anifeiliaid, ac atebolrwyddau busnes posibl.

**Cwestiwn 9: Bydd proses apelio Llywodraeth Cymru yn cynnig trefn effeithiol ac effeithlon i ni. A oes unrhyw reswm pam y dylem beidio â’i dilyn?**

**Crynodeb o’r cynigion**

Mae’r broses apelio arfaethedig ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn anelu at symleiddio’r system bresennol, y nodir ei bod “yn gostus ac yn cymryd llawer o amser” yn y ddogfen ymgynghori. Yn lle’r weithdrefn bresennol a reolir gan Taliadau Gwledig Cymru (RPW) sy’n cynnwys asesiad gan banel annibynnol a phenderfyniad terfynol gan Weinidogion Cymru, cynigir y bydd y broses newydd yn mabwysiadu dull mwy gweinyddol.

O dan y system arfaethedig, bydd apeliadau yn cynnwys proses adolygu dau gam. Mae’r broses hon wedi’i chynllunio i sicrhau tegwch ac ystyriaeth drylwyr drwy gynnwys swyddogion gwahanol i’r rhai a wnaeth y penderfyniadau gwreiddiol.

### Dadansoddiad meintiol

4.131 Fel y dengys Tabl 4.11, roedd 30% o'r ymatebion yn gwrthwynebu proses apelio Llywodraeth Cymru (h.y. yn dangos eu bod yn cytuno bod rheswm i wyro oddi wrthi) ac ni fynegwyd barn gan 38.6%[13].

**Tabl 4.11: Ymatebion i Gwestiwn 9**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Oes | 909 | 30.0% |
| Nac oes | 521 | 17.2% |
| Amhendant | 384 | 12.7% |
| Ddim yn gwybod | 186 | 6.1% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 58 | 1.9% |
| Dim ateb | 1170 | 38.6% |
| Cyfanswm | 3228 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.132 Nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg yn lefel y gefnogaeth wrth roi ffocws ar grwpiau penodol.

### Dadansoddiad ansoddol

#### Corff apelio annibynnol

4.133 Ymhlith y 30% o ymatebion a deimlai na ddylid defnyddio proses apelio bresennol Llywodraeth Cymru, roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn galw am i'r broses apelio fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Roedd ymatebion yn canfod, pe na bai corff apelio annibynnol, y byddai hynny'n arwain at benderfyniadau a oedd yn dangos tuedd:

> "Dylai unrhyw apeliadau gael eu gwrando gan sefydliad/awdurdod annibynol a diduedd." [Ffermwr defaid]

[13] Dylid nodi, mewn rhai achosion, fod y rhai a ddechreuodd eu hymateb drwy nodi 'Anghytuno' wedi mynd yn eu blaen i nodi eu bod yn 'Cytuno' â'r cwestiwn, a bod eu hymateb yn bwriadu dangos eu bod yn gwrthod y broses apelio ('Anghytuno' felly), ond bod yr ateb yn dangos fel arall i ddechrau. Lle mae bwriad yr ymateb yn glir, ystyriwyd safbwynt yr ymateb ei hun. Er enghraifft, mae un ymateb yn darllen: "Na, byth yn gweithio"

> “Dylai fod panel apelio annibynnol. Nid yw’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn caniatáu ar gyfer hyn. Mae’n anodd i weision sifil wrthddweud ei gilydd.” [Ffermwr – dim manylion wedi eu nodi]

Aneffeithlon

4.134 Awgrymodd llawer o’r ymatebion y gall proses apelio Llywodraeth Cymru fod yn aneffeithlon, yn araf, neu’n anymatebol[14]. Gwnaeth rhai ymatebion a gododd y pwynt hwn gynnwys enghreifftiau o brofiad o broses apelio flaenorol y dywedwyd eu bod yn araf ac yn fiwrocrataidd. Nododd rhai ymatebion yr angen am ymateb effeithlon, gyda nifer bach o’r rhain yn tynnu sylw at anghysondeb rhwng y disgwyliadau i’r ffermwr a Llywodraeth Cymru yn ystod y broses apelio:

> “Fel ffermwyr, os cyflwynwn apêl bydd gennym derfyn amser (30 diwrnod fel arfer) i ymateb neu roi tystiolaeth, ond yn aml rydym yn aros am fisoedd (os nad dros flwyddyn) am ymatebion neu ganlyniadau. Os pennir terfyn amser i ni, yna dylai fod terfyn amser ar yr ochr arall hefyd.” [Ffermwr cnydau âr]

Boddhad gyda’r system bresennol

4.135 Ymhlith y rhai a deimlodd y dylid defnyddio proses apelio Llywodraeth Cymru, roedd llawer yn meddwl bod y system bresennol yn gweithio’n dda neu’n ddigon da. Fodd bynnag, codwyd rhai rhybuddion hefyd, gan gynnwys yr angen am staffio digonol mewn unrhyw system apeliadau ac i brosesu apeliadau’n amserol.

Gofynion ar gyfer system apeliadau

4.136 Nododd rhai ymatebion yr hyn yr oedd angen i broses apelio ei ddarparu yn eu tyb nhw. Roedd hyn yn cynnwys y themâu canlynol, a restrir yn ôl pa mor aml y’u codwyd:

---

[14] Nododd dogfen ymgynghori’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy *na* fyddai apeliadau o dan y broses apelio yn cael eu trafod gan system apelio bresennol Taliadau Gwledig Cymru, ond ychydig iawn o’r ymatebion a nododd hyn yn eu hymateb.

- mae angen i’r broses apelio fod yn effeithiol ac ymateb yn gyflym
- mae angen i’r broses apelio gael ei chynnal gan unigolion sy’n deall ffermio
- mae angen i apeliadau ystyried systemau ffermio gwahanol a digwyddiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y ffermwr
- rhaid i bob apêl gael gwrandawiad teg
- mae angen i’r broses fod yn dryloyw
- mae angen i’r broses gael ei gwerthuso’n rheolaidd a chael adborth gan y sector.

### Ymatebion gan sefydliadau

4.137 Fel y dengys Tabl 4.12, roedd 25.1% o’r ymatebion gan sefydliadau yn gwrthwynebu’r cynnig i fabwysiadu proses apelio Llywodraeth Cymru ac ni fynegwyd barn gan 44.6%[15].

**Tabl 4.12: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 9**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Oes | 68 | 25.1% |
| Nac oes | 36 | 13.3% |
| Amhendant | 35 | 12.9% |
| Ddim yn gwybod | 8 | 3.0% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i’r cwestiwn | 3 | 1.1% |
| Dim ateb | 121 | 44.6% |
| Cyfanswm | 271 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

[15] Dylid nodi, mewn rhai achosion, fod y rhai a ddechreuodd eu hymateb drwy roi ateb negyddol wedi mynd yn eu blaen i nodi barn gefnogol ar y cwestiwn, a bod eu hymateb yn bwriadu dangos eu bod yn gwrthod y broses apelio (‘Nac oes’ felly), ond bod yr ateb yn dangos fel arall i ddechrau. Lle mae bwriad yr ymateb yn glir, ystyriwyd safbwynt yr ymateb ei hun. Er enghraifft, mae un ymateb yn darllen: “Na, byth yn gweithio”

4.138 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 9 yn gyson â'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- nododd llawer o'r ymatebion gan y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat bod angen proses syml, deg a thryloyw
- mynegodd y mwyafrif o'r ymatebion gan y sector ffermio a'r gadwyn cyflenwi bwyd a phren, a hefyd lawer o'r ymatebion gan sefydliadau ymchwil ac academaidd ac undebau amaethwyr bryderon ynglŷn â "cholli panel apeliadau annibynnol". Awgrymwyd ganddynt y gallai hyn gyfyngu ar fynediad i gyfiawnder ac arwain at duedd yn erbyn y rhai sy'n cymryd rhan. Nododd un sefydliad ffermio "Os yw'n gweithio ac os yw'n deg ac yn gyfreithlon, nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad. Yn eich proses apelio'n flaenorol, byddai partïon annibynnol yn cyfrannu – rhaid i hyn gael ei gadw. Mae angen cadw'r gallu i wahaniaethu rhwng camgymeriadau gwirioneddol a thwyll"
- nododd y mwyafrif o'r ymatebion gan y sector ffermio, y sector milfeddygol a'r trydydd sector bwysigrwydd ystyried effeithiau unrhyw broses apelio ar iechyd meddwl ffermwyr, gan awgrymu y dylai'r broses achosi cyn lleied o straen â phosibl ac ymateb i anghenion y rhai sy'n cymryd rhan.

**Cwestiwn 10: Hoffem glywed eich barn am y cynigion ar gyfer:**

**10a) Hoffem glywed eich barn am y cynigion ar gyfer: Taliad Sylfaenol Cyffredinol SFS**

**Crynodeb o'r cynigion**

Y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw'r taliad blynyddol i ffermwyr am gyflawni'r gyfres o Weithredoedd Cyffredinol sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion rheoleiddiol safonol. Mae'n seiliedig ar arwynebedd y fferm, a chynigir y dylai gwerth y taliad gael ei gyfrifo fel swm gwerthoedd pedwar taliad gwahanol sy'n seiliedig ar y pedwar categori hyn:

Cyffredinol – Cynnal coetir sy'n bodoli eisoes: Gwerth y taliad am bob hectar o goetir sy'n bodoli eisoes sy'n cael ei reoli;

Cyffredinol – Creu coetir: Gwerth y taliad am bob hectar ychwanegol o goetir newydd ei greu, unwaith y caiff ei greu;

Cyffredinol – Cynnal cynefinoedd: Gwerth y taliad am bob hectar o gynefin lled-naturiol sy'n cael ei reoli, a/neu bob hectar ychwanegol o gynefin dros dro hyd at y 10% gofynnol, unwaith y caiff ei greu;

Cyffredinol – Gweithredoedd: Gwerth y taliad am bob hectar sy'n cwmpasu pob Gweithred Gyffredinol arall ar gyfanswm yr arwynebedd sy'n gymwys.

Dadansoddiad ansoddol

4.139 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg mewn ymatebion i Gwestiwn 10a yn ymwneud â chynaliadwyedd, pryderon ynglŷn â thaliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd, yr awydd am eglurder ynglŷn â chyfraddau talu, a'r effaith bosibl ar ffermydd llai o faint.

4.140 Awgrymodd llawer y byddai'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn meithrin arferion amaethyddol cynaliadwy a thynnwyd sylw at bwysigrwydd hyrwyddo technegau ecogyfeillgar. Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebion bryder y gallai taliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd gael effeithiau niweidiol drwy chwyddo prisiau tir a chodi mwy o rwystrau i newydd-ddyfodiaid.

4.141 Cododd llawer o'r ymatebion bryderon na allent werthuso effaith y Cynllun ar hyfywedd ariannol eu fferm am nad oedd y manylion talu terfynol wedi cael eu cyhoeddi. Roeddent hefyd yn pryderu ynglŷn â diffyg gwybodaeth fanwl am y ffordd y caiff taliadau eu cyfrifo a'u dosbarthu. Awgrymodd rhai ymatebion fod hyn wedi arwain at heriau o ran gwerthuso hyfywedd ariannol y Cynllun:

> "mae bron yn amhosibl gwneud sylwadau ar hyn am nad ydym wedi cael unrhyw amcan o faint o arian fydd ar gael." [Ffermwr defaid]

> "[…] rydych yn nodi mai dim ond fesul blwyddyn y bydd cyllideb ar gael, mae hyn yn achos pryder." [Unigolyn o'r sector preifat]

4.142 Codwyd pryderon ynglŷn â hyfywedd ariannol hefyd mewn llawer o'r ymatebion a oedd yn teimlo y gallai'r Cynllun roi ffermydd llai o faint o dan anfantais yn anfwriadol. Awgrymodd yr ymatebion hyn nad yw'r strwythur talu cyfradd sefydlog na'r Gweithredoedd Cyffredinol sy'n ofynnol o dan y Cynllun yn rhoi digon o ystyriaeth i amgylchiadau a chyfyngiadau unigryw ffermydd llai o faint.

## Ymatebion gan sefydliadau

4.143 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 10a yn gyson â'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- mynegodd y mwyafrif o'r ymatebion gan y sector ffermio bryderon ynglŷn ag annigonolrwydd y Taliad Sylfaenol Roedd ymatebion yn galw am eglurder a sicrwydd a chynnydd mewn cyfraddau talu o gymharu â chyfraddau presennol Cynllun y Taliad Sylfaenol a hefyd yn nodi eu canfyddiad o gyfraddau talu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- mynegodd llawer o'r ymatebion gan y sector coedwigaeth, y trydydd sector a'r sector amgylcheddol gefnogaeth i'r cynigion. Roedd rhai ymatebion gan y sector ffermio yn ystyried bod y

taliad yn cydnabod ymdrechion ffermwyr, ond pwysleiswyd yr angen i'w digolledu'n ddigonol am gymryd rhan mewn cynlluniau amgylcheddol

- nododd llawer o'r ymatebion gan y sector ffermio a'r sector preifat eu canfyddiad bod diffyg cymhelliant i genedlaethau iau a newydd-ddyfodiaid ymuno â'r sector ffermio. Nododd un sefydliad ffermio: "Nid oes unrhyw gymhellion i bobl ifanc gyda'r cynllun presennol hwn."

**10b) Hoffem glywed eich barn am y cynigion ar gyfer: Taliad Sefydlogrwydd SFS**

**Crynodeb o’r cynigion**

Nod y Taliad Sefydlogrwydd yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw helpu ffermwyr i bontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol ar hyn o bryd i’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Mae’r taliad hwn yn cynnig mesur parhad er mwyn sicrhau nad yw ffermwyr yn wynebu diffygion ariannol sydyn wrth i’r systemau newid. Pont ariannol yw’r Taliad Sefydlogrwydd yn y bôn, a fydd yn rhoi ffrwd incwm ragweladwy i ffermwyr wrth iddynt ymaddasu i ofynion a chymhellion newydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd ffermwyr yn cael y Taliad Sefydlogrwydd os bydd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn llai na’r taliad ‘tybiannol’ y byddai’r busnes fferm wedi’i gael o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol cyn y cyfnod pontio.

Dadansoddiad ansoddol

4.144 Roedd y mwyafrif o’r ymatebion yn cefnogi’r cysyniad o daliad sefydlogrwydd. Roedd llawer o’r farn ei fod yn fesur angenrheidiol i hwyluso’r broses o bontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol i’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Pwysleisiodd llawer o’r ymatebion y dylai taliadau o’r fath fod yn ddigon sylweddol i helpu ffermwyr i addasu eu gweithrediadau i gyrraedd safonau amgylcheddol a chynaliadwyedd newydd, heb galedi ariannol. Fodd bynnag, fel yn achos ymatebion i’r cwestiwn ynglŷn â’r Taliad Sylfaenol Cyffredinol, roedd llawer o’r ymatebion yn canolbwyntio ar ddiffyg gwybodaeth benodol am fanylion talu.

Ymatebion gan sefydliadau

4.145 Roedd y themâu a ddaeth i’r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 10a yn gyson â’r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- nododd llawer o'r ymatebion gan y sector amgylcheddol, y sector coedwigaeth a'r trydydd sector gefnogaeth i'r taliad sefydlogrwydd am eu bod yn teimlo y byddai'n lliniaru risg ffermwyr ac yn eu hannog i gymryd rhan yn y Cynllun.
- mynegodd y mwyafrif o'r ymatebion gan y sector ffermio a'r sector preifat bryderon ynglŷn â'r diffyg manylion canfyddedig am y taliad sefydlogrwydd, gan awgrymu bod hynny'n ei gwneud yn anodd i ffermwyr asesu effaith y newidiadau ar eu busnes. Nododd un sefydliad ffermio: "Nid oes unrhyw ffigurau ar gael i ni felly sut y gallwn arfarnu'r Cynllun!"
- Mewn llawer o'r ymatebion gan y sector amgylcheddol, y sector ffermio a'r trydydd sector gwnaed argymhellion y dylai'r Taliad Sefydlogrwydd roi digon o gymorth i ffermwyr addasu eu gweithrediadau i fodloni gofynion y Cynllun.

**Cwestiwn 11: Efallai y bydd ffermwyr y tu allan i'r Cynllun am gael help i gynnal gweithredoedd tebyg i'r rhai a gynigir yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol. Yn eich barn chi, a ddylai ffermwyr sy'n rhan o'r Cynllun gael blaenoriaeth i wneud y gweithredoedd hyn?**

**Crynodeb o'r cynigion**

Cynigiodd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy y byddai'r Gweithredoedd Cyffredinol, a fyddai'n cael eu lansio yn 2025, yn cael eu dilyn gan Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol.

Cynigiodd Llywodraeth Cymru y dylai'r rhai sy'n ymuno â'r Cynllun gael mynediad â blaenoriaeth i'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol, ac y byddai'r rhai na wnaethant ymuno â'r Cynllun yn mynd drwy broses gystadleuol.

## Dadansoddiad meintiol

4.146 Fel y dengys Tabl 4.13, roedd 34.3% o'r ymatebion yn gwrthwynebu blaenoriaethu cymorth i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Cynllun, ond roedd 23.3% o blaid blaenoriaethu ac ni fynegwyd barn gan 32%.

**Tabl 4.13: Ymatebion i Gwestiwn 11**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Dylent | 705 | 23.3% |
| Na ddylent | 1040 | 34.3% |
| Amhendant | 212 | 7.0% |
| Ddim yn gwybod | 122 | 4.0% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 183 | 6.0% |
| Dim ateb | 966 | 32.0% |
| Cyfanswm | 3228 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.147 Nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg yn lefel y gefnogaeth wrth roi ffocws ar grwpiau penodol.

## Dadansoddiad ansoddol

### Triniaeth gyfartal

4.148 Gwrthododd llawer o'r ymatebion y syniad y dylai ffermwyr sy'n rhan o'r Cynllun gael cymorth â blaenoriaeth ar gyfer Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol. Y rhesymeg a roddwyd mewn llawer o'r ymatebion hyn oedd eu bod am weld ffermwyr yn cael eu trin yn gyfartal, p'un a oeddent yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ai peidio.

4.149 Mynegodd rhai ymatebion bryderon ynglŷn â'r ffermwyr hynny na allant ymuno â'r Cynllun am na allant gyflawni'r Gweithredoedd Cyffredinol. Nododd yr ymatebion hyn na ddylai'r ffermwyr hyn fod o dan anfantais o ran ceisio cymorth i gyflawni Gweithredoedd Cydweithredol ac Opsiynol.

4.150 Roedd rhai ymatebion yn teimlo y dylai pawb sy'n gweithio er budd yr amgylchedd neu'r cyhoedd gael cymorth, p'un a ydynt yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ai peidio:

> "Rhaid i bob ffermwr gael ei wobrwyo'n deg am y budd amgylcheddol/nwyddau cyhoeddus y maent eisoes yn eu darparu ac y byddant yn parhau i'w darparu yn y dyfodol dros gymdeithas." [Ffermwr cymysg]

### Gwobrwyo ymrwymiad

4.151 Ymhlith yr ymatebion a gytunodd y dylai'r rhai sy'n rhan o'r Cynllun gael cymorth â blaenoriaeth, mynegodd llawer yr angen am wobrwyo'r ymrwymiad i ymuno â'r Cynllun:

> "Dylent, os bydd ffermwyr yn ymrwymo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yna dylent gael blaenoriaeth am eu bod wedi dangos ffydd yn Llywodraeth Cymru a'r cynllun newydd a dylent gael eu gwobrwyo am hyn." [Ffermwr defaid]

4.152 Roedd rhai ymatebion yn canolbwyntio ar y canfyddiad y byddai'r Cynllun yn cael ei danseilio pe bai'r rhai y tu allan iddo yn cael yr un flaenoriaeth:

"Cytuno'n llwyr. Os na all pobl wneud unrhyw elfen o'r pethau sylfaenol (er nad ydynt yn gywir o bell ffordd ar hyn o bryd) ond eu bod yn dal i gael mynediad at yr "arian ychwanegol", beth yw'r pwynt?" [Ffermwr defaid]

"Dylent, neu fel arall, beth ar y ddaear yw diben y Gweithredoedd Cyffredinol? Os gall ffermwyr gael mynediad at yr haenau opsiynol heb sicrhau 10% o gynefin na 10% o goetir, pam y bydden nhw'n poeni am y Gweithredoedd Cyffredinol ?" [Unigolyn yn y sector cyhoeddus]

## Ymatebion gan sefydliadau

4.153 Fel y dengys Tabl 4.14, roedd 28% o'r ymatebion gan sefydliadau yn gwrthwynebu blaenoriaethu'r rhai a oedd yn rhan o'r Cynllun o gymharu ag 21.4% a oedd yn cefnogi'r cynnig, ond ni fynegwyd barn gan 30.1%.

**Tabl 4.14: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 11**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Dylent | 58 | 21.4% |
| Na ddylent | 76 | 28.0% |
| Amhendant | 24 | 8.9% |
| Ddim yn gwybod | 17 | 6.3% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 12 | 4.4% |
| Dim ateb | 84 | 30.1% |
| Cyfanswm | 271 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.154 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 11 yn gyson â'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- mynegodd llawer o sefydliadau yn y sector amgylcheddol, y sector ffermio a'r trydydd sector gefnogaeth i ddull strategol a

oedd yn canolbwyntio ar sicrhau buddiannau i gynefinoedd a bioamrywiaeth lle y byddai mynediad at gymorth ar gyfer gweithredoedd tebyg i'r rhai a gynigiwyd yn yr haenau Opsiynol a Chydweithredol ar gael i'r rhai y tu allan i'r Cynllun yn hytrach na chael ei gyfyngu i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

- mynegodd y mwyafrif o'r ymatebion gan y sector ffermio y gred y dylai'r Cynllun hyrwyddo chwarae teg i ffermwyr. Roedd yr ymatebion hyn yn gwrthwynebu blaenoriaethu'r rhai sy'n rhan o'r Cynllun am eu bod yn teimlo, gan na fyddai llawer o ffermwyr yn ymuno â'r Cynllun arfaethedig, y byddai hyn yn cyfyngu ar y cyfle i hyrwyddo arferion amgylcheddol gwell. Er enghraifft, nododd ymateb gan un sefydliad ffermio: “Mae hyn yn gwahaniaethu yn erbyn y ffermwyr sydd am ymuno â'r Cynllun o bosibl ond na allant wneud hynny oherwydd y gofynion amhosibl a fyddai'n cael eu gosod arnynt. Y ffermydd bach, na allent fforddio cyflogi pobl i ymgymryd â'r llwyth gwaith i ymuno â'r Cynllun presennol, fyddai'r rhai y byddai'n fwyaf buddiol iddynt gwblhau'r gweithredoedd hyn siwr o fod (h.y. o gynlluniau grantiau bach i wella'r broses o gofnodi da byw ac ati.)”
- mynegodd rhai ymatebion gan y sector ffermio, y trydydd sector, y sector ymchwil a'r sector amgylcheddol gefnogaeth o blaid blaenoriaethu'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Cynllun. Awgrymwyd y byddai'r rhai sy'n cymryd rhan mewn sefyllfa well i ymgymryd â gwaith cynllunio camau amgylcheddol yn yr hirdymor.

## Cwestiwn 12: Pa gamau a chymorth yn yr haenau Opsiynol a Chydweithredol ddylai yn eich barn chi gael blaenoriaeth?

### Crynodeb o’r cynigion

Cynigiodd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy y byddai’r Gweithredoedd Cyffredinol, a fyddai’n cael eu lansio yn 2025, yn cael eu dilyn gan Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol.

Disgwylir i’r Gweithredoedd Opsiynol gael eu harwain neu eu llywio gan y Gweithredoedd Cyffredinol a bydd y rhai sy’n cymryd rhan yn y Cynllun yn gallu dewis pa weithredoedd y maent yn ymgymryd â nhw. Roedd Atodiad 2 i’r ymgynghoriad yn cynnwys rhestr o Weithredoedd Opsiynol arfaethedig yr awgrymwyd y gallent lywio atebion i Gwestiwn 12.
Bwriedir i’r Gweithredoedd Cydweithredol roi cyfle i ffermwyr weithredu ar lefel leol, lefel tirwedd, lefel dalgylch neu lefel genedlaethol. Roedd Pennod 5 yn cynnwys enghreifftiau o Weithredoedd Cydweithredol, gan gynnwys: gweithredu ar lefel tirwedd, atebion sy’n seiliedig ar natur a throsglwyddo arloesedd a gwybodaeth ym maes amaethyddiaeth.

4.155 Cynigiwyd llawer o weithredoedd ar gyfer yr haenau Opsiynol a Chydweithredol. Dengys Tabl 4.15 y themâu a grybwyllwyd amlaf yn ogystal â'r dulliau cymorth awgrymedig, neu'r gweithredoedd awgrymedig i roi cymorth, a grybwyllwyd amlaf.

**Tabl 4.15: Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol i'w blaenoriaethu**

| Gweithredol/Cymorth | Amlder | Mathau o weithredoedd |
|---|---|---|
| Cynhyrchu Bwyd | 169 | Cymorth i gynnal gweithgarwch cynhyrchu bwyd |
| Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth | 156 | Creu pyllau dŵr, creu cynefinoedd a'u cynnal |
| Pridd a Gorchuddion | 67 | Rheol glaswelltir, iechyd a chyflwr pridd, ffyrdd o aredig |
| Seilwaith | 58 | Adeiladau fferm, perthi/gwrychoedd, ffyrdd ac arwynebau, dŵr, y rhyngrwyd |
| Dyfrffyrdd | 51 | Mesurau lliniaru llifogydd, rheoli dalgylchoedd afonydd a phlannu lleiniau clustogi |
| Lles Anifeiliaid | 46 | Cyllid ar gyfer ffensys a mesurau bioddiogelwch |
| Rheoli Coed a Choetir | 44 | Cyllid ar gyfer creu coetir a chydweithio |
| Peiriannau | 32 | Cyllid ar gyfer peiriannau a buddsoddiadau arloesi |
| Ynni Adnewyddadwy | 26 | Cymorth, cyngor ac arweiniad ar fuddsoddi |
| Organig | 16 | Hyrwyddo a chefnog ffermio organig drwy gyllid |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

### Ymatebion gan sefydliadau

4.156 Cynigiodd sefydliadau lawer o weithredoedd ar gyfer yr haenau Opsiynol a Chydweithredol. Dengys Tabl 4.16 y themâu a godwyd amlaf.

**Tabl 4.16: Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol i’w blaenoriaethu**

| **Gweithredol/Cymorth** | **Amlder** |
|---|---|
| Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth | 36 |
| Cynhyrchu Bwyd | 17 |
| Pridd a Gorchuddion | 13 |
| Organig | 13 |
| Lles Anifeiliaid | 10 |
| Dyfrffyrdd | 9 |
| Seilwaith | 4 |
| Rheoli Coed a Choetir | 4 |
| Ynni Adnewyddadwy | 1 |

Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

4.157 Roedd y gweithredoedd a flaenoriaethwyd gan sefydliadau yn gyson ar y cyfan â’r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd mewn ymatebion gan unigolion. Cafwyd mân wahaniaethau o ran blaenoriaethau fel y gweler drwy gymharu Tabl 4.15 a Thabl 4.16. Roedd yr ymatebion gan unigolion yn blaenoriaethu cynhyrchu bwyd ac yn gofyn am gymorth i brynu peiriannau ond roedd sefydliadau yn tueddu i flaenoriaethu’r amgylchedd a bioamrywiaeth, gyda chyfran uwch yn dangos cefnogaeth i ffermio organig hefyd. Mae’r mathau o weithredoedd a ddangosir yn Nhabl 4.15 yn adlewyrchu’r mathau o weithredoedd a awgrymwyd gan sefydliadau.

**Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r BPS o 2025? Byddan nhw'n cynnwys:**

**13a) Y gyfradd y bydd taliadau BPS yn cael eu lleihau.**

**Crynodeb o'r cynigion**

Fel rhan o'r broses o bontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cynigiodd yr ymgynghoriad y dylai taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol ostwng yn raddol dros gyfnod o bum mlynedd, yn dechrau yn 2025 ac yn dod i ben yn 2029. Mae'r gostyngiadau arfaethedig fel a ganlyn:

- Yn 2025, bydd taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol yn gostwng i 80% o'r swm blaenorol.
- Bydd gostyngiad o 20% ym mhob blwyddyn ddilynol, sef taliadau o 60%, 40% ac 20% yn 2026, 2027, a 2028 yn y drefn honno.
- Erbyn 2029, bydd taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol yn dod i ben yn gyfan gwbl.

Nod tapro graddol o'r fath yw hwyluso'r broses o bontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i ffermwyr, gan leihau unrhyw darfu ariannol i'r eithaf drwy roi amser i ymaddasu i'r system newydd sy'n gwobrwyo arferion ffermio cynaliadwy yn fwy uniongyrchol.

### Dadansoddiad meintiol

4.158 Fel y dengys Tabl 4.17, roedd 58.4% o'r ymatebion yn gwrthwynebu'r gyfradd arfaethedig ar gyfer lleihau taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol.

**Tabl 4.17: Ymatebion i Gwestiwn 13a**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 589 | 19.5% |
| Anghytuno | 1769 | 58.4% |
| Amhendant | 243 | 8.0% |
| Ddim yn gwybod | 132 | 4.4% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 67 | 2.2% |
| Dim ateb | 428 | 13.9% |
| Cyfanswm | 3228 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.159 Gwelwyd gwahaniaethau amlwg yn lefel y gefnogaeth ymhlith y grwpiau canlynol o gymharu â'r duedd gyffredinol:

- roedd canran ychydig o uwch o atebion 'Anghytuno' ymhlith y rhai a oedd wedi cael arian o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol a'r rhai â hawliau pori ar dir comin.

## Dadansoddiad ansoddol

4.160 Rhoddwyd y cyfiawnhad canlynol gan lawer o'r ymatebion a oedd yn anghytuno â'r gyfradd arfaethedig ar gyfer lleihau taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol:

- dylai taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol barhau fel y maent
- dylai taliadau cynllun a gyflwynir yn lle Cynllun y Taliad Sylfaenol barhau ar yr un lefel
- canfyddiad y byddai taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol yn cael eu lleihau yn rhy gyflym ac y dylai hynny ddigwydd dros gyfnod hwy.

- ystyriwyd bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn anymarferol, ac felly y dylid cadw Cynllun y Taliad Sylfaenol ar yr un gyfradd nes bod cynllun mwy addas yn cael ei gynnig.

4.161 Gellir rhannu’r ymatebion a roddwyd gan lawer o’r rhai a oedd yn cytuno â’r gyfradd ar gyfer lleihau taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol yn ddwy thema fras: O dan y thema gyntaf roedd ymatebion a oedd yn cytuno ei bod yn bwysig bod y taliadau’n cael eu diddymu’n raddol:

> “Cytuno bod hynny’n iawn. Mae’n cael ei ddiddymu’n raddol, mae’n gwneud synnwyr i wneud hynny dros ychydig flynyddoedd yn hytrach nag ar un adeg benodol. Os dewiswn beidio ag ymuno â’r cynllun newydd o leiaf mae’n rhoi ychydig o flynyddoedd i ni addasu.” [Ffermwr godro]

4.162 O dan yr ail thema a welwyd mewn nifer bach o’r ymatebion, roedd y rhai a oedd yn fodlon ar y cynnig i leihau taliadau ar yr amod bod taliadau o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ddigon i wneud iawn am unrhyw golledion posibl:

> “Mae’r gyfradd ar gyfer lleihau taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol yn dderbyniol cyhyd â bod y cynllun newydd yn cael ei gyflwyno ar yr un gyfradd er mwyn gwneud iawn am unrhyw golledion.” [Ffermwr defaid]

## Ymatebion gan sefydliadau

4.163 Fel y dengys Tabl 4.18, roedd 14% o’r ymatebion gan sefydliadau yn cymeradwyo’r gyfradd arfaethedig ar gyfer lleihau taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol ond gwrthwynebwyd y cynnig gan 23.5% ac ni fynegwyd barn gan 41.7%

**Tabl 4.18: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 13a**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 14.0% |
| Anghytuno | 88 | 23.5% |
| Amhendant | 21 | 7.7% |
| Ddim yn gwybod | 5 | 1.8% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 6 | 2.2% |
| Dim ateb | 113 | 41.7% |
| Cyfanswm | 271 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.164 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 13a yn gyson â'r ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- gwrthwynebiad i'r gyfradd arfaethedig ar gyfer lleihau taliadau ymhlith y mwyafrif o'r ymatebion gan y sector ffermio, a gyfeiriodd at incymau fferm isel a chaledi ariannol posibl oherwydd gostyngiadau y tybiwyd eu bod yn "rhy ddwfn ac yn rhy sydyn"
- mynegodd rhai ymatebion gan y sector ffermio a'r sector cyhoeddus, a llawer o'r ymatebion gan y sector amgylcheddol, fod y cynnig i leihau taliadau yn deg ac yn rhesymol. Nododd un sefydliad yn y sector cyhoeddus "mae'r cyfraddau lleihau taliadau yn ymddangos yn glir ac yn bwyllog a byddant yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n pontio, a'r dull cyflawni, i ymaddasu a mynd i'r afael â phroblemau cychwynnol."

**13b) Ydych chi’n cytuno â’r newidiadau rydym yn eu cynnig i’r BPS o 2025? Byddan nhw’n cynnwys: Cau’r Gronfa Genedlaethol i ymgeiswyr newydd.**

**Crynodeb o’r cynigion**

Cronfa ariannol wrth gefn yw’r Gronfa Genedlaethol, a neilltuir yn bennaf i gefnogi newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc nad oes ganddynt hawliau digonol i daliadau o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol. Nod y gronfa hon yw sicrhau bod y grwpiau hyn yn cael mynediad teg i daliadau amaethyddol, sy’n cefnogi’r genhedlaeth nesaf o ffermwyr.

Yn ystod y broses o bontio i’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cynigir y dylid cau’r Gronfa Genedlaethol i newydd-ddyfodiaid, a fydd wedyn yn cael eu cyfeirio at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, lle nad oes unrhyw ofynion i fod â hawliadau.

### Dadansoddiad meintiol

4.165 Fel y dengys Tabl 4.19, roedd 55% o’r ymatebion yn gwrthwynebu’r cynnig i gau’r Gronfa Genedlaethol i newydd-ddyfodiaid.

**Tabl 4.19: Ymatebion i Gwestiwn 13b**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 547 | 18.0% |
| Anghytuno | 1667 | 55.0% |
| Amhendant | 237 | 7.8% |
| Ddim yn gwybod | 127 | 4.2% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i’r cwestiwn | 69 | 2.3% |
| Dim ateb | 578 | 21.0% |
| Cyfanswm | 3228 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

4.166 Nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg yn lefel y gefnogaeth wrth roi ffocws ar grwpiau penodol.

### Dadansoddiad ansoddol

4.167 Roedd llawer o'r ymatebion yn cyfiawnhau eu cefnogaeth i gau'r Gronfa Genedlaethol i newydd-ddyfodiaid ar yr amod bod cynllun newydd yn cael ei gynnig ar gyfer newydd-ddyfodiaid:

> "Cytuno, os bydd newydd-ddyfodiaid yn gallu cael taliadau i'w helpu i ddechrau o dan gynllun arall." [Rhanddeiliad amgylcheddol]

4.168 Awgrymodd llawer o'r ymatebion hefyd, gan fod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei gyflwyno yn lle Cynllun y Taliad Sylfaenol, ei bod yn gwneud synnwyr cau'r Gronfa Genedlaethol i newydd-ddyfodiaid. Nododd rhai o'r ymatebion hyn y dylai newydd-ddyfodiaid ymuno â chynlluniau newydd:

> "Cytuno. Dylai newydd-ddyfodiaid fod yn rhan o'r cynllun newydd, nid yr hen un." [Ffermwr – dim manylion wedi eu nodi]

4.169 Roedd rhai ymatebion yn cefnogi'r cynnig oherwydd y canfyddiad bod y Gronfa Genedlaethol a'r sail dros hawlio taliadau o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol yn ddiffygiol, ac y dylid symud i ffwrdd oddi wrthynt:

> "Mae hyn yn beth da – roedd yn ymddangos yn broses ryfedd a hen ffasiwn iawn." [Ffermwr defaid]

> "Ni ddylai fyth fod wedi bod yn gronfa genedlaethol – mae'n cael ei chamddefnyddio." [Rhanddeiliad amgylcheddol]

4.170 Ymhlith yr ymatebion a oedd yn anghytuno â'r cynnig i gau'r Gronfa Genedlaethol i newydd-ddyfodiaid, roedd y mwyafrif yn canolbwyntio ar yr angen am gymorth i newydd-ddyfodiaid a oedd wedi cael ei ddarparu gan y Gronfa Genedlaethol yn flaenorol:

> "Mae'n anodd i newydd-ddyfodiaid ymuno â'r diwydiant, mae cymorth gan gynlluniau fel Cynllun y Taliad Sylfaenol wedi eu galluogi i wneud hyn." [Ffermwr godro]

> "Na – pa fantais y byddai hyn yn ei hychwanegu pan fo newydd-ddyfodiaid yn brin ac yn wynebu rhai o'r anawsterau mwyaf i ddod yn rhan o'r diwydiant. Dylem fod yn cefnogi newydd-

ddyfodiaid a hyrwyddo ffermio iddynt, byddai'n gamgymeriad mawr hepgor y grŵp hwn yn gyfan gwbl." [Ffermwr cig eidion]

4.171 Mynegodd llawer o'r ymatebion bryder ynglŷn ag atal newydd-ddyfodiaid rhag cael math o gymorth pan fo'r diwydiant yn heneiddio. Nododd yr ymatebion hyn yr angen am newydd-ddyfodiaid a rhai ifanc yn y diwydiant ffermio, ac roeddent yn pryderu y byddai cau'r Gronfa Genedlaethol yn cael effaith niweidiol o ran annog newydd-ddyfodiaid i ymuno â'r sector. Cyfeiriodd y pwyntiau hyn at yr angen am "waed newydd," gyda rhai yn nodi bod newydd-ddyfodiaid yn dod ag egni a syniadau newydd:

> "Cam yn ôl yw hwn. Mae oedran ffermwyr yn mynd yn uwch ac yn uwch a dylai pobl ifanc hyddysg gael eu hannog i ffermio." [Ffermwr cymysg]

## Ymatebion gan sefydliadau

4.172 Fel y dengys Tabl 4.20, roedd 14% o'r ymatebion gan sefydliadau yn cefnogi'r cynnig i gau'r Gronfa Genedlaethol i newydd-ddyfodiaid, ond roedd 29.9% yn ei wrthwynebu ac ni fynegwyd barn gan 44.6%.

**Tabl 4.20: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 13b**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 14.0% |
| Anghytuno | 81 | 29.9% |
| Amhendant | 18 | 6.6% |
| Ddim yn gwybod | 7 | 2.6% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 6 | 2.2% |
| Dim ateb | 121 | 44.6% |
| Cyfanswm | 271 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.173 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 13b yn gyson â'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- cefnogaeth o blaid cau'r Gronfa Genedlaethol mewn llawer o'r ymatebion gan y sector amgylcheddol er mwyn annog newydd-ddyfodiaid i ymuno â'r Cynllun newydd
- gwrthwynebiad i'r cynnig yn y mwyafrif o'r ymatebion gan y sector ffermio a'r sector preifat, a rhai sefydliadau yn y trydydd sector, oherwydd y pryder y gallai fod yn wrthanogaeth i newydd-ddyfodiaid ddod yn rhan o'r sector amaethyddiaeth. Fel y nododd un ymateb gan y gadwyn cyflenwi bwyd a phren: "Na, mae hwn yn gam pwysig iawn i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr."

## 13c) Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r BPS o 2025? Byddan nhw'n cynnwys: Trothwyon ar gyfer capio

### Crynodeb o'r cynigion

Cynigir y byddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cyflwyno capio ar gyfer y Taliad Sylfaenol Cyffredinol neu gategorïau o daliadau. Mae hon yn un o elfennau arfaethedig y Cynllun a byddai ymgynghoriad â grwpiau rhanddeiliaid cyn iddi gael ei chyflwyno.

### Dadansoddiad meintiol

4.174 Fel y dengys Tabl 4.21, roedd 42.4% o'r ymatebion yn gwrthwynebu'r trothwy arfaethedig ar gyfer capio.

**Tabl 4.21: Ymatebion i Gwestiwn 13c**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 842 | 27.8% |
| Anghytuno | 1284 | 42.4% |
| Amhendant | 250 | 8.3% |
| Ddim yn gwybod | 144 | 4.8% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 70 | 2.3% |
| Dim ateb | 635 | 21.2% |
| Cyfanswm | 3228 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.175 Gwelwyd gwahaniaethau amlwg yn lefel y gefnogaeth ymhlith y grwpiau canlynol o gymharu â'r duedd gyffredinol:

- roedd canran ychydig yn uwch o ymatebion cadarnhaol ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd a ffermwyr tenant.

### Dadansoddiad ansoddol

4.176 Roedd llawer o'r ymatebion yn cefnogi'r cynigion ar gyfer capio oherwydd yr angen canfyddedig i roi cymorth mewn ffordd decach, gyda mwy o gymorth i ffermydd bach a ffermydd teuluol.

4.177 Awgrymodd yr ymatebion hyn fod gormod o ffermydd a pherchnogion tir mawr wedi gallu hawlio symiau mawr drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol, gyda'r canfyddiad nad oedd angen y cymorth hwn:

> "Nid wyf yn anghytuno â hyn am nad oes angen y cymorth ar ffermydd mwy o faint fel arfer." [Ffermwr cymysg]

### Ymatebion gan sefydliadau

4.178 Fel y dengys Tabl 4.22, roedd 17.7% o'r ymatebion gan sefydliadau yn cefnogi'r trothwy a gynigiwyd ar gyfer capio ond roedd 22.1% yn ei wrthwynebu ac ni fynegwyd barn gan 47.2%.

**Tabl 4.22: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 13c**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 48 | 17.7% |
| Anghytuno | 60 | 22.1% |
| Amhendant | 21 | 7.7% |
| Ddim yn gwybod | 8 | 2.9% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i'r cwestiwn | 6 | 2.2% |
| Dim ateb | 128 | 47.2% |
| Cyfanswm | 271 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

4.179 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 13c yn gyson â'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y themâu yn cynnwys:

- mynegodd llawer o'r ymatebion gan y sector amgylcheddol a'r sector ffermio gefnogaeth i gapio taliadau er mwyn cefnogi ffermwyr bach. Dywedodd un sefydliad ffermio "Rydym yn

cefnogi trothwyon ar gyfer capio. Fel rydym wedi dadlau o'r dechrau, mae ffermydd bach yn wynebu anfantais fawr iawn, ac mae ailddosbarthu cymorth o ffermydd mawr i ffermydd bach nid yn unig yn decach, ond mae hefyd yn cydnabod y gall ffermydd amrywiol bach sicrhau mwy o fuddiannau fel cyfran"

- roedd llawer o'r ymatebion gan y sector ffermio yn cefnogi'r cap i atal cyllid rhag mynd i berchnogion mawr (gan gynnwys sefydliadau amgylcheddol)
- mynegodd llawer o'r ymatebion gan y sector ffermio y pryder y gall capio taliadau atal twf neu gosbi busnesau mwy o faint, gan ddadlau y bydd yn rhaid i rai ffermydd dyfu o bosibl er mwyn dod yn economaidd hyfyw.
- codwyd awydd i sicrhau chwarae teg â gwledydd cyfagos drwy efelychu rheolau capio yn yr Alban a Lloegr mewn rhai ymatebion gan y sector ffermio, a hynny ar y sail eu bod yn cystadlu yn yr un marchnadoedd.

**13d) Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r BPS o 2025? Byddan nhw'n cynnwys: Gwahardd trosglwyddo a phrydlesu hawliau**

**Crynodeb o'r Cynigion**

Mae'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at yr hawliau y mae ffermwyr yn eu caffael i gael taliadau uniongyrchol. Mae pob hawl yn rhoi'r hawl i'r deiliad gael taliad blynyddol fesul hectar o dir cymwys y mae'n ei ffermio. Gall ffermwyr gaffael yr hawliau hyn drwy ddyraniad cychwynnol, eu prynu, eu prydlesu, neu eu hetifeddu. Unwaith y caiff yr hawliau hyn eu caffael, gellir eu defnyddio i hawlio taliadau o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfyngiad arfaethedig ar drosglwyddo hawliau. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig, unwaith y bydd ffermwyr yn dewis cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, fod yn rhaid iddynt ildio eu hawliau o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol. Ar hyn o bryd, o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol, gall hawliau gael eu prynu, eu gwerthu neu eu prydlesu'n annibynnol ar y tir y maent yn gysylltiedig â nhw. O 2025, bydd trosglwyddo'r hawliau hyn wedi'u cyfyngu i'r achosion hynny lle y caiff hawliau eu trosglwyddo neu eu prydlesu ynghyd â'r tir y maent yn gymwys iddo.

### Dadansoddiad meintiol

4.180 Fel y dengys Tabl 4.23, roedd 49.4% o’r ymatebion yn gwrthwynebu’r cyfyngiad arfaethedig ar drosglwyddo a phrydlesu hawliau.

**Tabl 4.23: Ymatebion i Gwestiwn 13d**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 494 | 19.6% |
| Anghytuno | 1497 | 49.4% |
| Amhendant | 258 | 8.5% |
| Ddim yn gwybod | 147 | 4.9% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i’r cwestiwn | 73 | 2.4% |
| Dim ateb | 655 | 21.6% |
| Cyfanswm | 3228 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

4.181 Gwelwyd gwahaniaethau amlwg yn lefel y gefnogaeth ymhlith y grwpiau canlynol o gymharu â’r duedd gyffredinol:

4.182 Roedd canran ychydig yn uwch o ymatebion ‘Anghytuno’ ymhlith y sector ffermio.

### Dadansoddiad ansoddol

4.183 Awgrymodd llawer o’r ymatebion a oedd o blaid cyfyngu ar drosglwyddo a phrydlesu hawliau y dylid rhoi cymorth i’r rhai sy’n ffermio’r tir yn weithredol:

> “Mae nifer o ffermwyr nad ydynt yn ffermio’n weithredol sy’n cael taliadau o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol a rhent am dir ar hyn o bryd, ni ddylai hyn fod yn bosibl. Ni ddylai’r cyhoedd fod yn talu’r ffermwyr hyn am nad ydynt yn cyfrannu ond yn defnyddio’r system i ychwanegu at eu hincwm – ffermwyr yn ymddeol [sic], gwerthu da byw ac yn rhentu tir.” [Ffermwr cymysg]

> “Cytuno, ni ddylid masnachu mewn hawliau. Os nad ydych yn ffermio, ni chewch yr arian.” [Rhanddeiliad amgylcheddol]

4.184 Roedd rhai ymatebion yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r system hawliau flaenorol, gan gyfeirio ati fel "hen ffasiwn iawn," "agored i gamddefnyddio," ac "amheus."

4.185 Effaith ganfyddedig trosglwyddo hawliau ar newydd-ddyfodiaid oedd y pryder a nodwyd gan lawer o'r rhai a oedd yn teimlo na ddylid cyfyngu ar drosglwyddo hawliau. Roeddent yn dehongli cyfyngiadau fel ffordd o atal newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc o bosibl rhag ymuno â'r diwydiant a chael buddran ynddo:

> "Anghytuno – unwaith eto, bydd yn cael mwy o effaith ar ffermwyr ifanc/newydd-ddyfodiaid – sy'n ceisio cronni mwy o dir i'w ffermio a bydd y ffaith na fyddwn yn gallu caffael mwy o hawliau yn ein rhoi o dan fwy o anfantais." [Ffermwr cig eidion]

4.186 Awgrymodd sawl ymateb y dylid caniatáu trosglwyddo hawliau hyd at flwyddyn olaf Cynllun y Taliad Sylfaenol.

4.187 Codwyd yr angen am hyblygrwydd i ymateb i newidiadau ym mherchnogaeth tir fel mater gan nifer bach o'r rhai a oedd yn gwrthwynebu'r cyfyngiadau, a nododd y gall ffermio fod yn fusnes anwadal. Y gallu i ymateb i newidiadau yn y busnes oedd wrth wraidd y safbwyntiau hyn:

> "Rwy'n meddwl y dylai fod modd i ffermwyr drosglwyddo a phrydlesu hawliau oherwydd gall amgylchiadau newid, yn enwedig o ran olyniaeth mewn busnes." [Ffermwr godro]

> "Mae angen i rai ffermwyr rentu tir, heb y gallu i drosglwyddo na phrydlesu hawliau, mae hyn yn golygu na fydd rhentu tir yn hyfyw mwyach. Bydd hyn yn atal y fferm rhag ehangu a datblygu." [Ffermwr cig eidion]

4.188 Yn olaf, mynegodd nifer bach o'r ymatebion eu dymuniad y dylid caniatáu i ffermwyr gyfnewid hawliau fel y mynnont, ac y dylai fod gan ffermwyr y rhyddid i ddewis.

4.189 Gwnaeth nifer llai o ymatebion a oedd yn gwrthwynebu’r cyfyngiadau nodi nifer o resymau pellach dros gyfiawnhau eu gwrthwynebiad. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol:

- gall cyfyngu ar hawliau achosi problemau o ran trosglwyddo hawliau o fewn teuluoedd
- gall cyfyngu ar hawliau effeithio ar werth tir, gwerth fferm, a morgeisi.

### Ymatebion gan sefydliadau

4.190 Fel y dengys Tabl 4.24, roedd 14.8% o’r ymatebion gan sefydliadau yn cefnogi’r cynnig i gyfyngu ar drosglwyddo a phrydlesu hawliau, ond roedd 27.3% yn gwrthwynebu’r cynnig ac ni fynegwyd barn gan 46.1%.

**Tabl 4.24: Ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 13d**

| Ymateb | Ymatebion | Canran |
|---|---|---|
| Cytuno | 40 | 14.8% |
| Anghytuno | 74 | 27.3% |
| Amhendant | 19 | 7.0% |
| Ddim yn gwybod | 7 | 2.6% |
| Cynnwys ddim yn berthnasol i’r cwestiwn | 6 | 2.2% |
| Dim ateb | 125 | 46.1% |
| Cyfanswm | 271 | 100% |

Dadansoddiad Miller Research o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

4.191 Roedd y themâu a ddaeth i’r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 13d yn gyson â’r safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- cefnogaeth i gyfyngu ar drosglwyddo hawliau mewn llawer o’r ymatebion gan y sector amgylcheddol a’r trydydd sector, am eu bod yn credu y byddai hyn yn sicrhau bod hawliau yn gyson â chyflawni buddiannau amgylcheddol

- mynegodd llawer o’r ymatebion gan y trydydd sector y gred y byddai’r cyfyngiadau arfaethedig yn sicrhau y byddai cymorthdaliadau yn cael eu cyfeirio at "ffermwyr gweithredol” yn hytrach na chael eu masnachu fel nwyddau
- gwrthwynebiad i’r cyfyngiadau gan y mwyafrif o’r ymatebion gan y sector ffermio, y sector preifat a’r gadwyn cyflenwi bwyd a phren, oherwydd pryderon y byddent yn cyfyngu ar hyblygrwydd busnesau ac yn rhwystr i newydd-ddyfodiaid. Nododd un sefydliad ffermio “yn ystod y blynyddoedd pontio bydd yn ffordd o sicrhau bod newid yn ddichonadwy i’r rhai sy’n gadael a’r rhai sy’n aros.”

**Cwestiwn 14: Hoffem wybod eich barn am yr is-ddeddfwriaeth rydym yn cynnig ei chyflwyno, i gefnogi'r BPS ac i gyflwyno cynlluniau cymorth o dan bwerau Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.**

**Crynodeb o'r cynigion**

Nododd dogfen ymgynghori'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fwriad Llywodraeth Cymru i basio is-ddeddfwriaeth i bennu un Rheoliad i gefnogi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a fyddai'n cynnwys yr holl bwerau rheoleiddio fydd eu hangen i gefnogi'r cynllun ac unrhyw gynlluniau cymorth yn y dyfodol. Mae'r Rheoliad yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, a fydd yn rhoi'r sail gyfreithiol i weithredu a gweinyddu cynlluniau cymorth, megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn effeithiol, i fonitro yn erbyn y dibenion y rhoddwyd y cymorth ar eu cyfer, a hefyd i orfodi cydymffurfiaeth, ac ymchwilio i achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth.

## Dadansoddiad ansoddol

4.192 Mewn llawer o'r ymatebion dehonglwyd y cynigion fel rhai a allai gynyddu biwrocratiaeth a mynegwyd y pryder y gall hyn arwain at waith papur ychwanegol a'r canfyddiad y bydd yn creu rhwystrau i ymuno â'r Cynllun.

4.193 Mynegodd llawer o'r ymatebion eu hawydd am brosesau symlach a llai o reoleiddio, gyda'r canfyddiad y byddai unrhyw waith gweinyddol ychwanegol yn effeithio'n anghymesur ar ffermydd bach.

4.194 Nododd llawer o'r ymatebion fod angen gwybodaeth gliriach a manylach am yr hyn yr oedd llawer yn rhagweld y byddai'n Gynllun "cymhleth". Nododd llawer o'r ymatebion nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth am bwnc y cwestiwn hwn i roi ateb ystyriol.

4.195 Roedd rhai ymatebion yn pryderu nad oeddent yn deall y broses gyfreithiol a deddfwriaethol o greu is-ddeddfwriaeth, a'r goblygiadau posibl i'r sector, er mwyn ateb y cwestiwn hwn yn effeithiol.

4.196 Yn olaf, nododd rhai ymatebion fod diffyg cyswllt canfyddedig rhwng Llywodraeth Cymru a phoblogaeth ffermio cefn gwlad, mewn

perthynas â deddfwriaeth. Roedd canfyddiad nad yw deddfwriaeth yn ystyried yr hyn sydd orau i ffermio ac nad yw'n berthnasol.

### Ymatebion gan sefydliadau

4.197 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 14 yn gyson ar y cyfan â'r ymatebion gan unigolion. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- mynegwyd diffyg sicrwydd a'r canfyddiad bod diffyg gwybodaeth i wneud sylwadau gan bob sector.
- mynegwyd yr awydd bod is-ddeddfwriaeth yn syml ac yn gymesur â'r materion dan sylw gan rai ymatebion gan y sector ffermio. Nododd un sefydliad ffermio eu bod yn cefnogi "y cysyniad o reoleiddio symlach sy'n ei gwneud yn haws i ffermwyr a rheolwyr tir ddeall a chydymffurfio ac sy'n golygu prosesau gweinyddu, monitro ac adrodd effeithlon sy'n creu cyn lleied o waith â phosibl."



MILLER
Research Evaluation Consulting

**Cwestiwn 15: Daw'r gwaith dadansoddi a modelu economaidd i ben yn 2024 gan roi'r dystiolaeth i helpu Gweinidogion Cymru i benderfynu'n derfynol ar sut i roi'r Cynllun ar waith. Hoffem wybod eich barn am y dadansoddiad presennol a'r dystiolaeth sydd ei hangen.**

## Dadansoddiad ansoddol

### Colli swyddi yn y sector amaethyddol

4.198 Nododd y mwyafrif o'r ymatebion fod y gwaith modelu a'r dystiolaeth a gyflwynir ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar hyn o bryd yn achos pryder i'r rhai sy'n gweithio yn yr economi wledig. Cyflwynodd y dadansoddiad economaidd ffigurau ynglŷn â newidiadau posibl i'r gofynion o ran llafur ar ffermydd o ganlyniad i'r Gweithredoedd Cyffredinol, a oedd wedi cael ei ddehongli fel amcanestyniad y byddai 5,500 o swyddi yn cael eu colli. Mynegodd llawer o'r ymatebion hyn bryder ynglŷn â faint o swyddi a allai gael eu colli o bosibl, gan ofyn pa fesurau lliniaru a oedd wedi cael eu rhoi ar waith, a sut roedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cael ei addasu yn unol â'r wybodaeth hon.

### Effaith ar gymunedau gwledig

4.199 Roedd llawer o'r ymatebion yn pryderu ynglŷn ag effaith y lleihad posibl yn nifer y gweithwyr gwledig ar gymunedau gwledig, a nododd ychydig bwysau eraill megis poblogaeth o bobl ifanc sy'n lleihau a phryderon ynglŷn ag iechyd meddwl ymhlith ffermwyr.

### Cywirdeb y gwaith modelu

4.200 Roedd llawer o'r ymatebion yn bwrw amheuaeth ar y fethodoleg a chywirdeb y gwaith modelu, gan fynegi pryder ynglŷn â thryloywder neu ddibynadwyedd yr wybodaeth a oedd wedi cael ei darparu. Roedd y rhain yn cynnwys, yn eu trefn yn ôl pa mor aml y'u codwyd:

- pryderon bod y ffigurau wedi cael eu hystumio
- y gred bod y dystiolaeth yn ddiffygiol

- diffyg dibynadwyedd y gwaith modelu economaidd
- yr amheuaeth o waith modelu â thuedd y teimlwyd ei fod wedi cael ei deilwra at y cynigion

4.201 Hefyd, roedd rhai yn teimlo nad oedd y gwaith modelu wedi cofnodi cymhlethdodau a chwmpas yr effeithiau posibl yn llawn. Roedd yr elfennau nad oeddent wedi cael eu cofnodi'n ddigonol, yn nhyb yr ymatebion, (yn eu trefn yn ôl pa mor aml y'u codwyd) yn cynnwys:

- yr effaith ar ddiwydiannau ategol ac economi ehangach cefn gwlad
- materion canfyddedig na ellir eu mesur megis gwydnwch a llesiant cymunedau, a'r gymuned wledig ehangach
- effeithiau / graddfa fyd-eang posibl
- yr amrywiadau mewn effeithiau ymhlith modelau busnes a mathau o fferm
- anwadalrwydd costau
- gwerth bioamrywiaeth.

4.202 Awgrymodd llawer o'r ymatebion ddulliau modelu amgen, yr oedd y mwyafrif o'r rhain am weld gwaith modelu a oedd wedi'i adlewyrchu gan y ffigurau mwyaf perthnasol a chyfredol.

### Ymatebion gan sefydliadau

4.203 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 15 yn gyson â'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- mynegodd y mwyafrif o'r ymatebion gan y sector ffermio a'r gadwyn cyflenwi bwyd a phren, yn ogystal â rhai sefydliadau amgylcheddol, bryderon ynglŷn â'r dadansoddiad economaidd, oherwydd y canfyddiad y byddai'r Cynllun yn arwain at golli 5,500 o swyddi yn y sector. Nododd sefydliad amgylcheddol:



MILLER
Research Evaluation Consulting

“Mae angen mynd i’r afael â gwaith modelu Llywodraeth Cymru ar y lleihad yn nifer y swyddi ffermio a amcanestynnwyd a chynnal asesiad mwy trylwyr o’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a’i effaith ar ffermio. Mae angen gwaith dadansoddi pellach ar effaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar yr economi wledig ehangach. Byddai hyn yn cynnwys asesu’r cynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth o ran arallgyfeirio gweithgareddau ffermio at reoli coetir, twristiaeth sy’n seiliedig ar fyd natur oherwydd adferiad natur ac ehangu garddwriaethol”

- cafodd cynigion i gynnwys arbedion cost posibl o weithredoedd amgylcheddol megis lliniaru llifogydd, storio carbon a gwelliannau i ansawdd dŵr eu cyflwyno mewn llawer o’r ymatebion gan y sector amgylcheddol a’r trydydd sector, a oedd yn teimlo y byddai hyn yn cynrychioli effeithiau ehangach y Cynllun yn well.

**Cwestiwn 16: Hoffem wybod eich barn ynghylch pa wybodaeth a thystiolaeth y dylid eu defnyddio i fonitro a gwerthuso'r Cynllun.**

## Dadansoddiad ansoddol

4.204 Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar y gofynion i fonitro'n barhaus a gwerthuso'r cynllun, gydag awgrymiadau ynglŷn â chasglu data ar gyfer dangosyddion sy'n mesur effeithiau amgylcheddol, economaidd, a chymdeithasol y Cynllun.

Monitro'n barhaus

4.205 Cafwyd gwahaniaeth barn yn yr ymatebion o ran y ffordd ddelfrydol o fonitro'n barhaus, gyda rhai ymatebion yn ffafrio hunanasesu gan ffermwyr ac ymatebion eraill yn gwrthwynebu hunanasesu. Roedd llawer o'r ymatebion a oedd yn ffafrio hunanasesu yn ei gefnogi oherwydd pryderon ynglŷn â'r effaith y gall arolygiadau ei chael ar lesiant ffermwyr. Awgrymodd rhai ymatebion y byddai hunanasesu yn ffordd fwy costeffeithiol o fonitro. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebion yn gwrthwynebu hunanasesu, ac yn ffafrio archwiliadau gan bersonél hyfforddedig, gan gynnwys datganiadau milfeddygol, yn lle hynny. Awgrymodd ychydig o'r ymatebion y gallai archwiliadau gael eu cynnal gan staff Llywodraeth Cymru drwy arolygiadau ac ymweliadau safle dirybudd. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebion y dylid lleihau prosesau gweinyddol, gan nodi'r awydd i symleiddio'r broses fonitro i ffermwyr.

4.206 Codwyd hunanasesu mewn ychydig o'r ymatebion lle y mynegwyd safbwyntiau gwahanol ynglŷn â geotagio. Dywedodd llawer o'r ymatebion hynny nad oedd geotagio yn hygyrch, ond awgrymodd rhai y byddai'n helpu i symleiddio gwaith monitro a'r "baich gweinyddol" ar ffermwyr. Er i rai ymatebion awgrymu y dylid defnyddio data sy'n bodoli eisoes mewn gwaith monitro, roedd nifer bach hefyd yn teimlo, pe bai angen data ychwanegol, y gellid rhoi cymhelliant ariannol i ffermwyr lanlwytho gwybodaeth a thystiolaeth ffotograffig.

4.207 Awgrymodd rhai ymatebion y bydd y Cynllun yn gofyn am gorff llywodraethu i'w fonitro. Ymhlith yr ymatebion hyn roedd awgrymiadau ar gyfer gwaith llywio parhaus ac adborth gan undebau ffermio a ffermwyr. Awgrymodd llawer o'r ymatebion y dylai unrhyw fframwaith monitro parhaus gael ei ategu drwy gynnwys rhanddeiliaid amrywiol. Roedd rhai ymatebion yn annog y dylai cynigion monitro fod yn ymarferol a chael eu teilwra, gan nodi bod gan bob fferm briodweddau gwahanol y mae angen eu cydnabod.

Dangosyddion amgylcheddol

4.208 Awgrymodd rhai ymatebion y dystiolaeth y byddai ei hangen o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i ddangos cynnydd o ran gwella bioamrywiaeth a sefydlu cynefinoedd i asesu llwyddiant y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys (wedi'u rhestru yn eu trefn yn ôl pa mor aml y'u codwyd):

- ansawdd dŵr
- ansawdd aer
- iechyd priddoedd
- y defnydd o wrteithiau a chemegion
- niferoedd cynyddol o rywogaethau sy'n bodoli eisoes
- yr effaith ar y boblogaeth o foch daear a TB
- rhywogaethau a ailgyflwynwyd

4.209 Gwnaeth llawer o'r ymatebion drafod cyfrifo carbon, gyda barn gymysg ar ei effeithiolrwydd o ran monitro effeithiau'r Cynllun.

Dangosyddion economaidd

4.210 Awgrymodd llawer o'r ymatebion, oherwydd pryderon ynglŷn ag effaith y Cynllun ar hyfywedd ffermydd, y dylai'r gweithgareddau monitro parhaus gynnwys dangosyddion economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys, wedi'u rhestru yn eu trefn yn ôl pa mor aml y'u codwyd:

- data ar feintiau cynhyrchu bwyd

- data ar fewnforio bwyd
- prisiau bwyd
- proffidioldeb busnesau fferm
- allbwn amaethyddol Cymru
- gwariant gan ffermwr yn yr economi wledig
- ystadegau cyflogaeth
- asesiadau o gynaliadwyedd economaidd
- niferoedd da byw

Dangosyddion cymdeithasol

4.211 Mynegodd rhai ymatebion bryderon ynglŷn ag effaith bosibl y Cynllun ar lesiant ffermwyr a chymunedau ffermio. Awgrymodd yr ymatebion hyn y dylai gwaith monitro'r Cynllun gynnwys dangosyddion cymdeithasol ac iechyd, gan gynnwys, yn eu trefn yn ôl pa mor aml y'u codwyd:

- llesiant ac iechyd meddwl ffermwyr
- oedran cyfartalog ffermwyr (o ran deall llwyddiant y cymorth i ffermwyr ifanc/newydd-ddyfodiaid)
- yr effaith ehangach ar y Gymraeg
- cydlyniant cymunedol a gwarchod diwylliant
- tlodi ac amddifadedd.

Gwerthusiad cyffredinol

4.212 Er mwyn i'r Cynllun gael ei werthuso'n effeithiol, awgrymodd llawer o'r ymatebion asesiad llinell sylfaen o'r dirwedd ffermio bresennol mewn perthynas â darparu bwyd, rheoli tir, a chynefinoedd sy'n bodoli eisoes. Awgrymwyd y byddai hyn yn fodd i'r gwerthusiad ddangos effaith y Cynllun yn glir.

4.213 Argymhellodd llawer o'r ymatebion hefyd y dylid defnyddio dulliau gwerthuso cadarn a sefydledig, gan gynnwys asesiad Gwerth am

Arian, asesu gwrthffeithiol, Asesiad o’r Effaith Economaidd, Asesiad o’r Effaith Wledig, a thargedau CAMPUS.

4.214 At hynny, awgrymodd rhai ymatebion y dylai’r gwerthusiad ganolbwyntio ar olrhain newidiadau amgylcheddol er mwyn cofnodi a yw’r Cynllun yn sicrhau bioamrywiaeth, a gallu ffermwyr i barhau i dyfu bwyd lleol. Nododd rhai ymatebion y dylai gwerthusiad o’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ystyried y diwydiant ehangach ac iechyd cymunedau gwledig, gan fonitro newidiadau yn niferoedd a maint ffermydd, diboblogi yng nghefn gwlad, a’r effeithiau ar wasanaethau cymunedol eraill sydd â chysylltiadau â’r sector amaethyddol.

### Ymatebion gan sefydliadau

4.215 Roedd y themâu a ddaeth i’r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 16 yn gyson ar y cyfan â’r ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- argymhellion i gynnwys arolygon ecolegol gan lawer o’r sefydliadau amgylcheddol, er mwyn creu sylfaen dystiolaeth y gellir ei defnyddio i werthuso effeithiolrwydd y Cynllun. Argymhellwyd hyn er mwyn mynd i’r afael â’r awgrym nad oedd y mapiau na’r data presennol ar gynefinoedd yn gyfredol mwyach, awgrym a gefnogwyd mewn rhai ymatebion gan y sector ffermio.
- gwnaeth llawer o’r sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector amgylcheddol a’r trydydd sector alw am broses gadarn a gwyddonol o fonitro a gwerthuso’r Cynllun. Nododd un sefydliad amgylcheddol “mae fframwaith yr Asesiad Effaith Integredig yn rhoi cefndir cynhwysfawr i fethodolegau monitro a gwerthuso penodol a fyddai’n cynnig tystiolaeth ddefnyddiol”
- mynegodd llawer o’r sefydliadau yn y sector ffermio a’r gadwyn cyflenwi bwyd a phren bryderon ynglŷn â phreifatrwydd data, a’r

angen am deilwra dulliau gweithredu yn dibynnu ar y math o fferm a’r weithred dan sylw.

**Cwestiwn 17 (i): Yn eich barn chi, beth bydd effeithiau tebygol yr SFS ar y Gymraeg?Mae gennym ddiddordeb arbennig yn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

### Dadansoddiad Ansoddol

4.216 Awgrymodd y mwyafrif o'r ymatebion y byddai'r Cynllun yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg. Nododd llawer o'r ymatebion y gallai'r Cynllun achosi dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Gwnaeth rhai ymatebion gysylltu hyn â'r berthynas agos rhwng ffermio a'r Gymraeg:

> "Mae'r Gymraeg yn ffynnu mewn cymunedau ffermio a hynny'n syml am ein bod yn ei siarad yn naturiol. Os gadewir i ffermio ddirywio nid yn unig bydd y sgiliau traddodiadol ond hefyd hen dermau a geiriau, cymunedau a diwylliant unigryw yn diflannu." [Ffermwr defaid]

4.217 Cyswllt arall a fynegwyd mewn ychydig o'r ymatebion oedd effaith bosibl y Cynllun ar bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig a'r pryder y gall hyn gael effaith ganlyniadol ar ddyfodol y Gymraeg. Roedd cysylltiad agos iawn rhwng hyn ac effaith economaidd bosibl y Cynllun, gydag ychydig o'r ymatebion yn mynegi pryder mwy cyffredinol ynglŷn â dyfodol cymunedau gwledig a'r Gymraeg:

> "Ni fydd yr iaith byth yn adfer o'r Cynllun hwn am ei fod yn effeithio ar y boblogaeth yng nghefn gwlad Cymru lle siaredir Cymraeg." [Ffermwr defaid]

4.218 Ychydig iawn o'r ymatebion a oedd yn teimlo na fyddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael unrhyw effaith ar yr iaith, ac ni roddodd yr ymatebion hyn unrhyw gyfiawnhad dros y safbwynt hwn.

### Ymatebion gan sefydliadau

4.219 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 17(i) yn gyson â'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion. Roedd hyn yn cynnwys y farn y bydd y Cynllun yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg, a fynegwyd mewn llawer o'r ymatebion gan y sector ffermio oherwydd y canfyddiad bod ffermio ar raddfa fach a chymunedau amaethyddol yn ganolfannau'r Gymraeg y gallai'r Cynllun effeithio'n negyddol arnynt. Nododd un ymateb gan y trydydd sector: "O ystyried y cysylltiad cadarn iawn rhwng ffermio a'r Gymraeg mewn rhai rhannau o'r wlad, gallai unrhyw leihad yn nifer y bobl sy'n gweithio yn y sector amaethyddol gael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg a gwasanaethau gwledig cysylltiedig".

**Cwestiwn 17 (ii): Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo effeithiau positif? Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i leihau effeithiau drwg?**

### Dadansoddiad ansoddol

4.220 Nid atebodd y mwyafrif o'r ymatebion y cwestiwn hwn ar ôl ymdrin â'r mater yn y cwestiwn blaenorol. O blith y rhai a roddodd ateb, pwysleisiodd y mwyafrif o'r ymatebion fod angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei gyflwyno'n ddwyieithog.

### Ymatebion gan sefydliadau

4.221 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau yn gyson â'r ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- yr angen am i'r Cynllun gael ei gyflwyno'n ddwyieithog, a fynegwyd mewn llawer o ymatebion gan bob sector. Dywedodd un ymateb gan sefydliad yn y trydydd sector: "Mae'n hollbwysig bod gwasanaethau cynghori a chanllawiau ar gael yn Gymraeg. Mae angen y Gymraeg yn enwedig wrth gysylltu wyneb yn wyneb, ac ni ddylid gadael i'r ddibyniaeth gynyddol ar wybodaeth a chyfathrebu ar-lein wanhau'r defnydd o'r Gymraeg".
- awgrymodd rhai ymatebion gan y sector amgylcheddol fod cyfle i hyrwyddo'r cysylltiad traddodiadol rhwng y Gymraeg a byd natur. Dadleuodd un ymateb: "gallem weld y Gymraeg yn ehangu y tu hwnt i'r sector ffermio lle mae wedi'i hymylu ar hyn o bryd, ac apelio i ddysgwyr newydd o bob cefndir."

**Cwestiwn 18: Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid yr SFS er mwyn• cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio’r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; neu • lleihau effeithiau negyddol ar ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?**

### Dadansoddiad ansoddol

4.222 Y pwynt mwyaf cyffredin a godwyd mewn llawer o’r ymatebion oedd argymhelliad bod yr holl gymorth a gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog. Er i’r rhan fwyaf o’r rhain nodi’r egwyddor yn haniaethol bod y ddwy iaith ar gael, nododd rhai y dylai “adnoddau,” “gwybodaeth,” a “deunydd cyfathrebu” fod yn Gymraeg ac yn Saesneg.

4.223 Roedd llawer o’r ymatebion yn canolbwyntio ar yr angen i newid y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig i gefnogi ffermwyr yn well ac felly osgoi effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Cyfeiriodd y mwyafrif o’r pwyntiau hyn yn benodol at yr angen i gynnal economïau gwledig a busnesau fferm, a nododd yr ymatebion eu cred na allai’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wneud hyn:

> “Mae’n syml – lluniwch Gynllun Ffermio Cynaliadwy sy’n ei gwneud yn bosibl i fusnesau fferm ac, yn eu tro, gymunedau gwledig oroesi a ffynnu, ac felly’r Gymraeg hefyd!” [Unigolyn yn y gadwyn cyflenwi bwyd a phren]

### Ymatebion gan sefydliadau

4.224 Roedd y themâu a ddaeth i’r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 18 yn gyson â’r ymatebion gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Awgrymwyd diwygiadau, megis dileu’r gofyniad ynglŷn â choetir, mewn llawer o’r ymatebion gan y sector ffermio, a oedd yn

teimlo y byddai hyn yn cefnogi ffermwyr ar raddfa fach sydd yn aml yn siaradwyr Cymraeg.

**Cwestiwn 19: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am unrhyw agwedd ar y ddogfen ymgynghori?**

### Dadansoddiad ansoddol

4.225 Roedd llawer o’r ymatebion i’r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar themâu sydd wedi cael eu codi drwy’r ymgynghoriad cyfan. Mae’r rhain yn cynnwys:

- cymhlethdod y Cynllun a’r angen am eglurder a chanllawiau
- galwadau am ffocws ar ddiogeledd bwyd a chynhyrchu bwyd
- y Cynllun fel bygythiad canfyddedig i fywyd cefn gwlad
- gwrthwynebiad i’r gofynion ynglŷn â choetir a chynefin
- yr angen i ddarparu ar gyfer amrywiaeth ffermydd

4.226 Yr unig thema a godwyd yn y cwestiwn hwn nad oedd wedi cael ei thrafod yn helaeth mewn mannau eraill oedd pryderon ynglŷn â’r broses ymgynghori ei hun. Awgrymodd llawer o’r ymatebion nad oedd y broses ymgynghori na’r ddogfen ymgynghori yn hawdd eu deall, a oedd yn ei gwneud yn anodd i’w cwblhau. Mynegodd rhai ymatebion gefnogaeth o blaid ymgysylltu’n uniongyrchol â ffermwyr drwy eu hundebau er mwyn datblygu cynllun “mwy addas”

### Ymatebion gan sefydliadau

4.227 Roedd y themâu a ddaeth i’r golwg yn yr ymatebion gan sefydliadau i Gwestiwn 19 yn gyson ar y cyfan â’r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn yr ymatebion gan unigolion a thrwy gydol yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- awgrymodd rhai ymatebion gan y sector amgylcheddol a’r sector coedwigaeth fod angen gwella’r ffordd roedd y gofynion ynglŷn â choetir a chynefin yn cael eu cyfleu, gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol. Awgrymwyd nad oedd ffermwyr yn ymwybodol o’r manteision a’r cyfleoedd y byddai’r cynigion hyn yn eu cynnig.

- pryder ynglŷn â diffyg ffocws canfyddedig ar reoli tir SoDdGAau gan rai sefydliadau yn y sector amgylcheddol, a oedd yn teimlo bod angen cymorth ar berchnogion/meddianwyr SoDdGAau a phorwyr tir comin.
- pwysleisiwyd y dylid blaenoriaethu cydweithio'n gyffredinol, ynghyd â'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol, mewn llawer o'r ymatebion gan y sector amgylcheddol, y trydydd sector a'r sector ffermio, a awgrymodd ei bod yn hanfodol bod y rhannau hyn o'r Cynllun yn cael eu cyflwyno er mwyn cefnogi'r sector a'r broses o sicrhau buddiannau amgylcheddol.

## 5. Ymatebion ansafonol

### Unigolion

5.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r dadansoddiad o'r 463 o ymatebion lled-strwythuredig neu heb strwythur a gyflwynwyd gan unigolion nad oeddent wedi dilyn fformat holiadur yr ymgynghoriad. Mae'r themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion hyn yn gyson ar y cyfan â'r rhai a gyflwynwyd yn y crynodeb o'r ymatebion safonol. Roedd y themâu mwyaf amlwg fel a ganlyn:

- nododd llawer o'r ymatebion gynnydd canfyddedig mewn biwrocratiaeth yn y Cynllun yn gyffredinol, yn ogystal â dyblygu gwaith gweinyddol rhwng y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chynlluniau achredu sy'n bodoli eisoes.
- roedd llawer o'r ymatebion yn pryderu am y posibilrwydd y byddai'r Gweithredoedd Cyffredinol yn cael effaith anghymesur ar fathau penodol o ffermydd, yn enwedig ffermydd godro bach a ffermydd organig, a ffermydd bach yn gyffredinol.
- mynegodd llawer o'r ymatebion wrthwynebiad i'r gofynion ynglŷn â choetir a chynefin am eu bod yn cael eu hystyried yn rhwystr i ymuno â'r Cynllun. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebion yn cefnogi'r gofynion hyn oherwydd y manteision canfyddedig o ran bioamrywiaeth a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- yn ogystal â chefnogi'r gofynion ynglŷn â choetir a chynefin, roedd rhai ymatebion yn cefnogi cynigion y Cynllun, am eu bod yn credu y byddai'n helpu ffermwyr i wella cynaliadwyedd y sector amaethyddiaeth.
- mynegodd llawer o'r ymatebion bryderon ynglŷn â'r cyfraddau talu a diffyg manylion canfyddedig yn yr ymgynghoriad. Awgrymodd rhai ymatebion hefyd fod diffyg tryloywder ynglŷn â chyfrifiadau cyfraddau talu. Nododd un ymateb: "Dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cyhoeddi'r cyfraddau talu yn gynt fel y gall busnesau baratoi'n briodol"

- awgrymodd llawer o'r ymatebion fod diffyg cyswllt rhwng polisi Llywodraeth Cymru a realiti ffermio. Roedd rhai ymatebion yn pryderu bod polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynigion y Cynllun, yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl ffermwyr. Gwnaeth un ymateb grynhoi'r diffyg cyswllt hwn, gan nodi: "Mae'r adnabyddiaeth o dir, amaethyddiaeth a byd natur Cymru o genhedlaeth i genhedlaeth wedi cael ei hanwybyddu yn yr ymgynghoriad hwn. Dylai ffermwyr a'u harbenigedd fod wedi bod yn ganolog i gynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn sicrhau ei lwyddiannau i'r cymunedau gwledig, diogeledd bwyd a'r amgylchedd."

**Sefydliadau**

5.2 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r dadansoddiad o'r 104 o ymatebion lled-strwythuredig neu heb strwythur a gyflwynwyd gan sefydliadau nad oeddent wedi dilyn fformat holiadur yr ymgynghoriad. Mae'r themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ymatebion hyn yn gyson ar y cyfan â'r rhai a gyflwynwyd yn y crynodeb o'r ymatebion safonol. Roedd y themâu hyn, a'r sectorau sy'n gysylltiedig â nhw, fel a ganlyn:

- mynegwyd cefnogaeth i nodau'r Cynllun a'r ymrwymiadau i gynaliadwyedd mewn llawer o'r ymatebion gan y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector dŵr, y trydydd sector a'r sector amgylcheddol. Roedd un sefydliad yn y sector amgylcheddol yn croesawu "y cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'i ddefnydd o arian cyhoeddus i helpu ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy a mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd"
- mynegwyd pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd y byddai'r Cynllun yn gosod beichiau gweinyddol ychwanegol ar ffermwyr gan y mwyafrif o sefydliadau yn y sector ffermio, ac mewn llawer o'r ymatebion gan y sector milfeddygol hefyd. Nododd undebau amaethwyr a chynrychiolwyr milfeddygol bryderon ynglŷn â

phrosesau adrodd cynyddol a dyblyg, a nododd un sefydliad yn y sector milfeddygol: “Rydym yn pryderu y bydd y disgwyliad ar ffermwyr da byw i gwblhau, dogfennu a dangos tystiolaeth o’r Gweithredoedd Cyffredinol yn gyffredinol yn golygu y byddant yn colli ffocws ar yr adrannau iechyd a lles hanfodol, a fydd yn cymryd mwy o amser ac ymdrech nag y mae’r cynigion yn ei awgrymu. Gallai hyn arwain at ganlyniadau lles gwael i anifeiliaid a ffermir a bywyd gwyllt”

- nodwyd pryderon ynglŷn ag effaith economaidd bosibl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar ffermydd a hyfywedd ffermydd yn y mwyafrif o’r ymatebion gan y sector ffermio, y sector preifat a’r gadwyn cyflenwi bwyd a phren, a hefyd mewn llawer o’r ymatebion gan y sector cyhoeddus a’r trydydd sector, a oedd yn codi gwaith modelu economaidd a’r gofynion ynglŷn â choetir a chynefin yn aml.
- codwyd pwysigrwydd sicrhau cymorth ariannol digonol i ddiogelu hyfywedd ffermydd, lleihau pryder a digolledu ffermwyr yn ddigonol am gwblhau’r Gweithredoedd Cyffredinol mewn llawer o’r ymatebion gan y sector ffermio, y sector dŵr a’r sector amgylcheddol.
- pwysleiswyd yr angen i ennyn cefnogaeth ffermwyr mewn llawer o’r ymatebion gan y sector cyhoeddus, y trydydd sector a’r sector amgylcheddol, a oedd yn awgrymu bod cyfathrebu â ffermwyr yn hollbwysig ac y gellid ei wella. Nododd un sefydliad yn y sector amgylcheddol “Mae’n achos pryder mawr bod llai na blwyddyn i fynd cyn lansio’r Cynllun ac nad yw’r cyfraddau talu ar gael. Rydym am weld y Cynllun hwn yn llwyddo, ond ni all ffermwyr gynllunio er mwyn cymryd rhan os nad ydynt yn gwybod beth fydd eu hincwm o dan y Cynllun. Nid yw’r cyfraddau diweddar o dan Gynllun Cynefinoedd Cymru wedi rhoi hyder i ffermwyr y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn economaidd hyfyw iddynt, ac mae hyn yn ffactor allweddol sy’n eu gwneud yn amharod i dderbyn gofynion y Cynllun”

- nodwyd siom ynglŷn â rôl fach cynhyrchu bwyd, yn ôl y canfyddiad, yn y Cynllun yn ogystal â phryderon ynglŷn â goblygiadau negyddol y Cynllun i ddyfodol cynhyrchu bwyd yng Nghymru yn y mwyafrif o’r ymatebion gan y sector ffermio a’r gadwyn cyflenwi bwyd a phren. Nododd sefydliad yn y sector ffermio “Mae hefyd yn amlwg bod cynhyrchwyr bwyd domestig sy’n defnyddio adnoddau’n effeithlon ac sy’n gadarn yn chwarae rhan bwysig o ran cyfyngu ar ein hôl troed ecolegol byd-eang a dadleoli effeithiau amgylcheddol a gollwng carbon cyflenwi bwyd dramor, lle mae safonau amgylcheddol, safonau iechyd a lles anifeiliaid a safonau cymdeithasol fel cyflogau ac amodau gweithwyr yn aml yn is ”
- mynegwyd cefnogaeth i’r gofynion ynglŷn â choetir a chynefin mewn llawer o’r ymatebion gan y sector cyhoeddus, y trydydd sector a’r sector amgylcheddol. Awgrymodd un ymateb gan y sector cyhoeddus y byddai’r cynnydd arfaethedig yn lefelau presennol coetir a chynefin yn gofyn am newid defnydd 3% o dir, ac roedd un arall yn ei wrthwynebu oherwydd ei ddehongliad y byddai’r gofynion yn arwain at newid defnydd 20% o dir.
- mynegwyd gwrthwynebiad i’r gofynion ynglŷn â choetir a chynefin mewn llawer o’r ymatebion gan y sector preifat, y gadwyn cyflenwi bwyd a phren a’r sector ffermio, oherwydd eu dehongliad y byddai’r gofynion yn arwain at newid defnydd 20% o dir.
- mynegwyd siom ynglŷn â’r oedi cyn lansio haenau Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun mewn ymatebion gan y sector amgylcheddol a’r sector dŵr oherwydd pwysigrwydd canfyddedig yr haenau hyn i warchod a gwella’r amgylchedd.
- mynegwyd cefnogaeth i’r cynigion ynglŷn ag iechyd a lles anifeiliaid yn y mwyafrif o’r ymatebion gan y sector milfeddygol, y trydydd sector a’r sector ffermio. Serch hynny, mynegodd llawer o’r ymatebion hyn bryderon ynglŷn ag effaith

Gweithredoedd Cyffredinol eraill megis cynnwys pyllau dŵr parhaol a thymhorol yn ogystal â’r canfyddiad nad oedd y cynigion ynglŷn ag iechyd a lles anifeiliaid wedi cael digon o sylw yn y Cynllun ar y cyfan.

- rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd gwella hawliau tramwy cyhoeddus mewn llawer o’r ymatebion gan y trydydd sector ond mynegodd llawer o sefydliadau yn y sector ffermio bryder ynglŷn â goblygiadau hawliau tramwy cyhoeddus i fioddiogelwch.
- nododd y mwyafrif o’r ymatebion gan y sector amgylcheddol bwysigrwydd sicrhau bod modd ymgorffori amrywiaeth eang o dirweddau yn y Cynllun, yn ogystal â rhybuddion ynglŷn ag effeithiau negyddol posibl o ganlyniad i reoli cynefinoedd a phlannu coed yn amhriodol.

# 6. Ymgyrchoedd

6.1 Mae’r adran hon yn rhoi dadansoddiad thematig o’r saith ymgyrch a gyflwynwyd i’r ymgynghoriad.

**Campaign for National Parks**

6.2 Hwylusodd y Campaign for National Parks ymgyrch i ymateb i’r ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn ei gwneud yn bosibl i unigolion roi eu hadborth arno.

### Ystadegau’r ymgyrch

6.3 Cafodd ymgyrch Campaign for National Parks 96 o ymatebion i gyd, a chyflwynwyd 2 yn Gymraeg.

### Themâu’r ymgyrch

6.4 Atebwyd tri o gwestiynau’r ymgynghoriad fel rhan o ymateb yr ymgyrch (Cwestiynau 1, 2 a 12).

6.5 Wrth ateb Cwestiwn 1, argymhellodd ymateb yr ymgyrch y dylid cynnwys rhaglen ‘Ffermio Cynaliadwy mewn Tirweddau Dynodedig’ ar y cyd ag adnoddau priodol er mwyn helpu i gyflawni’r targed o warchod 30% o’r tir at ddibenion natur erbyn 2030.

6.6 Mewn ymateb i Gwestiwn 2, roedd ymatebion yr ymgyrch yn cefnogi gofynion y Cynllun mewn egwyddor ond awgrymwyd y dylid cynnwys waliau sychion a gwrychoedd yn y trothwy ar gyfer 10% o gynefin bywyd gwyllt.

6.7 Mewn ymateb i Gwestiwn 12, esboniodd ymateb yr ymgyrch ei bod yn anodd blaenoriaethu unrhyw Weithredoedd Opsiynau neu Gydweithredol posibl, gan honni y gallent oll wneud gwelliannau sylweddol i’r dirwedd pe baent yn cael eu cymhwyso yn y man cywir.

### Cyfraniadau unigolion

6.8 Rhoddwyd cyfle i unigolion a oedd yn ymateb drwy’r ymgyrch ychwanegu eu cyfraniad eu hunain at destun yr ymgyrch. Mynegodd yr ymatebion hyn gefnogaeth i annog ffermwyr i gymryd camau cadarnhaol i fynd i’r afael â’r “argyfwng hinsawdd a natur.”

**Undeb Amaethwyr Cymru**

6.9 Trefnodd Undeb Amaethwyr Cymru ymgyrch ffurfiol i ymateb i’r ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn rhoi cyfle i gefnogwyr nodi eu barn arno.

### Ystadegau’r ymgyrch

6.10 Cafodd yr ymgyrch 924 o ymatebion i gyd, 84% yn Saesneg a 16% yn Gymraeg.

### Themâu’r ymgyrch

Cyllido

6.11 Nododd yr ymgyrch, ar ôl i’r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, fod amaethyddiaeth Cymru bellach yn dibynnu ar gronfeydd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Nododd yr ymgyrch fod hyn wedi golygu bod tua £250 miliwn yn llai o gyllid ar gael rhwng 2019 a 2025.

Taliadau

6.12 Nododd yr ymgyrch ei bod yn hollbwysig sicrhau bod y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn cynnig sefydlogrwydd ac incwm ystyrlon, ac yn cydnabod cyfraniadau amgylcheddol a chymdeithasol ffermio ar yr un pryd.

Cynhyrchu Bwyd

6.13 Nododd yr ymgyrch fod angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy roi blaenoriaeth ar sicrhau cyflenwad sefydlog o fwyd o ansawdd uchel gan ffermydd teuluol Cymru, a phwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal a chryfhau hunangynhaliaeth o ran bwyd.

Hygyrchedd

6.14 Nododd yr ymgyrch fod yn rhaid i reolau'r Cynllun fod yn ddichonadwy ac na ddylai greu rhwystrau i ymuno. Dywedwyd bod y gofyniad ynglŷn â 10% o orchudd coetir yn rhwystr posibl i ymuno â'r Cynllun, a allai hefyd effeithio ar allbwn ffermydd a gwerth tir. Awgrymwyd bod angen i ymarferoldeb a pherthnasedd y gweithredoedd arfaethedig, fel y modiwlau DPP gorfodol, gael eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu realiti ffermio.

Modelu

6.15 Tynnodd ymgyrch Undeb Amaethwyr Cymru sylw at asesiad modelu Llywodraeth Cymru o gyfraddau talu amrywiol a oedd yn dangos gostyngiadau sylweddol yn Incwm Busnesau Fferm, unedau da byw a gofynion llafur ar ffermydd.

## Cyfraniadau unigolion

6.16 Rhoddwyd cyfle i unigolion a oedd yn ymateb drwy'r ymgyrch ychwanegu eu cyfraniad eu hunain at destun yr ymgyrch. Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn y cyfraniadau hyn yn gyson â'r rhai a fu'n bresennol drwy gydol yr ymgynghoriad, gan gynnwys:

- roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn gwrthwynebu'r gofynion ynglŷn â choetir a chynefin oherwydd y canfyddiad y bydd yn ofynnol i ffermwyr ddefnyddio "tir o radd uchel" i blannu coed, gydag un ymateb yn nodi "nid yw'n dderbyniol mynd â 10% o dir amaethyddol da i blannu coed. Cynhyrchwyr bwyd yw ffermwyr ac mae ein gorfodi i gadw llai o dda byw yn golygu ein bod yn cynhyrchu llai o fwyd ynghyd â 10% ar gyfer cynefin. Rydych yn

mynd â chyfanswm o 20% at ddibenion heblaw cynhyrchu bwyd ac fel ffermwyr ni allwn gynnal busnes llwyddiannus”

- mynegodd y mwyafrif o’r ymatebion bryder ynglŷn ag effeithiau posibl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gynhyrchu bwyd, gydag ymatebion yn awgrymu y byddai’r Cynllun yn arwain at gynhyrchu llai o fwyd a “dibyniaeth” ar fewnforion bwyd yn hytrach na hyrwyddo cynhyrchu bwyd domestig.
- roedd llawer o’r ymatebion yn pryderu am gynnydd canfyddedig yn y “baich gweinyddol” ochr yn ochr ag effeithiau posibl y Cynllun ar iechyd meddwl, gydag un ymateb yn nodi “Mae’n ddigon posibl y bydd hyn yn achosi problemau iechyd meddwl a straen i deuluoedd”
- nododd llawer o’r ymatebion fod angen cyfraddau talu digonol er mwyn osgoi effeithiau economaidd negyddol
- disgrifiwyd y Cynllun fel “un ateb i bawb” mewn llawer o’r ymatebion a oedd yn pryderu nad yw’r polisi yn adlewyrchu realiti ffermio ledled Cymru.

6.17 Yn ogystal â’r themâu hyn, daeth tair arall i’r golwg a oedd yn llai cyffredin yn yr ymateb ehangach i’r ymgynghoriad, sef:

- canfyddiad bod diffyg cymorth penodol i ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid yn y sector, yr oedd llawer o’r ymatebion yn ei gysylltu â hyfywedd hirdymor y sector.
- pwysigrwydd y sector amaethyddiaeth ym mywyd cefn gwlad, gan gynnwys cyfraniadau economaidd, diwylliannol, ieithyddol a chymdeithasol y sector.
- nododd llawer o’r ymatebion gyfraniadau amgylcheddol presennol ffermwyr, gan awgrymu nad oedd y rhain yn cael eu cydnabod.

**Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru**

6.18 Trefnodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru ymgyrch ffurfiol i ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn rhoi cyfle i gefnogwyr nodi eu barn arno.

### Ystadegau'r ymgyrch

6.19 Cafodd ymgyrch Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr 6,066 o ymatebion i gyd, gyda 91% yn Saesneg a 9% yn Gymraeg.

### Themâu'r ymgyrch

6.20 Pwysleisiodd ymgyrch yr NFU bedair thema allweddol: cynhyrchu bwyd, sefydlogrwydd, cymorth i ffermwyr gweithredol, a chyllido.

Cynhyrchu bwyd

6.21 Roedd yr ymgyrch yn dadlau o blaid cynllun sy'n blaenoriaethu cynhyrchu bwyd yng Nghymru. Roedd yr Undeb yn dadlau bod polisi amaethyddol domestig cadarn yn hanfodol er mwyn gwrthsefyll natur fregus cadwyni cyflenwi bwyd y byd.

Sefydlogrwydd

6.22 Roedd yr Undeb yn dadlau o blaid cynnwys ffordd o sicrhau sefydlogrwydd hirdymor yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn cefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd diogel o ansawdd uchel a chefnogi cymunedau gwledig a sicrwydd cyflogaeth.

Cymorth i ffermwyr gweithredol

6.23 Nododd yr Undeb fod angen sicrhau bod Haen Sylfaenol Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn rhoi'r un mynediad i bob ffermwr gweithredol, gan gynnwys ffermwyr tenant a'r rhai sydd â hawliau tir comin. Nododd yr ymgyrch bryder ynglŷn â'r Gweithredoedd Cyffredinol, gan ystyried bod y rhain yn rhwystrau posibl a fyddai'n atal ffermwyr rhag cymryd rhan oherwydd eu heffaith ar leihau'r tir sydd ar gael i gynhyrchu bwyd.

### Cyllido

6.24 Roedd yr ymgyrch yn dadlau y dylai’r Taliad Sylfaenol Cyffredinol, a gynigir gan Lywodraeth Cymru, ymestyn y tu hwnt i dalu’r costau yr eir iddynt a’r incwm a ildiwyd yn unig.

### Cyfraniadau unigolion

6.25 Rhoddwyd cyfle i unigolion a oedd yn ymateb drwy’r ymgyrch ychwanegu eu cyfraniad eu hunain at destun yr ymgyrch. Roedd y themâu a ddaeth i’r golwg yn y cyfraniadau hyn yn gyson â’r rhai a fu’n bresennol drwy gydol yr ymgynghoriad, gan gynnwys:

- mynegodd y mwyafrif o’r ymatebion bryderon y byddai’r Cynllun yn cael effaith negyddol ar hyfywedd ffermydd, gan gyfeirio at y gwaith modelu economaidd a wnaed, a’r effaith ganfyddedig “na fyddai 20% o dir ar gael i gynhyrchu bwyd mwyach”
- nododd llawer o’r ymatebion bwysigrwydd ffermydd mewn cymunedau gwledig oherwydd eu cyfraniad economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol, a gynrychiolwyd gan yr ymateb hwn “Credaf y bydd y rhan fwyaf o’n cymunedau gwledig yn diflannu heb amaethyddiaeth“. Awgrymodd yr ymatebion yn benodol y bydd unrhyw effaith negyddol ar ffermydd o ganlyniad i’r Cynllun yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg.
- mynegodd llawer o’r ymatebion y canfyddiad y byddai effaith anghymesur ar ffermydd bach oherwydd eu dibyniaeth ar Gynllun y Taliad Sylfaenol fel math o gymhorthdal incwm, manteision canfyddedig arbedion maint, a’r dehongliad y bydd pob fferm yn gorfod ymgymryd â’r un gwaith gweinyddol ychwanegol a fydd yn effeithio ar ffermwyr nad oes ganddynt fynediad at lafur ychwanegol.
- nododd rhai ymatebion yr effeithiau negyddol posibl ar iechyd meddwl ffermwyr, gydag un ymateb yn nodi ”Mae’r straen feddyliol ar bob un ohonom o ganlyniad i hyn yn anhygoel ond

does neb wedi cyfrifo'r staen ar y cenedlaethau nesaf wrth iddynt wrando ar yr holl ansicrwydd hwn a'r sgyrsiau yn y gegin lle mae teuluoedd yn meddwl tybed sut y gallant oroesi os na allant gynllunio ar gyfer eu dyfodol eu hunain heb sôn am ddyfodol eu plant"

- tynnodd llawer o'r ymatebion sylw at bwysigrwydd cynhyrchu bwyd i economi Cymru a diogeledd bwyd ac roedd yr ymadrodd "dim ffermwyr, dim bwyd" yn cael ei ddyfynnu dro ar ôl tro
- roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn gwrthwynebu'r gofynion ynglŷn â choetir a chynefin am nifer o resymau, gan gynnwys y disgwyliad y byddai tir yn colli gwerth, colli tir cynhyrchiol, anymarferoldeb a'r canfyddiad bod prinder tir addas. Nododd ymatebion eu bod yn eu hystyried eu hunain yn gynhyrchwyr bwyd yn bennaf, yn hytrach na chadwraethwyr, a nododd un ymateb: "Mae ffermio i mi yn golygu cynhyrchu bwyd a bwydo pobl"
- trafododd llawer o'r ymatebion berthynas ffermwyr â'r llywodraeth, gan gynnwys dibyniaeth ar ffrydiau incwm y llywodraeth, prosesau Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu ac ymdrin â data, a diffyg tryloywder canfyddedig ynglŷn â strwythurau talu.
- roedd nifer bach o'r ymatebion o blaid symud tuag at ffermio mwy cynaliadwy, gan bwysleisio'r angen am gymhellion digonol.

**Cynghrair y Gweithwyr Tir**

6.26 Trefnodd Cynghrair y Gweithwyr Tir ymgyrch i ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

### Ystadegau'r ymgyrch

6.27 Cafodd yr ymgyrch 24 o ymatebion i gyd, yr oedd pedwar ohonynt yn Gymraeg.

### Themâu’r ymgyrch

6.28 Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys dadlau o blaid diwygiadau i’r Taliad Sylfaenol Cyffredinol er mwyn sicrhau bod tegwch i ffermydd bach, hyrwyddo cymorth penodol i arddwriaeth, rhoi’r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol ar waith yn amserol, a chyllid digonol i bontio i arferion ffermio cynaliadwy yng Nghymru.

**Tir Natur**

6.29 Trefnodd yr elusen Tir Natur ymgyrch i ymateb i’r ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

### Ystadegau’r ymgyrch

6.30 Cafodd yr ymgyrch 55 o ymatebion i gyd, yr oedd un ohonynt yn Gymraeg.

### Themâu’r ymgyrch

6.31 Nododd yr ymgyrch fod byd natur yng Nghymru “mewn argyfwng”, gan briodoli llawer o’r dirywiad i arferion ffermio anghynaliadwy. Nododd fod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyfle allweddol i wrthdroi’r tueddiadau hyn, gan bwysleisio pwysigrwydd ail-lunio arferion ffermio i fod yn gyson ag amcanion cynaliadwyedd. Ymhlith y themâu canolog roedd hyrwyddo prosesau naturiol yn lle ffyrdd traddodiadol o reoli cynefinoedd, yr angen i gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, a phwysigrwydd cydweithio rhwng ffermwyr er mwyn adfer ecosystemau ar raddfa tirwedd. Hefyd, pwysleisiodd rôl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o ran lliniaru’r newid yn yr hinsawdd a’i botensial i sicrhau buddiannau diwylliannol a chymunedol i Gymru.

**Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru**

6.32 Rhannodd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru arolwg â’i aelodau a chyflwynodd y canlyniadau ar y cyd.

### Ystadegau’r ymgyrch

6.33 Cafodd yr arolwg 358 o ymatebion cyflawn, yr oedd 62% ohonynt yn Saesneg a 38% ohonynt yn Gymraeg.

### Themâu’r ymgyrch

6.34 Yn yr ymatebion roedd canfyddiad bod gweithgarwch economaidd ehangach yn cael ei gefnogi gan ffermydd, a’r cynnyrch a’r gwasanaethau a ddarperir y tu hwnt i giat y fferm yn eu cymunedau lleol. Roedd y mwyafrif o’r ymatebion yn cyfleu cysylltiad dwfn â ffermio fel ffordd o fyw. Gwnaethant gyflwyno’r ymdeimlad o berthyn i dreftadaeth a thraddodiad o reoli’r tir sydd wedi bodoli ers canrifoedd.

6.35 Gofynnodd Cwestiwn 5 o’r arolwg "A fydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar eich busnes?"

6.36 Yn gyffredinol, nododd 343 o ymatebion y byddai’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael effaith negyddol ar eu busnes a nododd 15 y byddai’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael effaith gadarnhaol ar eu busnes.

6.37 Roedd Cwestiwn 6 o’r arolwg yn gofyn "Esboniwch beth fydd effeithiau’r cynllun arfaethedig ar eich busnes?"

6.38 Mynegodd ymatebion CFfI bryderon ynglŷn â cholli tir pori oherwydd gofynion y Cynllun. Awgrymodd llawer o’r ymatebion i’r arolwg:

- y bydd y Cynllun yn cyfyngu ar gynhyrchiant
- na fydd plannu coed ar eu tir yn hyfyw
- y bydd angen hyfforddiant sylweddol i gyflawni’r gofynion
- y bydd y Cynllun yn arwain at golli incwm

- bod y cynigion wedi achosion mwy o straen.

6.39 Gofynnodd Cwestiwn 7 o’r arolwg "Os caiff y Cynllun ei gymeradwyo ar ei ffurf bresennol, a fydd yn rhaid i chi ystyried arallgyfeirio?"

6.40 Yn gyffredinol, nododd 208 o ymatebion y byddai’n rhaid iddynt ystyried arallgyfeirio ymhellach ac adolygu eu model busnes presennol yng ngoleuni’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

6.41 Nododd llawer o’r ymatebion y byddent yn ystyried arallgyfeirio ymhellach, gan honni na fydd dewis ond arallgyfeirio pe bai cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn mynd yn eu blaen ar eu ffurf bresennol. Nododd yr ymatebion hyn y bydd yn rhaid iddynt gwmpasu opsiynau newydd ar gyfer arallgyfeirio neu wynebu’r risg o golli eu fferm neu adael y sector yn gyfan gwbl.

6.42 Awgrymodd llawer o’r ymatebion y byddai angen iddynt arallgyfeirio ym maes twristiaeth a lletygarwch neu geisio cyflogaeth ychwanegol naill ai yn y sector amaethyddiaeth neu mewn sectorau eraill. Soniodd sawl ymateb am gynhyrchu ynni adnewyddadwy neu ddechrau cynhyrchu cynnyrch gwahanol fel cyfleoedd posibl i arallgyfeirio.

6.43 Nododd llawer o’r ymatebion eu bod eisoes wedi gwneud newid sylweddol tuag at arallgyfeirio er mwyn rheoli dyfodol ariannol eu fferm, ond y byddai angen iddynt adolygu eu model busnes o ystyried goblygiadau ariannol posibl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Fodd bynnag, nododd llawer o’r ymatebion rwystrau i arallgyfeirio, gan gynnwys:

- cyfalaf cyfyngedig
- natur y tir a oedd yn ei wneud yn anaddas at ddefnyddiau amgen
- cyfyngiadau cynllunio oherwydd dynodiad SoDdGA neu statws Parciau Cenedlaethol
- cyfyngiadau tenantiaeth o ran at ba ddibenion y gellir defnyddio’r tir a pha newidiadau y gellir eu gwneud i adeiladau presennol

Rhoddodd Cwestiwn 10 o’r arolwg gyfle i wneud sylwadau pellach wrth ymateb.

6.44 Roedd y themâu a ddaeth i’r golwg mewn perthynas â’r cwestiwn hwn yn gyson â’r rhai a fu’n bresennol drwy gydol yr ymgynghoriad, gan gynnwys:

- pwysigrwydd cynhyrchu bwyd
- yr angen i gefnogi’r genhedlaeth nesaf o ffermwyr
- gwrthwynebiad i’r gofynion ynglŷn â choetir a chynefin
- costau ychwanegol y gofynion
- yr effaith ar iechyd meddwl ffermwyr
- yr effaith ar gymunedau gwledig a’r Gymraeg.

**Ymddiriedolaeth Natur Cymru a World Wide Fund for Nature Cymru**

6.45 Cyflwynodd Ymddiriedolaeth Natur Cymru a World Wide Fund for Nature Cymru (y cyfeirir atynt yn yr adran hon fel WTW-WWF) ymatebion fel rhan o un ymgyrch.

### Ystadegau’r ymgyrch

6.46 Cafodd ymgyrch WTW-WWF 362 o ymatebion i gyd a chyflwynwyd 2 ohonynt yn Gymraeg.

### Themâu’r ymgyrch

6.47 Aeth ymatebion yr ymgyrch i’r afael â’r pum categori canlynol:

- Mewn ymateb i Gwestiwn 1 o’r ymgynghoriad, pwysleisiodd yr ymgyrch fod angen sicrhau bod ffermwyr yn cael eu cefnogi drwy gyllid a chanllawiau priodol, gan annog y dylai’r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol gael eu rhoi ar waith

- roedd ymateb yr ymgyrch yn cefnogi'r gofynion ynglŷn â choetir a chynefin, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur (Cwestiynau 2, 4 a 5). Fodd bynnag, roedd yr ymgyrch yn pryderu ynglŷn â'r ddibyniaeth ar hunanasesu, gan awgrymu bod angen cyfres o safonau amgylcheddol i ffermwyr nad ydynt yn rhan o'r Cynllun. Roedd yr ymgyrch yn cefnogi'r cynnig i raddol ddiddymu Cynllun y Taliad Sylfaenol mor gyflym â phosibl er mwyn cynyddu'r gyllideb ar gyfer y Gweithredoedd Cydweithredol ac Opsiynol
- mewn ymateb i Gwestiwn 8, roedd ymateb yr ymgyrch yn beirniadu absenoldeb Safonau Gofynnol Cenedlaethol ochr yn ochr â'r Cynllun, gan godi pwysigrwydd sicrhau bod ffermwyr yn cydymffurfio â'r safonau rheoliadol presennol. Roedd yn credu nad yw'r Cynllun yn mynd yn ddigon pell i ddiogelu safonau
- pwysleisiodd yr ymateb fod angen i ffermwyr gael digon o dâl i sicrhau eu bod yn gallu rhoi'r Gweithredoedd Cyffredinol ar waith yn llawn (Cwestiwn 10). Pwysleisiodd yr ymateb bwysigrwydd diddymu Cynllun y Taliad Sylfaenol yn raddol a defnyddio'r gyllideb ychwanegol i gefnogi'r haenau Opsiynol a Chydweithredol
- nododd ymateb yr ymgyrch bwysigrwydd darparu digon o gyllid i ffermwyr er mwyn iddynt geisio cyngor proffesiynol wrth wneud newidiadau (Cwestiynau 11, 12, 13).

## Cyfraniadau unigolion

6.48 Rhoddwyd cyfle i unigolion a oedd yn ymateb drwy ymgyrch WTW-WWF ychwanegu eu cyfraniad eu hunain at destun yr ymgyrch. Y themâu a ddaeth i'r golwg yn y cyfraniadau hyn oedd:

- yr angen am ddeddfwriaeth ychwanegol i ddiogelu gwrychoedd a phwysigrwydd gwrychoedd fel cynefin a dalfa garbon

- pwysigrwydd addysg ar arferion cynaliadwy a'r angen am gyllid i'w gwneud yn bosibl i ffermwyr fanteisio ar yr addysg honno
- mae angen gwneud mwy o ymdrech i ddiogelu afonydd a chyrff dŵr
- mae angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy roi mwy o bwyslais ar fioamrywiaeth ac mae angen "rhoi cymhelliant i ymgymryd â ffermio llai dwys a rheoli'r tir mewn ffordd sy'n fwy bioamrywiol."

# 7. Sioeau teithiol Cynllun Ffermio Cynaliadwy

7.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru 10 sioe deithiol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o amgylch Cymru rhwng 17 Ionawr a 14 Chwefror 2024. Ymdrechodd Llywodraeth Cymru, lle bo’n bosibl, i drefnu’r sioeau teithiol fel bod digwyddiad o fewn awr i bob ffermwr yng Nghymru. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i’r Sioeau Teithiol drwy Gwlad Ar-lein, RPW Ar-lein, sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru a thrwy rwydweithiau rhanddeiliaid.

7.2 Mynychodd cyfanswm o tua 3,200 o fynychwyr y 10 digwyddiad. Mae Tabl 7.1 yn dangos dadansoddiad bras o'r niferoedd ym mhob digwyddiad.

**Tabl 7.1: Ffigurau presenoldeb bras yn nigwyddiadau sioe deithiol SFS**

| Dyddiad | Lleoliad | Presenoldeb bras |
|---|---|---|
| 17-Ionawr-24 | Caernarfon | 210 |
| 18-Ionawr-24 | Llangollen | 205 |
| 22-Ionawr-24 | Llanymddyfri | 340 |
| 24-Ionawr-24 | Y Trallwng | 270 |
| 30-Ionawr-24 | Gwbert | 260 |
| 31-Ionawr-24 | Arberth | 360 |
| 05-Chwefror-24 | Rhaglan | 270 |
| 06-Chwefror-24 | Penybont | 185 |
| 09-Chwefror-24 | Llanfair ym Muallt | 800 |
| 14-Chwefror-24 | Machynlleth | 300 |
| | Cyanswm presenoldeb | 3,200 |

7.3 Roedd y sioeau teithiol yn gyfle i swyddogion Llywodraeth Cymru esbonio cynigion yr ymgynghoriad ac ateb cwestiynau. Rhannwyd y sioeau teithiol rhwng cyflwyniadau safonol ynghyd â sesiynau cwestiwn ac ateb, a hefyd cyfleoedd mwy anffurfiol i fynychwyr siarad yn uniongyrchol â staff Llywodraeth Cymru yn unigol.

7.4 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud bod y themâu a godwyd gan fynychwyr sioeau teithiol yn cyd-fynd yn fras â’r rhai a

nodwyd yn y dadansoddiad thematig o’r ymatebion a drafodir yn yr adroddiad hwn.

# 8. Gohebiaeth

8.1 Cafodd 80 o negeseuon e-bost a anfonwyd mewn perthynas â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar y pryd, eu dadansoddi fel gohebiaeth. Roedd 73 o'r negeseuon yn Saesneg ac roedd saith yn Gymraeg.

## Dadansoddiad thematig

8.2 Roedd y themâu a ddaeth i'r golwg yn yr ohebiaeth yn gyson â'r rhai a fu'n bresennol drwy gydol yr ymgynghoriad, gan gynnwys y canlynol:

- mynegodd llawer o'r ymatebion wrthwynebiad i'r gofynion ynglŷn â 10% o goetir a chynefin, oherwydd cwestiynau ynglyn â'u haddasrwydd i'r amrywiaeth o ffermydd yng Nghymru, buddiannau coed o ran atafaelu carbon, a dehongliad bod y gofynion yn amharu ar hawliau ffermwyr i wneud penderfyniadau ar eu ffermydd. Hefyd, roedd yn beth cyffredin i'r gofynion hyn gael eu dehongli i olygu colli 20% o ffermdir cynhyrchiol ar gyfer pob fferm.
- mynegodd llawer o'r ymatebion yr awydd am ddull gweithredu mwy cefnogol gan Lywodraeth Cymru drwy gynnig mwy o hyblygrwydd, cymorth ariannol i wneud buddsoddiadau i sicrhau bod ffermydd yn fwy cynaliadwy, a galluogi ffermwyr i gydweithio i fodloni'r gofynion Awgrymodd nifer bach ddulliau gweithredu amgen yn lle'r gofynion ynglŷn â choetir a chynefin, megis cynllun trwyddedu.
- roedd dehongliad o oblygiadau ariannol y cynigion yn beth cyffredin yn y mwyafrif o'r ymatebion, a arweiniodd at bryderon ynglŷn â hyfywedd ariannol ffermydd, ac awgrymwyd y bydd y gofynion yn arwain at gostau llafur a hyfforddiant cynyddol, yn ogystal â'r defnydd o ymgynghorwyr allanol. Hefyd, roedd y pryder ynglŷn â goblygiadau ariannol posibl y cynigion yn

ymestyn i'r canfyddiad na fyddai taliadau'r Cynllun yn ddigonol. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â sut y caiff taliadau eu pennu

- pryderon ynglŷn â phroblemau mwy cyffredinol yn y sector megis TB a Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (y cyfeiriodd ffermwyr atynt fel "parthau perygl nitradau" weithiau), ac effaith polisïau yn y sector twristiaeth megis "treth twristiaid", problemau gyda gwasanaethau cynhyrchu coed a phrofi priddoedd. Codwyd y rhain i gyd fel ffactorau a all effeithio ar allu ffermwr i ymgymryd â Gweithredoedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chydymffurfio â rheolau'r Cynllun.
- roedd nifer bach o'r ymatebion yn cefnogi'r Cynllun oherwydd y buddiannau amgylcheddol canfyddedig
- yn ychwanegol at y themâu hyn, gwnaeth yr ohebiaeth bwysleisio themâu megis pwysigrwydd cynhyrchu bwyd, pryderon ynglŷn â gweinyddiaeth ychwanegol a phryderon â'r effaith ar iechyd meddwl ffermwyr o ganlyniad i'r Cynllun.